PRIS £26.60

CM 7513

# Helpu i lunio'r dyfodol

## Cyfrifiad Poblogaeth a Thai Cymru a Lloegr 2011








Swyddfa'r Cabinet

# Helpu i lunio'r dyfodol

## Cyfrifiad Poblogaeth a Thai Cymru a Lloegr 2011

Cyflwynwyd gerbron y Senedd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

Rhagfyr 2008

Cm 7513

Pris £26.60

© Hawlfraint y Goron 2008

Gellir atgynhyrchu’r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio’r Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â’i fod yn cael ei atgynhyrchu’n gywir heb ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Lle’r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan berchnogion yr hawlfraint dan sylw.

I ddefnyddio’r deunydd hwn mewn unrhyw ffordd arall, ysgrifennwch at Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu anfonwch e-bost i: licensing@opsi.gov.uk

ISBN: 9780108507861

# Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagymadrodd (gan y Gwir Anrh Liam Byrne AS, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet)** | vii |
| **Rhagair (gan Syr Michael Scholar, Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU)** | ix |
| **Crynodeb Gweithredol** | 1 |
| **1 Cyflwyniad** | 15 |
| Y penderfyniad ar y Cyfrifiad | 16 |
| Y dewis o ran y dyddiad | 16 |
| Rôl y Cyfrifiad o ran diwallu'r angen am wybodaeth i wneud penderfyniadau cenedlaethol a lleol | 17 |
| Llunio polisi'r Llywodraeth | 17 |
| Meincnodi | 18 |
| Dyrannu adnoddau | 18 |
| Gwaith buddsoddi a monitro lleol | 19 |
| Defnydd gan fusnesau | 19 |
| Ymchwil | 19 |
| Ffynonellau data amgen | 19 |
| Rôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel asiantaeth ystadegau annibynnol | 20 |
| Rôl ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru | 20 |
| Ystyried y cynigion ar gyfer y Cyfrifiadau yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar wahân | 21 |
| Safbwynt rhyngwladol a Rheoliadau'r UE | 21 |
| Argymhellion Cyfrifiad 2001 a nodau strategol 2011 | 22 |
| Crynodeb o brif nodweddion cynllun Cyfrifiad 2011 | 23 |
| Cost a rheolaeth ariannol | 24 |
| **2 Ymgynghoriadau a phrofion y Cyfrifiad** | 27 |
| Y broses ymgynghori | 28 |
| Cynnwys rhanddeiliaid yn fwy | 31 |
| Profion y Cyfrifiad | 31 |
| Ymarfer y Cyfrifiad | 33 |

3 Poblogaeth a phynciau i'w cwmpasu gan y Cyfrifiad 35
Sail y boblogaeth 36
Diffiniad diwygiedig o 'gartref'[1] 37
Gofynion o ran pynciau 38
Meini prawf i ddiwallu anghenion defnyddwyr 39
Meini prawf i SYG eu hystyried 39
Pynciau dethol 41
Ymhob eiddo a feddiannir gan gartref ac ar gyfer pob math o lety cartref heb ei feddiannu 41
Ar gyfer cartrefi 41
Ar gyfer preswylwyr mewn cartrefi 41
Ar gyfer ymwelwyr mewn cartrefi 42
Ar gyfer preswylwyr mewn sefydliadau cymunedol 42
Ar gyfer sefydliadau cymunedol 42
Cwestiynau i'w holi ymhob cyfeiriad 43
Cwestiynau ar gyfer pob cartref 44
Cwestiynau ar dai 44
Cludiant cartrefi 45
Cwestiynau ar gyfer preswylwyr mewn cartrefi 46
Nodweddion poblogaeth sylfaenol 46
Ail breswylfa 48
Nodweddion diwylliannol 49
Iechyd 53
Cymwysterau 55
Cyflogaeth a'r llafurlu 55
Cwestiynau am ymwelwyr 59
Trefniadau ar gyfer sefydliadau cymunedol 59
Pynciau a ystyriwyd ond nas cynhwyswyd yn y cynigion ar gyfer Cyfrifiad 2011 60
Yr achos o blaid ac yn erbyn cynnwys cwestiwn ar incwm 62
Casglu gwybodaeth am hunaniaeth rywiol 63

1 Yn y Papur Gwyn hwn ac yn holiaduron y Cyfrifiad, defnyddir 'cartref' neu 'aelod(au) o'r cartref' i gyfateb i'r gair Saesneg 'household', ond, at ddibenion y gyfraith, bydd Rheoliadau'r Cyfrifiad yn defnyddio'r term 'aelwyd'.

4 Casglu’r wybodaeth 65

Cyflwyniad 66

Amcanion gweithredol 67

Staff maes dros dro 67

Recriwtio, hyfforddiant a thalu staff maes 68

Postio a datblygu Cofrestr Cyfeiriadau 68

Gwirio cyfeiriadau 70

Dosbarthu ffurflenni 70

Dosbarthu drwy’r post 71

Dosbarthu â llaw 71

Canolfan Gyswllt 71

Casglu holiaduron wedi’u llenwi 71

Postio ymateb 72

Llenwi ar y Rhyngrwyd (ar-lein) 72

Ymweliadau dilynol 73

Ymweliadau dilynol mewn perthynas â diffyg ymateb 73

Cynnal ymweliadau dilynol mewn perthynas ag ymatebion gwag neu anghyflawn 73

Sefydliadau cymunedol 73

Gweithdrefnau cyfrifo arbennig 74

Trefniadau yng Nghymru o ran Deddf yr Iaith Gymraeg 75

Cyswllt lleol a chymunedol 75

Cyswllt awdurdod lleol 75

Cyswllt cymunedol 76

Gorfodi’r gofyniad cyfreithiol i lenwi ffurflen cyfrifiad 77

Cwmpas ac ansawdd data 78

Arolygon Cwmpas ac Ansawdd y Cyfrifiad 79

Cyhoeddusrwydd 79

Gosod rhannau o weithredu’r Cyfrifiad ar gontract allanol 82

5 Prosesu’r data a chyhoeddi canlyniadau’r Cyfrifiad 85

Cyflwyniad 86

Prosesu data 86

Gweithrediadau cipio data 87

Sganio a chipio data 87

Prosesu 'eilaidd' 88

Llwytho data 88

Golygu a phriodoli 88

Asesu cwmpas ac addasu 89

Sicrhau ansawdd 89

Cynhyrchu allbwn 90

Cymhwyso methodoleg rheoli datgelu ystadegol 90

Rhannu'r canlyniadau 91

Cynllunio daearyddiaeth yr allbwn 93

**6 Cyfrinachedd, preifatrwydd a diogelwch cyfrifiadurol** 95

Egwyddorion cyfrinachedd 96

Cyfrinachedd ystadegol 97

Arolygon cysylltiedig, yr Astudiaeth Hydredol a diogelu data 99

Cael gafael ar ddata a'i rannu 99

Diogelwch staff maes 100

Adolygiadau o gyfrinachedd a diogelwch cyfrifiadurol 101

Preifatrwydd a'r Ddeddf Hawliau Dynol 101

Polisi Llywodraeth y DU ar alluogi'r cyhoedd i weld cofnodion cyfrifiad personol 101

**7 Y broses ddeddfwriaethol** 103

Deddfwriaeth sylfaenol cyfrifiad 104

Is-ddeddfwriaeth 104

Gorchymyn y Cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr 104

Rheoliadau ar wahân ar gyfer y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr 105

Trefniadau ar gyfer y Cyfrifiad yng Nghymru 106

Trosglwyddo swyddogaethau 106

Ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru 107

Datganoli'r Cyfrifiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon 107

**Cyfeiriadau** 109

# Rhagymadrodd

## Gwir Anrh Liam Byrne AS, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn




Ers dros ddau gan mlynedd, mae'r wlad wedi dibynnu ar y Cyfrifiad i ategu'r broses o wneud penderfyniadau cenedlaethol a lleol.

Mae angen i'r llywodraeth, awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd, y gymuned addysg ac academaidd, busnesau masnachol, sefydliadau proffesiynol a'r cyhoedd gael gwybodaeth ddibynadwy am nifer a nodweddion pobl a chartrefi er mwyn cyflawni llawer o'u gweithgareddau yn effeithiol a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd, y ffordd orau o ddiwallu'r angen hwn yw cynnal cyfrifiad bob deng mlynedd sy'n cwmpasu'r boblogaeth gyfan, a thrwy ddiweddaru'r amcangyfrifon o'r boblogaeth bob blwyddyn gan ddefnyddio'r cyfrifiad blaenorol fel sylfaen.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno cynigion Awdurdod Ystadegau annibynnol newydd y DU ar gyfer Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2011, a chaiff ei gyhoeddi nawr am fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y dylid neilltuo digon o amser i drafod cynigion a fydd yn effeithio ar bob cartref a phob unigolyn yn y wlad yn gyhoeddus.

Mae'r broses o gynllunio'r Cyfrifiad newydd yn adeiladu ar y profiad a enillwyd gan SYG yn sgîl cyfrifiadau blaenorol yn gyffredinol ac, yn arbennig, y gwersi a ddysgwyd yn dilyn Cyfrifiad 2001, a chan ystyried yr argymhellion ffurfiol niferus gan Bwyllgor Dethol y Trysorlys, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r hen Gomisiwn Ystadegau.


Ond yn bwysicaf oll mae'r Cyfrifiad yn dibynnu ar gydweithrediad a chyfranogiad parod y cyhoedd y mae'r wybodaeth a gaiff ei chasglu yn ei wasanaethu. Felly, mae Cyfrifiad 2011 yn cyfrif yn fawr ar boblogaeth Cymru a Lloegr i helpu i lunio'r dyfodol.



Liam Byrne AS
Y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet

# Rhagair

## Syr Michael Scholar, Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU



Mae'r Cyfrifiad yn cynnig cyfle sydd ond yn codi bob deng mlynedd i gael darlun cywir, cynhwysfawr a chyson o adnodd mwyaf gwerthfawr Cymru a Lloegr – y boblogaeth – ac amrywiaeth cyfoethog o ffeithiau amdani.  Mae'r canlyniadau yn amhrisiadwy o ran llunio polisïau cenedlaethol a lleol, cynllunio a thargedu adnoddau'n effeithiol. Y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell o ystadegau y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gyfer ardaloedd bach a grwpiau lleiafrifol o'r boblogaeth, ac sy'n gyson ledled Cymru a Lloegr a gweddill y Deyrnas Unedig ar y cyfan. Fe'i defnyddir fel ffynhonnell gyfeirio ar gyfer llawer o gyfresi ystadegol megis amcangyfrifon ac amcanestyniadau o'r boblogaeth ac arolygon sampl.

Am y tro cyntaf ers 1831, ni fydd Cyfrifiad 2011 Cymru a Lloegr – y cyflwynir ei gynigion yn y Papur Gwyn hwn – yn cael ei gynnal dan nawdd y Cofrestrydd Cyffredinol. Gyda Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 wedi dod i rym ar 1 Ebrill 2008, Awdurdod Ystadegau'r DU sydd bellach yn gyfrifol am gynnal y cyfrifiad bob deng mlynedd, ac, ar ei ran, rwy'n hynod falch o gyflwyno'r cynigion gerbron y Senedd drwy'r Gweinidog sy'n gyfrifol am faterion y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

Mae'r Ddeddf newydd wedi galluogi SYG i fanteisio ar nifer o ddatblygiadau ystadegol sydd wedi helpu i lunio'r trefniadau a gynigir ar gyfer Cyfrifiad 2011. Yn arbennig, mae gwella adnoddau rhannu data wedi arwain at ddatblygu cofrestr cyfeiriadau a luniwyd yn benodol i reoli'r broses effeithiol o gyflwyno holiaduron cyfrifiad ymhob cartref a monitro symudiad y ffurflenni ar lawr gwlad gan ddefnyddio system olrhain ffurflenni newydd. Bydd hyn yn galluogi SYG i reoli'r gweithrediad maes yn llawer gwell nag o'r blaen a hysbysu rheolwyr maes o gynnydd mewn amser real. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu gan ystyried argymhellion Pwyllgor y Trysorlys y dylai'r Llywodraeth ymgynghori ag Awdurdod

Ystadegau'r DU ac eraill i ddileu unrhyw rwystrau sy'n weddill sy'n atal y broses o lunio cofrestr cyfeiriadau, ac mae SYG wedi llwyddo i gael pob un o'r prif ddarparwyr rhestrau cyfeiriadau i gytuno ar fenter rhannu gwybodaeth interim. Gobeithiwn y bydd y cytundeb hwn a'r gweithdrefnau a ddatblygwyd gennym yn gynhyrchiol ac yn effeithiol iawn. Yn ogystal, bydd rhannu gwybodaeth a roddir gan awdurdodau lleol a chyda hwy yn sicrhau bod rhestr cyfeiriadau o'r fath yn addas at y diben a bod hyder defnyddwyr yng nghwmpas a chywirdeb yr allbwn dilynol yn cynyddu.

Bydd y darpariaethau rhannu data a gynhwysir yn y Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru hefyd yn galluogi mwy o ddefnydd i gael ei wneud o'r amrywiaeth cyfoethog o ddata ystadegol a gynhyrchir gan y Cyfrifiad. Fodd bynnag, mae'n bwysig tanlinellu bod yn rhaid i hyn fod yn amodol ar y rheolaethau llymaf i sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth bersonol a roddir, ac mai felly y bydd bob amser, ac mai dim ond at y dibenion y'i darperir y defnyddir y wybodaeth.

Wrth gynllunio Cyfrifiad 2011 ac wrth geisio gwella cwmpas ac ansawdd, mae'r Ystadegydd Gwladol a swyddogion SYG wedi ymgynghori'n eang â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill, ac wedi datblygu partneriaethau gwaith ag awdurdodau lleol, cyflenwyr ar gontract a'r gweinyddiaethau datganoledig – ac maent yn parhau i wneud hynny. Mae llawer o'r argymhellion a wnaed yn dilyn adolygiadau helaeth o Gyfrifiad 2001 gan Bwyllgorau Trysorlys a Chyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yr hen Gomisiwn Ystadegau a chyrff eraill megis y Gymdeithas Llywodraeth Leol, yn ogystal â chanlyniadau gwerthusiadau ôl-gyfrifiad rheolaidd SYG ei hun, oll wedi helpu i gynllunio Cyfrifiad 2011. Canlyniad hyn oll yw bod y cynigion ar gyfer cynllun y Cyfrifiad a gyflwynir yn y Papur Gwyn hwn yn rhai sy'n gyfystyr â'r dull gorau a mwyaf costeffeithiol o gasglu'r wybodaeth y mae'r wlad yn ei gwneud yn ofynnol, yn ôl Awdurdod Ystadegau'r DU.

Fodd bynnag, mae'r oes fodern hefyd yn galw am ddull modern o weithredu, ac er mai cyfrifiad traddodiadol yw'r unig ffordd ymarferol o gasglu'r amrywiaeth o wybodaeth ryng-gysylltiedig sy'n ofynnol ar hyn o bryd o hyd, mae hefyd angen iddo addasu ei fethodolegau i adlewyrchu technolegau cyfredol ac agweddau newidiol y cyhoedd. O ganlyniad, cynigir nifer o newidiadau mawr yn y cynllun ar gyfer 2011 o gymharu â chyfrifiadau blaenorol.


- Anfonir ffurflenni Cyfrifiad i gartrefi drwy'r post yn y rhan fwyaf o achosion.
- Bydd modd dychwelyd y wybodaeth wedi'i llenwi ar-lein.
- Fel yr wyf wedi'i nodi, caiff cofrestr cyfeiriadau ganolog ei datblygu i hwyluso'r broses o ddosbarthu ffurflenni yn well a gwneud gwaith rheoli maes gwell.
- Darparwyr gwasanaeth arbenigol fydd yn gyfrifol am recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes ar ffurf contract allanol.
- Cynigir cwestiynau newydd ar: hunaniaeth genedlaethol; dinasyddiaeth; ail breswylfa; iaith; statws partneriaeth sifil; ac (ar gyfer pobl nas ganwyd yn y DU) y dyddiad y cafwyd mynediad i'r DU ac am ba hyd y bwriedir aros.
- Bydd yr holl allbwn safonol ar gael i'r cyhoedd ar-lein, ac am ddim, ar y wefan Ystadegau Gwladol.

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn gobeithio y bydd y cynigion hyn yn cael eu derbyn mor eang â phosibl ac, yn arbennig, y bydd y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol, maes o law, i'w gwneud yn bosibl i gynnal y Cyfrifiad. Bydd yr Awdurdod yn atebol i'r Senedd am ganlyniad llwyddiannus y Cyfrifiad ac am gyflwyno adroddiadau ar y canlyniadau. A bydd yn atebol i'r Senedd am unrhyw fethiannau neu ddiffygion. Fodd bynnag, rôl yr Ystadegydd Gwladol fydd sicrhau bod y trefniadau manwl ar gyfer cynnal y Cyfrifiad ar lawr gwlad ac am brosesu, diogelu a rhannu'r data yn bodloni gofynion ac yn cyflawni disgwyliadau defnyddwyr a'r cyhoedd yn llawn.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn trafod y cynigion ar gyfer y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yn unig, gan fod y Cyfrifiad yn fater datganoledig ac yn destun prosesau deddfwriaethol a threfniadau ar wahân yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn y gwledydd hyn, bydd y Cofrestrwyr Cyffredinol yn cyflwyno cynigion tebyg i'w priod gyrff deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r broses o lunio ystadegau cyson ar gyfer y DU i fodloni gofynion amrywiaeth eang o ddefnyddwyr domestig yn ogystal â'r Undeb Ewropeaidd, yn parhau i fod yn hollbwysig, ac i'r perwyl hwn mae'r Ystadegydd Gwladol a'r ddau Gofrestrydd Cyffredinol yn gyd-lofnodwyr Cytundeb ar gynnal Cyfrifiad 2011 yn gyffredinol ac, yn arbennig, ar gynhyrchu allbwn cyson. Cynhaliwyd trafodaeth ac ymgynghoriad llawn rhwng tair Swyddfa'r Cyfrifiad ar bob agwedd ar y broses o gynllunio a chynnal Cyfrifiad 2011, sy'n parhau i fynd rhagddynt.

Dim ond at Gyfrifiad 2011 sydd ar droed y mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hyn yn cyfeirio. Nid yw'r ddogfen yn sôn am ofynion unrhyw gyfrifiad yn y dyfodol o gwbl. Serch hynny, mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn ymwybodol o'r ffaith bod Pwyllgor Dethol y Trysorlys ac eraill o'r farn y dylai'r Cyfrifiad gael ei gynnal ar ei ffurf draddodiadol am y tro olaf yn 2011, ac y dylid ystyried gwneud mwy o ddefnydd o ffynonellau data gweinyddol i lunio ystadegau demograffig yn y dyfodol. Bydd SYG, maes o law, yn adolygu gwerth ac effeithiolrwydd y Cyfrifiad, o gymharu â ffynonellau amgen, o ran llunio'r math o wybodaeth ystadegol sy'n ofynnol gan ddefnyddwyr am amrywiaeth eang o bynciau rhyngddibynnol ac ar gyfer ardaloedd bach ac is-grwpiau o'r boblogaeth. Yn ddiau, bydd ystyried a ellir darparu hyn, gan gyrraedd y safon sy'n ofynnol, drwy gofrestrau gweinyddol neu arolygon sampl yn unig, neu a ddylid cynnal Cyfrifiad pellach yn 2021 i fodloni gofynion defnyddwyr o'r fath, yn destun Papur Gwyn yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, mae cynnal unrhyw gyfrifiad yn her fawr, ond mae Cyfrifiad 2011 yn her y bydd Awdurdod Ystadegau'r DU a'r Ystadegydd Gwladol yn cwrdd â hi gan wybod y caiff yr holl waith paratoi angenrheidiol ei wneud mewn ffordd mor drylwyr ac mor broffesiynol â phosibl, gan adeiladu ar brofiad ac arbenigedd dros 200 mlynedd o gynnal cyfrifiadau yn y wlad hon.



Syr Michael Scholar
Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad – y penderfyniad ar Gyfrifiad 2011 (Pennod 1)

Ar y cyd ag Awdurdod Ystadegau'r DU, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu y dylai'r Cyfrifiad nesaf o'r Boblogaeth gael ei gynnal yng Nghymru a Lloegr ddydd Sul 27 Mawrth 2011. Caiff cyfrifiadau eu cynnal hefyd ar yr un diwrnod yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn amodol ar weithdrefnau deddfwriaethol ar wahân o fewn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Bydd y Cyfrifiad yn gyfystyr â'r 21ain mewn cyfres a gynhaliwyd bob 10 mlynedd yng Nghymru a Lloegr ers 1801, ac eithrio 1941.

Mae angen i'r llywodraeth, awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd, y gymuned addysg ac academaidd, busnesau masnachol, sefydliadau proffesiynol a'r cyhoedd gael gwybodaeth ddibynadwy am nifer a nodweddion pobl a chartrefi er mwyn cyflawni llawer o'u gweithgareddau yn effeithiol. Ar hyn o bryd, y ffordd orau o ddiwallu'r angen hwn yw cynnal cyfrifiad bob deng mlynedd sy'n cwmpasu'r boblogaeth gyfan, a thrwy ddiweddaru'r amcangyfrifon o'r boblogaeth bob blwyddyn a feincnodwyd ar y Cyfrifiad blaenorol.

Gan ystyried y sylwadau, gwerthusiadau ac argymhellion niferus a ddeilliodd o Gyfrifiad 2001, cynlluniwyd Cyfrifiad 2011 ar sail nifer o nodau strategol allweddol:

- rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i sicrhau bod y cyfrifiadau cenedlaethol a lleol o'r boblogaeth yn gywir
- sicrhau'r ymateb cyffredinol mwyaf a lleihau'r gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb mewn ardaloedd penodol ac ymhlith is-grwpiau penodol o'r boblogaeth
- creu partneriaethau effeithiol â sefydliadau eraill, yn enwedig awdurdodau lleol, wrth gynllunio a chynnal y gweithrediad maes
- darparu ystadegau sy'n cynnig gwerth am arian, sy'n addas at y diben ac sydd o ansawdd uchel ac sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ac yn gyson, yn gymaradwy ac yn hygyrch ledled y DU i'r graddau y bo'n bosibl
- diogelu gwybodaeth bersonol gyfrinachol o'r Cyfrifiad *a dangos y gwneir hynny*

## Crynodeb o brif nodweddion cynllun Cyfrifiad 2011 (Pennod 1)

Yn gryno, ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd (a, lle y bo'n briodol, Weinidogion Cymru):

- Bydd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys pawb sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a Lloegr ar noson y Cyfrifiad, gan gasglu is-set o wybodaeth gan ymwelwyr sy'n bresennol ar

noson y Cyfrifiad hefyd.  Cesglir gwybodaeth hefyd gan breswylwyr mewn sefydliadau cymunedol ac unigolion neu gartrefi nad oes ganddynt gyfeiriad arferol neu ffisegol

- Drwy'r post y dosberthir ffurflenni yn bennaf (i gynifer â 95 y cant o gartrefi). Bydd y broses o ddosbarthu ffurflenni drwy staff maes yn canolbwyntio ar ardaloedd y mae'n anodd eu cyfrif
- Bydd y cyhoedd yn gallu dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi drwy'r post, ar-lein, neu drwy eu casglu wrth stepen y drws; bydd help ar gael i unrhyw un sy'n ei chael yn anodd llenwi ffurflen y Cyfrifiad
- Bydd cynnydd bach yn nifer y cwestiynau o gymharu â Chyfrifiad 2001, ond ailgynlluniwyd y ffurflen i'w gwneud yn haws ei llenwi
- Bydd rhywfaint o wahaniaeth yn y cwestiynau a ofynnir yng Nghymru a Lloegr o gymharu â Chyfrifiad 2001, (a bydd rhai gwahaniaethau pellach o gymharu â'r Cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon)
- Mae pob cwestiwn a gynhwysir yn y cynigion yn diwallu angen a nodwyd ac yn addas ar gyfer ffurflen hunan-lenwi; mae cyfrifiadau neu brofion blaenorol wedi dangos bod y cwestiynau yn dderbyniol i'r cyhoedd ar y cyfan
- Y newidiadau mawr i'r cwestiynau o gymharu â 2001 yw:
  - cwestiynau ar hunaniaeth genedlaethol a dinasyddiaeth
  - categorïau ymateb ychwanegol yn y cwestiwn ar ethnigrwydd
  - cwestiynau ar ail breswylfeydd
  - cwestiwn ar iaith
  - cynnwys partneriaeth sifil yn y cwestiwn ar statws priodasol
  - cwestiynau ar y dyddiad y cafodd mewnfudwyr fynediad i'r DU ac am ba hyd y bwriedir aros
- Bydd gweithdrefnau llym o ran cyfrinachedd a diogelwch yn diogelu'r wybodaeth a gesglir yn y Cyfrifiad ac yn cydymffurfio â'r gofynion o ran cyfrinachedd cyfrifiad a deddfwriaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth
- Rhoddir cyhoeddusrwydd i hyn er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at ddiben a gwerth y Cyfrifiad a rhoi sicrwydd ynghylch cyfrinachedd y wybodaeth.
- Rhoddwyd mentrau ar waith i sicrhau bod y wybodaeth a gesglir o'r ansawdd gorau posibl a'i bod yn cael ei mesur yn effeithiol; yn arbennig, cynhelir arolygon cwmpas ac ansawdd y Cyfrifiad i fesur nifer y bobl nas cyfrifwyd gan y Cyfrifiad ac ansawdd yr ymatebion a roddwyd
- Caiff allbwn ystadegol y Cyfrifiad ei gynllunio i fodloni gofynion defnyddwyr, ac fe'i rhennir yn unol ag amserlen a drefnir ymlaen llaw

## Costau (Pennod 1)

Yn seiliedig ar dybiaethau cynllunio presennol, amcangyfrifir mai cyfanswm cost Cyfrifiad 2011 yng Nghymru a Lloegr rhwng 2005 a 2016 yw £482 miliwn ar hyn o bryd. Darparwyd £450 miliwn ar gyfer cost y Cyfrifiad hyd at 2011–12. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer blynyddoedd diweddarach yn amodol ar adolygiadau o wariant yn y dyfodol.

## Ymgynghoriadau a phrofion (Pennod 2)

Mae cynnwys Cyfrifiad 2011 wedi'i lywio'n bennaf gan alwadau a gofynion defnyddwyr ystadegau'r cyfrifiad, y gwerthusiad o Gyfrifiad 2001, a chyngor a chanllawiau sefydliadau sydd â phrofiad o weithrediadau tebyg, a bennir gan ymgynghoriad helaeth, drwy strwythur o bwyllgorau cynghori ffurfiol, gweithgorau sy'n ymwneud â phynciau a chyfarfodydd cyhoeddus, a thrwy'r cyfryngau megis ymgynghoriad a phapurau gwybodaeth SYG, a gwefan y Cyfrifiad.

Ymgynghorwyd ag adrannau'r Llywodraeth, ar sail ddwyochrog ac ar y cyd drwy Benaethiaid Proffesiynau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth a Phwyllgorau rhyngadrannol, i bennu eu hanghenion a blaenoriaethau o ran cynnwys pynciau. Yn yr un modd, ymgynghorwyd ag awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd, y gymuned academaidd, y sector busnes a chymunedau lleol drwy Grwpiau Cynghori hirsefydlog y Cyfrifiad a drefnwyd gan yr Ystadegydd Gwladol. Hefyd, ymgynghorwyd ag arbenigwyr pwnc a methodolegwyr o fewn SYG.

Rheolwyd ymgynghoriadau ychwanegol ag awdurdodau lleol drwy Raglen Gyswllt Awdurdodau Lleol sy'n cael ei datblygu drwy rwydwaith o Hyrwyddwyr Rhanbarthol y Cyfrifiad a benodwyd o blith y Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer pob un o naw Swyddfa'r Llywodraeth yn Lloegr a Swyddog Canlyniadau Cymru.

Yng Nghymru, aeth cynrychiolwyr SYG a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfarfod pob un o Bwyllgorau Pwnc y Cynulliad Cenedlaethol rhwng mis Hydref 2006 a mis Mawrth 2007 i drafod cynlluniau ar gyfer y Cyfrifiad yng Nghymru.

Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol a ategwyd gan nifer o gyfarfodydd agored cenedlaethol ar faterion penodol.

Mae'r cynigion ar gyfer y Cyfrifiad hefyd yn ystyried canlyniadau rhaglen ymchwil a phrofion a anelwyd at feithrin gwell dealltwriaeth o amgyffred a chanfyddiad y cyhoedd o gysyniadau'n ymwneud â'r cyfrifiad, a phrofion, yn fach ac yn fawr, ar eiriad cwestiynau'r cyfrifiad, cynllun yr holiadur a dulliau dosbarthu. Mae'r rhain wedi cynnwys Prawf mawr a gynhaliwyd mewn pum ardal awdurdod lleol ym mis Mai 2007, ac yn cwmpasu Ymarfer y Cyfrifiad i'w gynnal ym mis Hydref 2009.

## Sail y boblogaeth (Pennod 3)

Caiff pob cartref holiadur Cyfrifiad 2011 i'w lenwi, a bydd y ffurflen yn cynnwys cwestiynau ar bob unigolyn sydd fel arfer yn byw yn y cartref yn ogystal â chwestiynau ar y cartref cyfan. Yn ogystal, bydd lle ar y ffurflen i ddeiliad y cartref gofnodi nifer yr ymwelwyr sy'n bresennol yn y cyfeiriad ar noson y Cyfrifiad a rhai nodweddion

demograffig sylfaenol megis oedran, rhyw a chyfeiriad arferol. Fodd bynnag, os bydd unrhyw ymwelwyr o'r fath fel arfer yn byw rywle arall yn y Deyrnas Unedig, bydd hefyd angen iddynt roi gwybodaeth lawn yn eu preswylfa arferol.

Ystyrir bod myfyrwyr a disgyblion ysgol breswyl yn byw yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor waeth ble y maent ar ddiwrnod y Cyfrifiad, gan felly olygu bod y Cyfrifiad yn gyson â'r sail ar gyfer yr amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth.

Caiff holl breswylwyr y DU eu cyfrif yn y cyfeiriad maent yn byw adeg y Cyfrifiad; bydd y ffurflen ar gyfer cartref hefyd yn cynnwys unrhyw un sydd fel arfer yn byw yno ond sy'n digwydd bod i ffwrdd ar noson y Cyfrifiad, boed hynny rywle arall yn y Deyrnas Unedig neu dramor.

## Cwestiynau'r Cyfrifiad (Pennod 3)

Y pynciau a gynigir ar gyfer y Cyfrifiad yw'r rhai y dangoswyd bod eu hangen fwyaf gan brif ddefnyddwyr gwybodaeth y Cyfrifiad ac y lluniwyd cwestiynau ar eu cyfer y gellir disgwyl iddynt gynhyrchu data dibynadwy a chywir.  Ymhob achos, nid oes ffynhonnell arall o'r wybodaeth y gellir ei chymharu na chael gafael arni ar gael ar y cyd ag eitemau eraill yn y Cyfrifiad.

Arweiniodd y broses o ymgynghori ar gynnwys pwnc Cyfrifiad 2011 at alw llawer mwy am gwestiynau nag a fyddai'n bosibl ar ffurflen y Cyfrifiad y gallai fod yn rhesymol disgwyl i gartrefi ei llenwi, ac o ganlyniad bu'n rhaid gwneud nifer o benderfyniadau anodd wrth asesu gofynion gwahanol am wybodaeth a chydbwyso'r angen am newid yn erbyn dilyniant.

Wrth asesu pa bynciau y dylid eu cynnwys yn y Cyfrifiad, bu'n rhaid i SYG ystyried nifer o feini prawf. Y rhai a ddefnyddiwyd i werthuso cryfder gofyniad defnyddwyr am wybodaeth oedd:

- dylai fod angen sylweddol a ddangoswyd yn glir
- roedd y wybodaeth a gasglwyd o bwysigrwydd cenedlaethol mawr ond roedd angen data ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth a/neu ar lefelau daearyddol manwl
- ni allai gwybodaeth o ffynonellau eraill fodloni gofynion defnyddwyr yn ddigonol
- dylai fod gofyniad am ddadansoddiad aml-amrywedd (hynny yw y gallu i drawsddadansoddi un newidyn yn erbyn un arall)
- dylid ystyried y gallu i gymharu data â Chyfrifiad 2001 lle bynnag y bo'n bosibl

Yn ogystal roedd ffactorau eraill yr oedd angen i SYG eu hystyried wrth asesu'r blaenoriaethau ar gyfer pynciau, sef:

- dylid dangos, mewn profion, nad oedd cynnwys cwestiynau penodol wedi cael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y Cyfrifiad cyfan, yn enwedig ymateb y cyhoedd

- y gellid llunio cwestiynau ymarferol i gasglu data o ansawdd digonol i fodloni gofynion defnyddwyr
- cyfyngiadau maint a chynllun holiadur hunanlenwi o ran y baich ar yr ymatebydd a chywirdeb yr ymateb
- na ddylid defnyddio'r Cyfrifiad i gasglu data a fyddai'n hyrwyddo grwpiau gwleidyddol neu sectaraidd yn fwriadol nac yn cefnogi achosion penodol
- chyfyngiadau cyfreithiol a/neu alwadau deddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd

Yn fras, mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig y dylid casglu gwybodaeth am y pynciau canlynol yng Nghyfrifiad 2011:

### Ymhob eiddo a feddiannir gan gartref ac ar gyfer pob math o lety cartref heb ei feddiannu:

- Cyfeiriad, gan gynnwys cod post.

### Ar gyfer cartrefi:

- Nifer ac enwau pob preswyliwr boed yn bresennol neu'n absennol am gyfnod dros dro ar noson y Cyfrifiad
- Deiliadaeth llety
- Math o lety ac a yw'n hunan-gynhwysol ai peidio
- Math o landlord (ar gyfer cartrefi mewn llety rhent)
- Nifer yr ystafelloedd (ac ystafelloedd gwely*)
- Math o wres canolog*
- Nifer y ceir a faniau sy'n eiddo i aelodau o'ch cartref neu sydd ar gael iddynt

### Ar gyfer preswylwyr mewn cartrefi

- Enw, rhyw, a dyddiad geni
- Statws priodasol (gan gynnwys statws partneriaeth sifil*)
- Perthynas ag eraill yn y cartref
- Statws myfyriwr
- A yw myfyrwyr yn byw mewn cyfeiriad a gaiff ei gyfrif yn ystod y tymor
- Cyfeiriad arferol flwyddyn yn ôl
- Gwlad enedigol
- Dinasyddiaeth (pasbortau a ddelir)*
- Y mis a'r flwyddyn y cafwyd mynediad i'r DU
- Cyfnod y bwriedir aros yn y DU*
- Hunaniaeth genedlaethol* a grŵp ethnig
- Crefydd
- Iaith*
- Medrusrwydd yn yr iaith Gymraeg (yng Nghymru yn unig)
- Iechyd cyffredinol

- Salwch neu anabledd hirdymor
- Darparu gofal personol di-dâl
- Cymwysterau addysgol a galwedigaethol
- Ail breswylfa*
- Gweithgarwch economaidd yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad
- Amser ers cyflogaeth ddiwethaf
- Statws cyflogaeth
- Statws goruchwylio
- Oriau gwaith
- Teitl swydd a disgrifiad o'r alwedigaeth
- Enw'r cyflogwr a natur busnes y cyflogwr yn y gweithle (diwydiant)
- Cyfeiriad y gweithle
- Dull o deithio i'r gwaith

### Ar gyfer ymwelwyr mewn cartrefi

- Enw, rhyw, a dyddiad geni
- Cyfeiriad arferol (neu drigfan arferol os nad yn breswyliwr y DU)

### Ar gyfer preswylwyr mewn sefydliadau cymunedol

- Fel ag ar gyfer preswylwyr mewn cartref heblaw am y berthynas ag eraill yn y cartref
- Statws yr unigolion yn y sefydliad

### Ar gyfer sefydliadau cymunedol

- Math o sefydliad (yn cynnwys grŵp oedran a'r boblogaeth a wasanaethir, a chyfrifoldeb y rheolwyr)

Cynigir cynnwys pynciau â * yn y Cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr am y tro cyntaf.

Ystyriwyd nifer o bynciau eraill ond nis cynhwysir yn y cynigion ar gyfer Cyfrifiad 2011. Gwerthusodd SYG yr holl awgrymiadau a gyflwynwyd yn ofalus. Gwrthodwyd rhai pynciau ar gam cynnar yn y gwaith cynllunio ond bu llawer yn destun profion bach a mawr. Yn yr un modd blaenoriaethodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr achosion a wnaed i lywio cynnwys pwnc holiadur y Cyfrifiad yng Nghymru.

## Casglu data (Pennod 4)

Mae profiad wedi dangos ei bod yn fwyfwy anodd cysylltu â chartrefi, a chafodd hyn ddylanwad mawr ar lunio cynlluniau casglu data ar gyfer Cyfrifiad 2011. Gellir priodoli'r anawsterau hyn i: boblogaeth sy'n heneiddio; niferoedd cynyddol o gartrefi un person;

patrymau gwaith newidiol; cynnydd mewn systemau rheoli diogelwch mynediad; cymdeithas sy'n cydymffurfio llai; niferoedd cynyddol o fewnfudwyr; a rhai grwpiau a chymunedau o fewn y boblogaeth sy'n teimlo'n fwy ac yn fwy difreiniedig.

Caiff y broses gyfrifo ei chynnal mewn ffordd sy'n anelu'n bennaf at gwmpasu pawb drwy ddefnyddio adnoddau mewn modd effeithlon ac, ar yr un pryd, yn cynnal ymdeimlad o dderbyn ymhlith y cyhoedd ynghyd â'i hyder ym mhwysigrwydd a diogelwch y Cyfrifiad. Er y bydd sawl agwedd ar y Cyfrifiad yn dilyn methodolegau sefydledig a sicr, mae SYG wedi cyflwyno newidiadau a fydd yn gwella effeithlonrwydd y broses o weithredu'r cyfrifiad ac yn rhoi gwell cymorth i'r cyhoedd.  Er enghraifft, bydd defnyddio darparwr gwasanaeth post i hwyluso'r broses o ddosbarthu ffurflenni yn ogystal â dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi drwy'r post yn helpu i oresgyn yr anawsterau sydd ynghlwm wrth recriwtio niferoedd mawr o gyfrifwyr dros dro i ddosbarthu ffurflenni, a chael mynediad i lety a ddiogelir gan systemau diogelwch. Ynghyd â'r opsiwn o lenwi ffurflen ar-lein, bydd hyn yn rhyddhau staff maes i gael eu defnyddio mewn ffordd fwy hyblyg, lle bynnag y bo eu hangen, er mwyn gwella cwmpas, yn enwedig mewn ardaloedd metropolitan a mannau eraill lle y mae cartrefi yn cydymffurfio'n llai a/neu angen mwy o gymorth i lenwi ffurflen.

## Cofrestr Cyfeiriadau

Yr hyn sy'n rhagofynnol ar gyfer strategaeth bostio lwyddiannus yw argaeledd Cofrestr Cyfeiriadau gynhwysfawr, o ansawdd uchel ar gyfer pob ardal yng Nghymru a Lloegr. Heb un ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth genedlaethol am gyfeiriadau, mae SYG wrthi'n datblygu cofrestr cyfeiriadau sy'n bodloni gofynion y Cyfrifiad o ran ansawdd a chwmpas, ac y gall awdurdodau lleol fod yn hyderus y bydd yn ategu proses gyfrifo a chanlyniadau'r Cyfrifiad yn effeithiol. Gwneir defnydd llawn o'r prif ffynonellau o restrau cyfeiriadau, sef Postcode Address File Post Brenhinol, MasterMap Address Layer 2 Arolwg Ordnans a'r Rhestr Genedlaethol o Dir ac Eiddo. Mae SYG wedi llwyddo i gael pob un o'r darparwyr rhestrau cyfeiriadau i lofnodi cytundeb rhannu gwybodaeth.

Caiff cyfeiriadau eu gwirio mewn sampl o ardaloedd ledled Cymru a Lloegr dros gyfnod o chwe mis gan orffen tua chwe mis cyn y Cyfrifiad. Bydd yr amserlen hon yn sicrhau bod y Gofrestr Cyfeiriadau mor gyfredol â phosibl mewn da bryd i allu argraffu cyfeiriad ar ffurflenni cyfrifiad unigol.

## Staff maes

Cyflogir tua 30,000 o staff maes dros dro i gynnal y Cyfrifiad. Bydd gan y staff maes hyn strwythur rheoli hierarchaidd, a arweinir gan tua 100 neu fwy o Reolwyr Ardal y Cyfrifiad a gyflogir am tua blwyddyn cyn y Cyfrifiad ac am tua phedwar mis ar ôl hynny. Bydd pob un yn gyfrifol am gyfrifo ardal o tua 500,000. Fel gyda Chyfrifiad 2001, penodir Rheolwyr sy'n siarad Cymraeg i oruchwylio'r broses gyfrifo yng Nghymru.

## Dosbarthu a chasglu ffurflenni

Caiff ffurflenni eu postio yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ond bydd penderfynu ar yr ardaloedd lle y caiff ffurflen y Cyfrifiad ei dosbarthu gan staff maes yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n cynnwys:

- hyder ynghylch cywirdeb y rhestr o gyfeiriadau mewn unrhyw ardal benodol
- cyfran yr eiddo amlfeddiannaeth sy'n hysbys neu a amheuir yn yr ardal
- crynodiadau o gartrefi mawr
- amlygrwydd sefydliadau cymunedol

Cynigir dau brif lwybr ymateb i alluogi'r cyhoedd i lenwi eu ffurflenni cyfrifiad:

- eu llenwi ar bapur a'u dychwelyd drwy'r post, neu
- eu llenwi (am y tro cyntaf yn y DU) gan ddefnyddio holiadur ar-lein

Bydd staff maes yn cynnal ymweliadau dilynol â chyfeiriadau y mae SYG yn hyderus na chafwyd unrhyw ymateb.

## Gweithdrefnau cyfrifo arbennig

Ni fydd y methodolegau a ddatblygwyd yn gyffredinol i gyfrifo cartrefi a sefydliadau cymunedol yn llwyddiannus i bawb, a derbynnir y bydd yn rhaid mabwysiadu gweithdrefnau ychwanegol ar gyfer rhai poblogaethau arbennig. Ymhlith y rhain bydd pobl nad oes ganddynt breswylfa sefydlog, megis Sipsiwn, y rhai sy'n teithio gyda ffeiri a phobl ddigartref. Yn ogystal ceir grwpiau penodol eraill drwy'r boblogaeth a fydd yn gofyn am weithdrefnau cyfrifo wedi'u haddasu. Ymhlith y rhain y mae:

- y rhai nad ydynt yn gallu deall holiadur y cyfrifiad, megis pobl nad ydynt yn siarad Saesneg (a'r rhai sydd hefyd yn siaradwyr di-Gymraeg yng Nghymru) a phobl ag anawsterau darllen
- y rhai sy'n debygol o'i chael yn anodd llenwi neu ddychwelyd holiadur papur safonol, gan gynnwys pobl â nam ar eu golwg neu ag anabledd corfforol
- y rhai sy'n gallu, ond nad ydynt yn fodlon, llenwi holiadur

Gwneir trefniadau arbennig i alluogi pobl ddall neu bobl rannol ddall a phobl nad ydynt yn siarad Saesneg/siaradwyr di-Gymraeg yng Nghymru i ddychwelyd ffurflen cyfrifiad.

Ymhob achos, p'un a ymatebir i'r Cyfrifiad drwy ddychwelyd ffurflen yn y post, ei llenwi ar-lein, neu ei chasglu wrth stepen y drws, ni chyflawnir y rhwymedigaeth statudol i lenwi ffurflen hyd nes y bydd Swyddfa'r Cyfrifiad neu staff maes lleol yn cael ffurflen wedi ei llenwi. Bydd unrhyw un sy'n gwrthod cydymffurfio â'r gofyniad statudol i lenwi ffurflen cyfrifiad yn agored i erlyniad a dirwy. Bydd SYG yn defnyddio staff maes a hyfforddwyd yn arbennig i gynnal ymweliadau dilynol mewn perthynas ag achosion lle y gwelwyd yn glir bod deiliad y cartref yn gwrthod llenwi ffurflen.

## Trefniadau yng Nghymru o ran Deddf yr Iaith Gymraeg (Pennod 4)

Bydd SYG yn gwneud trefniadau i sicrhau bod gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (fel y nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg SYG) yn cael eu bodloni o ran pob agwedd ar y Cyfrifiad yng Nghymru. Yn arbennig, mae ymrwymiad i recriwtio aelodau o staff maes sy'n ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg), yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir nifer uwch na'r cyffredin o siaradwyr Cymraeg, a chaiff fersiwn Cymraeg a Saesneg o holiadur y Cyfrifiad ei ddosbarthu i bob cartref. Bydd fersiynau dwyieithog o'r holl wybodaeth a deunydd cyhoeddusrwydd hefyd ar gael. Fel y nodwyd uchod, penodir Rheolwyr Cyfrifiad dwyieithog i oruchwylio'r broses gyfrifo yng Nghymru.

## Ansawdd a chwmpas data (Pennod 4)

Mae ansawdd wrth wraidd cynllunio Cyfrifiad 2011, ac roedd a wnelo llawer o'r syniadau arloesol a dreialwyd ym Mhrawf Cyfrifiad 2007 â gwella ansawdd prosesau'r cyfrifiad ac, felly, y data.  Mae cyfrifiad, yn ôl ei natur, yn anelu at gwmpasu'r boblogaeth gyfan, ond yn anochel gwneir gwallau. Bydd cynllun cyfrifiad da yn cydnabod hyn ac yn darparu ar eu cyfer.

Peidio ag ymateb neu dangyfrifo yw'r gwall mwyaf sylweddol.  Er i raddau'r tangyfrifo cyffredinol a amcangyfrifwyd yng Nghyfrifiad 2001 fod yn fach o gymharu ag arolygon cenedlaethol y llywodraeth, roedd yn sylweddol uwch nag yn 1991. Yr hyn a oedd yn fwy pwysig oedd ei amrywiad ar draws is-grwpiau o'r boblogaeth a gwahanol rannau o'r wlad.

Wrth gynllunio Cyfrifiad 2011, y nodau yw sicrhau bod ansawdd cyffredinol y data mor uchel â phosibl a lleihau nifer y gwahaniaethau mewn ansawdd rhwng ardaloedd. Bydd SYG yn datblygu strategaeth i sicrhau ansawdd cronfa ddata Cyfrifiad 2011 cyn rhyddhau unrhyw allbwn. Bydd y broses o sicrhau ansawdd yn cymharu data'r Cyfrifiad yn erbyn ystod eang o ffynonellau yn ystod y broses o'i gynnal a chyn rhyddhau'r set ddata lawn.

Caiff y gronfa ddata o allbwn ei haddasu'n llawn gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad ar ôl y cam cyfrifo a gynhelir yn syth ar ôl y gwaith maes ar gyfer y Cyfrifiad ei hun. Yn ogystal, cynhelir Arolwg Ansawdd bach, ar wahân ar ôl y Cyfrifiad i fesur cywirdeb ymatebion i gwestiynau unigol.

## Cyhoeddusrwydd (Pennod 4)

Mewn cydweithrediad agos â Swyddfeydd y Cyfrifiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a chyda chymorth Canolfan Gyswllt benodol, bydd SYG yn trefnu cyhoeddusrwydd cenedlaethol a lleol i egluro diben a gwerth y Cyfrifiad, annog deiliaid cartrefi i ddychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi a sicrhau eu bod yn gwybod pryd a sut i wneud hynny, a thawelu meddyliau o ran cyfrinachedd a diogelu data.

Bydd cymorth arbennig ar gael i unrhyw un sy'n ei chael yn anodd llenwi holiadur y Cyfrifiad, yn enwedig oherwydd iaith neu wendid. Cyflogir staff maes sy'n siarad Saesneg ac ieithoedd eraill a/neu arwyddwyr, lle y bo'n bosibl, a gefnogir gan gyfieithiadau o daflen wybodaeth gyffredinol mewn 26 neu fwy o'r ieithoedd tramor amlycaf a fydd ar gael drwy wefan Cymorth Cyfrifiad benodol.  Bydd y cyhoeddusrwydd ar gyfer y Cyfrifiad a'r broses gyfrifo yng Nghymru yn ddwyieithog.

## Contractau allanol (Pennod 4)

Unwaith eto mae SYG yn rhoi nifer o wasanaethau ar gontract allanol fel rhan bwysig o sicrhau gwerth am arian y Cyfrifiad yn 2011. Mae cyflenwyr allanol yn cynnig cryn brofiad ac arbenigedd technegol na fyddai fel arall ar gael i'r rhai sy'n cymryd y Cyfrifiad. At hynny, o ystyried cylch deng mlynedd y Cyfrifiad a'r amserlen brosesu gymharol fyr – sy'n gofyn am weithlu mawr dros dro – nid yw'n briodol i SYG recriwtio a hyfforddi'r fath bersonél ei hun. Byddai'n gofyn am adnoddau ychwanegol sylweddol – ac yn faich ar y trethdalwr i'w rheoli'n fewnol.

Mae'r gweithgareddau a roddir ar gontract allanol yn cwmpasu:

- recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes
- dosbarthu ffurflenni a chasglu ffurflenni wedi'u llenwi drwy wasanaeth post
- cipio a chodio data cyfrifiad yn electronig
- cynllunio systemau olrhain holiaduron/ffurflenni
- cyfieithu, argraffu a dosbarthu deunydd nad oes a wnelo â'r holiadur
- darparu cyfleusterau ymateb ar-lein ar gyfer llenwi ffurflenni a chanolfan gyswllt
- ymgyrch gyhoeddusrwydd

## Prosesu data (Pennod 5)

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod mai dim ond os yw'r canlyniadau yn hygyrch i ddefnyddwyr mewn modd cyflym, clir a defnyddiadwy y gellir cyfiawnhau buddsoddi amser ac adnoddau mewn cyfrifiad cenedlaethol. Fel nod Cyfrifiad 2001 hefyd, mae SYG am i ddatblygiadau technolegol gael eu defnyddio yng Nghyfrifiad 2011 er mwyn gwella cywirdeb, amseroldeb, hygyrchedd a defnyddiadwyedd allbwn a gyhoeddir.

Yn arbennig, mae SYG yn cynnig cyflwyno dau syniad arloesol mawr ym maes cipio a rhannu data. Yn gyntaf, bydd cyfle i gyflwyno ffurflenni'r cyfrifiad ar-lein drwy gysylltiad Rhyngrwyd diogel; ac yn ail dylid galluogi'r cyhoedd i gael yr holl ganlyniadau cenedlaethol a lleol safonol am ddim mewn cyfrwng electronig o'r wefan Ystadegau Gwladol.

Caiff Cyfrifiad 2011 ei brosesu ar dri phrif gam. *Prosesu mewnbwn*, sy'n cynnwys dau is-gam: y prif gam *cipio a chodio data*, a'r gwaith *prosesu 'eilaidd'* dilynol sy'n cynnwys

cyfres o systemau i olygu ac addasu’r data fel y gellir paratoi cronfa ddata sy’n gwbl gyson fel sail y broses o rannu allbwn; a *phrosesu allbwn* sy’n cynnwys creu tablau a ddiogelir yn ystadegol a chynhyrchion eraill o gronfa ddata allbwn, a dosbarthu’r cynhyrchion hyn ymhlith defnyddwyr.

## Asesu cwmpas ac addasu (Pennod 5)

Yn y pen draw, mae llwyddiant y Cyfrifiad yn dibynnu’n fawr ar ei gywirdeb a pha mor dda mae’n gallu amcangyfrif y boblogaeth a’i nodweddion. Ni fydd y Cyfrifiad byth yn cyfrif pob cartref ac unigolyn. Cynhelir y broses angenrheidiol o asesu cwmpas ac addasu i ddarparu amcangyfrifon cenedlaethol ac is-genedlaethol cywir o’r boblogaeth. Yng Nghyfrifiad 2001, galwyd y broses hon yn Gyfrifiad Un Rhif, a addasodd ganlyniadau’r Cyfrifiad i gyfrif am bobl nas cynhwyswyd. Ar gyfer 2011, dilynir trywydd tebyg ond gyda datblygiadau yn canolbwyntio ar nifer o feysydd i wella’r fethodoleg.

## Rhannu allbwn (Pennod 5)

Wrth rannu canlyniadau’r Cyfrifiad rhoddir cryn bwyslais ar y graddau yr ymatebir i ofynion defnyddwyr o ran cynnwys, fformat a sut y ceir gafael arnynt, ynghyd â safonau uchel wrth gynhyrchu ystadegau. Felly, bwriad SYG yw sicrhau bod allbwn ar y fath ffurf, ac ar lefelau gwahanol o fanylder ystadegol a daearyddol, sy’n bodloni gofynion newidiol defnyddwyr, yn amodol ar y prif ofyniad i ddiogelu cyfrinachedd ystadegol. Caiff y ddaearyddiaeth ar gyfer allbwn o’r fath ei chreu yn y bôn o’r un conglfeini ag yng Nghyfrifiad 2001 – yr Ardaloedd Cynnyrch.

## Cyfrinachedd (Pennod 6)

Mae pwysigrwydd sicrhau’r cwmpas mwyaf posibl o ran y Cyfrifiad yn gofyn am wneud cyfranogiad y cyhoedd yn orfodol. Mae hyn yn ei dro yn gosod rhwymedigaeth ar Awdurdod Ystadegau’r DU i sicrhau bod y wybodaeth, sy’n wybodaeth sensitif weithiau, sy’n cael ei rhoi’n gyfrinachol gan y cyhoedd yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

Mae Awdurdod Ystadegau’r DU yn cydnabod bod angen i’r cyhoedd fod yn hyderus y cedwir eu cofnodion cyfrifiad personol yn ddiogel. Fel mewn cyfrifiadau blaenorol, tawelir meddyliau’r cyhoedd y caiff yr holl wybodaeth a roddir ei thrin yn gwbl gyfrinachol gan Swyddfa’r Cyfrifiad.

Caiff y wybodaeth a gesglir yng Nghyfrifiad 2011 ei defnyddio i gynhyrchu ystadegau ac ymchwil yn unig. Bydd y defnydd a wneir ohoni yn cydymffurfio’n llawn â Deddf y

Cyfrifiad, y Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru a gofynion deddfwriaeth diogelu data a rhyddid gwybodaeth. Mae cosbau cyfreithiol am ddatgelu gwybodaeth bersonol a gesglir yn y cyfrifiad yn anghyfreithlon.

## Preifatrwydd a hawliau dynol (Pennod 6)

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn gwbl fodlon bod awdurdod statudol i'w gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth o bob un o'r cwestiynau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2011 yn cydymffurfio'n llawn â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998 o ran hawl unigolyn i breifatrwydd.

## Y broses ddeddfwriaethol (Pennod 7)

Y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n darparu ar gyfer cynnal Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yw Deddf Cyfrifiad 1920 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfrifiad (Diwygio) 2000. Yn fwy diweddar, o 1 Ebrill 2008, mae cyflwyno Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 wedi cael effaith ar ddiwygiadau pellach i'r Ddeddf – yn arbennig trosglwyddo'r awdurdod am gynnal y Cyfrifiad o'r Cofrestrydd Cyffredinol i'r Bwrdd Ystadegau (Awdurdod Ystadegau'r DU), a'r cyfrifoldeb Gweinidogol am y Cyfrifiad o Drysorlys EM i Swyddfa'r Cabinet.

Yn unol ag adran 1 o Ddeddf y Cyfrifiad, bydd y Llywodraeth yn paratoi Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor o ran y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, yn ystod hydref 2009, i'w gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. O dan delerau'r Ddeddf, bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn rhagnodi:

- y dyddiad y cynhelir y Cyfrifiad
- yr unigolion y caiff ffurflenni'r Cyfrifiad eu gwneud ganddynt, a'u gwneud yn eu cylch
- y manylion i'w rhoi ar y ffurflenni

Ar ôl cymeradwyo Gorchymyn y Cyfrifiad, bydd y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn cyflwyno Rheoliadau'r Cyfrifiad gerbron y Senedd (tua chanol mis Chwefror 2010) a fydd yn gwneud darpariaeth fanwl ar gyfer cynnal y Cyfrifiad yn Lloegr ac yn cynnwys enghreifftiau o'r ffurflenni i'w defnyddio. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddau Dŷ roi eu cymeradwyaeth drwy benderfyniad negyddol. Ar yr un pryd bydd Gweinidog Cymru yn cyflwyno Rheoliadau ar wahân sy'n ymwneud â'r Cyfrifiad yng Nghymru gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan bwerau a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Rhif 2) 2006.

## Datganoli'r Cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon (Pennod 7)

Bydd trefniadau deddfwriaethol datganoledig ar wahân yn darparu ar gyfer y Cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyflawnir cysondeb ledled y DU drwy sicrhau bod tair Swyddfa'r Cyfrifiad mewn cysylltiad agos â'i gilydd ac yn cydweithredu, yn ogystal â thrwy gytundeb rhwng yr Ystadegydd Gwladol a'r Cofrestrwyr Cyffredinol i gydweithio i gyflawni allbynnau cyson a chymaradwy o ran y Cyfrifiad a fydd yn bodloni gofynion defnyddwyr i gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.



1

# Cyflwyniad

# 1 Cyflwyniad

*"The Census underpins the allocation of billions of pounds in funding for public services, and is the foundation of many economic and social statistics. These in turn influence policy across government and investment decisions in the commercial sector. And despite growth in new databases in recent years, the Census still offers a source of consistent small-area data that is better than any other. It gives us both a unique insight into the society in which we live and a social benchmark that will be of relevance for many decades to come. The Census is thus of fundamental importance to policy, good government, the economy and democracy."* **David Rhind (Cadeirydd yr hen Gomisiwn Ystadegau)** [1]

## Y penderfyniad ar y Cyfrifiad

1.1 Ar y cyd ag Awdurdod Ystadegau'r DU, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu y dylai'r Cyfrifiad o'r Boblogaeth a Thai gael ei gynnal yng Nghymru a Lloegr ddydd Sul **27 Mawrth 2011** yn amodol ar y gymeradwyaeth ddeddfwriaethol briodol. Caiff cyfrifiadau eu cynnal hefyd ar yr un diwrnod yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn amodol ar weithdrefnau deddfwriaethol ar wahân o fewn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Bydd y Cyfrifiad yn gyfystyr â'r 21ain mewn cyfres a gynhaliwyd bob 10 mlynedd yng Nghymru a Lloegr ers 1801, ac eithrio 1941. Cynhaliwyd yr olaf ar 29 Ebrill 2001 ac adroddwyd arno'n llawn gan y Cofrestrydd Cyffredinol.[2]

### Y dewis o ran y dyddiad

1.2 Mae dewis dyddiad y Cyfrifiad yn ganolog i gryn dipyn o'r gwaith cynllunio sydd ynghlwm wrth y digwyddiad, ac mae'n cael effaith uniongyrchol ar ansawdd y data a gesglir. Caiff dyddiad y Cyfrifiad ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth ond mae angen ei bennu ymhell ymlaen llaw fel y gellir cynllunio pob agwedd ar y Cyfrifiad yn unol â hynny. Er nad oes rhaid i'r Cyfrifiad gael ei gynnal ar ddiwrnod penodol o'r wythnos, dewiswyd dydd Sul yn draddodiadol fel yr adeg fwyaf tebygol y bydd pobl gartref. Rhaid dewis y dyddiad i sicrhau'r nifer fwyaf posibl o gartrefi a fydd yn bresennol ac i sicrhau cyn lleied o ymyrraeth â phosibl o ran dosbarthu a chasglu'r holiaduron. Wrth ddewis y dyddiad bu'n rhaid ystyried nifer o ffactorau:

- sicrhau'r nifer fwyaf posibl o bobl sy'n bresennol yn eu preswylfa arferol (drwy, er enghraifft, osgoi cyfnodau o wyliau)
- sicrhau'r nifer fwyaf posibl o fyfyrwyr sy'n bresennol yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor
- osgoi etholiadau lleol (pan allai'r negeseuon o ran cyhoeddusrwydd fynd yn ddryslyd)

- caniatáu digon o oriau o olau dydd ar gyfer gwaith maes
- osgoi cyfnodau o wyliau er mwyn recriwtio/cadw staff maes i'r graddau gorau posibl
- sicrhau cysondeb ledled y DU

## Rôl y Cyfrifiad o ran diwallu'r angen am wybodaeth i wneud penderfyniadau cenedlaethol a lleol

1.3 Ers dros ddau gan mlynedd, mae'r wlad wedi dibynnu ar y Cyfrifiad i ategu'r broses o wneud penderfyniadau cenedlaethol a lleol. Erbyn hyn mae tua 200 o wledydd ledled y byd yn cynnal cyfrifiad yn rheolaidd o dan nawdd rhaglen Cyfrifiad y Cenhedloedd Unedig.

1.4 Mae angen i'r llywodraeth, awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd, y gymuned addysg ac academaidd, busnesau masnachol, sefydliadau proffesiynol a'r cyhoedd gael gwybodaeth ddibynadwy am nifer a nodweddion pobl a chartrefi er mwyn cyflawni llawer o'u gweithgareddau yn effeithiol. Ar hyn o bryd, y ffordd orau o ddiwallu'r angen hwn yw cynnal cyfrifiad bob deng mlynedd sy'n cwmpasu'r boblogaeth gyfan, a thrwy ddiweddaru'r amcangyfrifon o'r boblogaeth bob blwyddyn a feincnodwyd ar y Cyfrifiad blaenorol.

### Llunio polisi'r Llywodraeth

1.5 Yn benodol, mae angen y math hwn o wybodaeth ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru i lunio polisïau, cynllunio gwasanaethau ar gyfer grwpiau penodol o bobl ac, yn arbennig, ddyrannu adnoddau'n effeithiol i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd er mwyn eu galluogi i gyfeirio adnoddau at y meysydd lle y mae eu hangen. Rhaid i'r wybodaeth fod yn awdurdodol, yn gywir ac yn gymaradwy ar gyfer pob rhan o'r wlad. Ar hyn o bryd, dim ond cyfrifiad a all ddarparu'r amrywiaeth o wybodaeth o'r fath ar sail unffurf am y wlad yn ei chyfanrwydd ac am ardaloedd bach unigol ac is-grwpiau o'r boblogaeth mewn perthynas â'i gilydd.

1.6 Mae gwybodaeth sylfaenol am faint, oedran, rhyw a lleoliad y boblogaeth yn hanfodol i lawer o bolisïau'r llywodraeth gan gynnwys:

- heneiddio a phensiynau
- ymfudo i'r wlad ac o'r wlad, a'r tu mewn iddi
- cynaliadwyedd hirdymor twf Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) ac felly gynaliadwyedd hirdymor refeniw'r llywodraeth
- y cyflenwad llafur ac, felly, bwysau chwyddiannol

1.7 Mae gwybodaeth am dai, maint cartrefi a chyfansoddiad teuluoedd yn allweddol i:

- fynd i'r afael â llety annigonol a gorboblogi
- galw lleol am dai a gwaith cynllunio tai

tra bod gwybodaeth arall a gesglir fel rhan o’r Cyfrifiad:

- yn darparu gwell dealltwriaeth o'r pwysau ar systemau trafnidiaeth a chynllunio ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus gan ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir am deithio i'r gwaith ac oddi yno, ac am fod yn berchen ar gar
- yn ei gwneud yn bosibl i nodi ardaloedd o amddifadedd er mwyn targedu mentrau megis Adnewyddu Cymdogaethau a Chychwyn Cadarn
- yn darparu gwybodaeth am ethnigrwydd, cymwysterau a statws y farchnad lafur, er enghraifft, i nodi achosion amddifadedd ac ymyriadau polisi priodol
- yn dangos faint o bobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau a diwydiannau gwahanol ledled y wlad, gan helpu'r llywodraeth a busnesau i gynllunio swyddi a pholisïau hyfforddiant a gwneud penderfyniadau buddsoddi hyddysg

## Meincnodi

1.8 Mae’r Cyfrifiad yn sail i lawer o ddangosyddion cymdeithasol ac economaidd megis:

- amcangyfrifon o'r boblogaeth
- cyfraddau cyflogaeth a diweithdra
- cyfraddau geni, marw, marwoldeb a ffrwythlondeb
- monitro cydraddoldeb. Mae gwybodaeth yn y Cyfrifiad am oedran, rhyw, ethnigrwydd, crefydd, ac anabledd yn arbennig yn helpu i nodi graddau a natur anfantais a mesur llwyddiant polisïau cyfle cyfartal
- grosio data arolygon sampl, yn arbennig, mae'r Cyfrifiad yn sail i arolygon economaidd-gymdeithasol a gynhelir gan y llywodraeth a'r sector preifat – gan fod canlyniadau'r arolwg yn cael eu grosio i gyfrifiadau poblogaeth y Cyfrifiad. Heb y Cyfrifiad byddai arolygon o'r fath yn llai dibynadwy neu byddai angen iddynt fod yn fwy o faint ac yn fwy costus

1.9 Mae meincnodau’r Cyfrifiad yn sail i ymgysylltiad democrataidd. Mae’r Comisiwn Ffiniau yn ystyried newid yn y boblogaeth i ad-drefnu ffiniau etholaethol. At hynny, cyfrifir cynrychiolaeth ASEau gan ddefnyddio ffigurau’r boblogaeth.

## Dyrannu adnoddau

1.10 Mae’r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a’r Adran Iechyd yn dyrannu arian i Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol er mwyn sicrhau bod argaeledd gwasanaethau yn seiliedig ar angen perthynol yn hytrach na gallu ardal leol i ariannu’r gwasanaethau hynny. Rhyngddynt, mae’r ddwy Adran yn dyrannu tua £120bn y flwyddyn ar hyn o bryd i Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn Lloegr, sy’n bennaf seiliedig ar amrywiaeth eang o amcangyfrifon, amcanestyniadau a dadansoddiadau o’r boblogaeth sy’n deillio o’r Cyfrifiad. Yng Nghymru, defnyddir dangosyddion sy’n deillio o’r Cyfrifiad i ddyrannu tua £1.7bn o’r £3.8bn sydd ar gael i gynghorau yn y setliad Grant

Cymorth Refeniw yn uniongyrchol. Dyrennir £4.6bn pellach i ardaloedd iechyd yng Nghymru, er bod y ffigur hwn ond yn rhannol seiliedig ar ffigurau'r Cyfrifiad.

### Gwaith buddsoddi a monitro lleol

1.11 Mae'r Cyfrifiad yn llywio'r gwaith o dargedu gwasanaethau lleol megis:

- iechyd lleol, y mae cwestiynau'r Cyfrifiad ar salwch yn rhagfynegwyr da o'r galw ar y GIG
- anghenion addysg lleol y mae'r Cyfrifiad yn llywio'r gwaith o ddewis safleoedd ar gyfer ysgolion newydd
- gwaith cynllunio trafnidiaeth leol a modelu traffig
- cynlluniau datblygu awdurdodau lleol i sicrhau bod gwaith datblygu yn mynd rhagddo yn y mannau cywir
- gwasanaethau cymorth cymunedol, gan gynnwys cymorth cartref a gofal cartref

### Defnydd gan fusnesau

1.12 Amcangyfrifir bod gwerth data cyfrifiad i fusnesau'n unig a gyfrifwyd dros 10 mlynedd yn cyfateb i tua £250 miliwn[3].

### Ymchwil

1.13 Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell ardderchog o ddata at ddibenion ymchwil. Mae Astudiaeth Hydredol SYG (sampl 1 y cant sy'n seiliedig ar gofnodion cyfrifiad a gysylltir o'r pedwar Cyfrifiad ers 1971 ac a gyfunir â ffynonellau eraill megis cofrestru canser, genedigaethau a marwolaethau) yn darparu ffynhonnell heb ei hail i astudio newidiadau dros amser er enghraifft. Mae astudiaethau o'r fath yn cynyddu ein dealltwriaeth o amodau cymdeithasol a gallant daflu goleuni ar effaith polisïau blaenorol. Un enghraifft o'r fath yw'r defnydd o ddata hydredol ar farwoldeb mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol sy'n gysylltiedig â'r Cyfrifiad at ddiben cynllunio pensiwn.[4] Wrth gynnal unrhyw ymchwil o'r fath y mae SYG yn cymryd ei haddewid i sicrhau cyfrinachedd i'r cyhoedd o ddifrif. Caiff manylion personol eu gwahanu oddi wrth ymatebion cyfrifiad fel na ellir cysylltu unrhyw wybodaeth ag enw a chyfeiriad unigolion. Yn ogystal, pan gaiff data ei gyhoeddi y mae SYG yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod adroddiadau yn ddienw fel na ellir adnabod unrhyw ddata unigol.

### Ffynonellau data amgen

1.14 Yn 2003 cynhaliodd SYG adolygiad strategol lle yr ystyriodd nifer o ddulliau amgen o gasglu'r math o wybodaeth a ddarperir gan gyfrifiad yn draddodiadol. Cafodd y dulliau amgen hyn o gasglu gwybodaeth o fath cyfrifiad[5–8] eu hystyried mewn ymgynghoriad â defnyddwyr, a'r neges allweddol a ddeilliodd o hyn oedd bod y Cyfrifiad yn dal i gael ei ystyried fel y ffynhonnell fwyaf awdurdodol o wybodaeth

ar gyfer ystod eang o ddefnyddiau. Mae'n cynnig cipolwg ar y wlad, gyda gwybodaeth gyson a chymaradwy ar gyfer ardaloedd bach ac is-boblogaethau, ac mae'n ei gwneud yn bosibl cynnal dadansoddiadau aml-amrywedd nad ydynt yn ymarferol drwy ddefnyddio unrhyw ffynhonnell arall o ddata.

1.15 Yn unol â hynny, heb unrhyw ffynonellau amgen o wybodaeth sy'n ddigon cynhwysfawr, ac er mwyn sicrhau bod anghenion amrywiol defnyddwyr o ran gwybodaeth yn cael eu diwallu, daeth SYG i'r casgliad y dylid bwrw ati â chynlluniau ar gyfer Cyfrifiad yn 2011.

## Rôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel asiantaeth ystadegau annibynnol

1.16 Ers y Cyfrifiad olaf yng Nghymru a Lloegr, mae swyddogaeth y Cofrestrydd Cyffredinol, a oedd wedi meddu ar y cyfrifoldeb statudol am gynnal y Cyfrifiad ers 1841, wedi cael ei gwahanu oddi wrth weddill y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) drwy Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007. Fodd bynnag, y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gynnal y Cyfrifiad o dan ddarpariaethau Deddf Cyfrifiad 1920, drwy awdurdod cyfreithiol y Bwrdd Ystadegau annibynnol newydd (y mae ei swyddogaethau gweithredol yn cael eu cyflawni o dan Awdurdod Ystadegau'r DU), a chyda chyfrifoldeb Gweinidogol yn cael ei drosglwyddo o'r Trysorlys i Swyddfa'r Cabinet (ac ar gyfer rhai materion, i Weinidogion Cymru – gweler paragraff 1.18). Fodd bynnag, fel arall ni fu fawr o newid i gwmpas ac awdurdod Deddf y Cyfrifiad (gweler Pennod 7) o ganlyniad i Ddeddf 2007, er bod y darpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â diogelu cyfrinachedd wedi cael eu hymestyn (gweler Pennod 6).

1.17 Er ei bod yn briodol i gynllun ac uniondeb ystadegol y Cyfrifiad fod yn faterion y mae Awdurdod Ystadegau'r DU a'r Ystadegydd Gwladol yn gwbl gyfrifol amdanynt, mater i'r Senedd a Gweinidogion Cymru yw cymeradwyo gwedd a chynnwys y Cyfrifiad.

## Rôl ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru

1.18 Nid yw'r cyfrifoldeb statudol am weinyddu a chynnal y Cyfrifiad yn fater sydd wedi'i ddatganoli'n llawn yng Nghymru, ac felly, Awdurdod Ystadegau'r DU sy'n gyfrifol am hyn. Fodd bynnag, o ganlyniad i bryderon a chryfder teimladau defnyddwyr a rhanddeiliaid yng Nghymru yn ystod Cyfrifiad 2001 ynghylch y ffaith nad oedd categori ymateb blwch ticio 'Cymreig' ar gyfer y cwestiwn ar grŵp ethnig, ac yn dilyn argymhelliad Pwyllgor Dethol y Trysorlys yn ei adroddiad ar Gyfrifiad 2001[9], ymrwymodd Llywodraeth y DU i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn gallu rhoi rôl fwy ffurfiol i Weinidogion Cymru o ran pennu sut y cynhelir y Cyfrifiad yng Nghymru ynghyd â'i gynnwys.

1.19 Ceir gwybodaeth am y broses ddeddfwriaethol sy'n angenrheidiol i gynnal y Cyfrifiad yng Nghymru ym Mhennod 7. Pan fo'r trefniadau ar gyfer cynnal y Cyfrifiad yng Nghymru yn wahanol i'r rhai yn Lloegr nodir y rhain yn yr adrannau perthnasol o'r Papur Gwyn hwn.

## Ystyried y cynigion ar gyfer y Cyfrifiadau yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar wahân

1.20 Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r Cyfrifiad wedi'i ddatganoli'n llawn. Bydd y trefniadau a ddisgrifir yn y Papur Gwyn hwn lle maent yn cyfeirio at gynnal y Cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, boed hynny fel y dull o'u cynnal yng Nghymru a Lloegr neu o ran ei gyfeiriadau at gynigion sy'n benodol i'r Alban neu Ogledd Iwerddon, yn cael eu hystyried gan y priod weinyddiaethau datganoledig.

1.21 Mae Llywodraeth y DU ac Awdurdod Ystadegau'r DU yn croesawu'r gwaith cynllunio a pharatoi manwl sydd eisoes yn mynd rhagddo o ran cynnal y Cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r cynigion nid yn unig yn sicrhau cysondeb o ran canlyniadau Cyfrifiad 2011 ledled y Deyrnas Unedig, yn unol â galw defnyddwyr, ond maent hefyd yn sail i gynnal y Cyfrifiadau'n effeithlon tra'n parhau i fod yn sensitif i amgylchiadau gwahanol ac anghenion defnyddwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae parhau i gydweithredu a chydweithio'n agos ar y Cyfrifiad hefyd yn gydnaws â nod y concordat ar ystadegau a gynigiwyd rhwng gweinyddiaethau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Llywodraeth yn deall bod y Cofrestrwyr Cyffredinol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon yn bwriadu dilyn amserlen debyg i'r hyn a geir yng Nghymru a Lloegr.

## Safbwynt rhyngwladol a Rheoliadau'r UE

1.22 Rhennir yr angen am wybodaeth gan yr Undeb Ewropeaidd (UE). Mae angen i'r Comisiwn Ewropeaidd feddu ar ddata sy'n ddigon dibynadwy a chymaradwy ar y boblogaeth a thai er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau, yn arbennig o dan Erthyglau 2 a 3 o'r Cytundeb a sefydlodd y Gymuned Ewropeaidd[10]. I'r perwyl hwn, daeth Rheoliad Cyngor a Senedd Ewrop[11] sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau roi gwybodaeth ystadegol sy'n deillio o gyfrifiad, neu ddata cyfatebol, yn ymwneud â blwyddyn gyfeirio 2011 i Swyddfa Ystadegol y Cymunedau Ewropeaidd (Eurostat) i rym ym mis Gorffennaf 2008. Rhoddir ystadegau cyfun, y cytunwyd arnynt gan Sefydliadau Ystadegol Cenedlaethol Aelod-wladwriaethau, ac a ragnodir gan Reoliad Comisiwn dilynol, i Eurostat gan y Comisiwn Ewropeaidd gan ategu Senedd Ewrop. Gwneir trefniadau i sicrhau bod rheolaethau datgelu ystadegol ar waith i ddiogelu cyfrinachedd unrhyw ddata ystadegol a roddir i Eurostat o dan y rwymedigaeth hon (gweler hefyd Bennod 6).

1.23 Mae’r Deyrnas Unedig yn chwarae rhan lawn mewn trafodaethau i sicrhau cysondeb yr ystadegau a gaiff eu llunio gan Aelod-wladwriaethau gwahanol yr UE. Bydd y cysyniadau a’r diffiniadau i’w mabwysiadu gan yr UE yn glynu wrth *Recommendations for the 2010 Censuses of Population and Housing*[12] Cynhadledd yr Ystadegwyr Ewropeaidd a baratowyd gan Gyd-weithgor Eurostat a Chomisiwn Economaidd y CU ar gyfer Ewrop, y gwnaeth y DU gyfraniad sylweddol ato.

1.24 Bydd y DU hefyd yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion ystadegol a nodwyd gan y Cenhedloedd Unedig (CU), i’r graddau y bo’n bosibl. Mabwysiadwyd cyfres o egwyddorion ac argymhellion ar gyfer y gyfres nesaf o gyfrifiadau ledled y byd[13], yn dilyn cyfarfod Comisiwn Ystadegol y CU yn Efrog Newydd ym mis Chwefror 2008, a gofynnwyd i bob gwlad gynhyrchu allbynnau craidd a gaiff eu cynnwys mewn cyhoeddiad demograffig CU.

## Argymhellion Cyfrifiad 2001 a nodau strategol 2011

1.25 Mae’r nodau strategol ar gyfer Cyfrifiad 2011 wedi ystyried y gwersi a ddysgwyd o Gyfrifiad 2001 a aseswyd drwy werthusiadau SYG a newidiadau mewn cymdeithas a ddisgwyliwyd rhwng 2001 a 2011. Hefyd, ystyriodd SYG yr argymhellion a wnaed gan gyrff allanol, megis Pwyllgor Dethol y Trysorlys, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, y Comisiwn Ystadegau, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a’r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn eu hadolygiadau annibynnol eu hunain o Gyfrifiad 2001[9,14–17]. Yn fras, ymdriniodd y materion allweddol a godwyd yn yr adolygiadau hyn â’r angen i:

- gytuno'n gynt ar y trefniadau cytundebol hynny â chyflenwyr allanol ar gyfer agweddau ar gynnal y cyfrifiad i'w gosod ar gontract allanol, a sicrhau bod pob cyflenwr o'r fath yn cael ei ddewis drwy weithdrefnau caffael cadarn ac yn ddigon cynnar er mwyn gallu profi systemau'n llawn cyn y Cyfrifiad
- datblygu rhestr gyfredol o gyfeiriadau sydd o ansawdd uchel i gynyddu effeithlonrwydd y gwaith o ddosbarthu ffurflenni'r Cyfrifiad
- datblygu systemau rheoli maes ac olrhain ffurflenni cadarn er mwyn rheoli prosesau a gweithgareddau maes yn well yn ganolog
- cynnal proses ymgysylltu fanylach a chynharach â rhanddeiliaid, yn enwedig awdurdodau lleol ac adolygu prosesau ymgynghori er mwyn sicrhau bod anghenion y gymuned anabl yn cael eu hystyried
- adolygu prosesau ymgynghori er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n well wrth gynllunio cyfrifiad
- adolygu a yw cynllun yr arolwg cwmpas yn ddigonol i nodi achosion o dangyfrifo yn yr ardaloedd anoddaf eu cyfrif
- adolygu'r angen i gasglu gwybodaeth am incwm
- adolygu'r cyfnewidiadau cost a budd wrth geisio cynhyrchu allbynnau mwy amserol sy'n gyson ac yn cyflawni cysondeb ledled y DU

- adolygu'r dulliau o ddiogelu cyfrinachedd ystadegol heb gael effaith andwyol ar y defnydd a wneir o'r data

1.26 Gan ystyried y sylwadau a'r argymhellion niferus a ddeilliodd o Gyfrifiad 2001, mae cynigion Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Cyfrifiad 2011 yn seiliedig ar nifer o nodau strategol:

- rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i sicrhau bod y cyfrifiadau cenedlaethol a lleol o'r boblogaeth yn gywir
- creu partneriaethau effeithiol â sefydliadau eraill, yn enwedig awdurdodau lleol, wrth gynllunio a chynnal y gweithrediad maes
- darparu ystadegau sy'n cynnig gwerth am arian, sy'n addas at y diben ac sydd o ansawdd uchel ac sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ac yn gyson, yn gymaradwy ac yn hygyrch ledled y DU i'r graddau y bo'n bosibl
- sicrhau'r cyfraddau ymateb cyffredinol mwyaf a lleihau'r gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb mewn ardaloedd penodol ac ymhlith is-grwpiau penodol o'r boblogaeth
- diogelu gwybodaeth bersonol gyfrinachol o'r cyfrifiad a dangos y gwneir hynny

## Crynodeb o brif nodweddion cynllun Cyfrifiad 2011

1.27 Yn fras, cynigir y canlynol:

- Bydd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys pawb sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a Lloegr ar noson y Cyfrifiad, gan gasglu is-set o wybodaeth gan ymwelwyr sy'n bresennol ar noson y Cyfrifiad hefyd. Cesglir gwybodaeth hefyd gan breswylwyr mewn sefydliadau cymunedol ac unigolion neu gartrefi nad oes ganddynt gyfeiriad arferol neu ffisegol
- Drwy'r post y dosberthir ffurflenni yn bennaf (i gynifer â 95 y cant o gartrefi). Bydd y broses o ddosbarthu ffurflenni drwy staff maes yn canolbwyntio ar ardaloedd y mae'n anodd iawn eu cyfrif
- Bydd y cyhoedd yn gallu dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi drwy'r post, ar-lein, neu drwy eu casglu wrth stepen y drws; gwneir trefniadau arbennig i gasglu ffurflenni o gartrefi na allant fel arall lenwi ffurflenni yn y ffyrdd hyn.
- Bydd cymorth ar gael i unrhyw un sy'n ei chael yn anodd llenwi ffurflen y Cyfrifiad
- Bydd cynnydd bach yn nifer y cwestiynau o gymharu â Chyfrifiad 2001, ond ailgynlluniwyd y ffurflen i'w gwneud yn haws ei llenwi
- Bydd rhywfaint o wahaniaeth yn y cwestiynau a ofynnir yng Nghymru a Lloegr o gymharu â Chyfrifiad 2001, (a bydd rhai gwahaniaethau pellach o gymharu â'r Cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon)
- Y newidiadau mawr i'r cwestiynau o gymharu â 2001 yw:
  - cwestiynau ar hunaniaeth genedlaethol a dinasyddiaeth
  - categorïau ymateb ychwanegol yn y cwestiwn ar ethnigrwydd

- cwestiynau ar ail breswylfeydd
- cwestiwn ar iaith
- cynnwys categori partneriaeth sifil yn y cwestiwn ar statws priodasol;
- cwestiynau ar y dyddiad y cafwyd mynediad i'r DU ar gyfer mewnfudwyr a'r bwriad i aros
- pheidio â chynnwys y cwestiynau ar y defnydd o doiled a bath/cawod.

Ceir manylion y rhain a newidiadau eraill i'r cynnwys pwnc ym Mhennod 3.

- Mae pob cwestiwn a gynhwysir yn y cynigion yn diwallu angen a nodwyd ac yn addas ar gyfer ffurflen hunan-lenwi; mae cyfrifiadau neu brofion blaenorol wedi dangos bod y cwestiynau yn dderbyniol i'r cyhoedd ar y cyfan, ond bydd y graddau y mae pob cwestiwn yn dderbyniol yn destun rhagor o waith asesu yn ystod 2009.
- Bydd gweithdrefnau llym o ran cyfrinachedd a diogelwch yn diogelu'r wybodaeth a gesglir yn y Cyfrifiad ac yn cydymffurfio â'r gofynion o ran deddfwriaeth Cyfrinachedd Cyfrifiad, Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth yn ogystal â darpariaethau Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru newydd 2007 (gweler Pennod 6 am ragor o fanylion).
- Mae'r Cyfrifiad yn dibynnu ar gydweithrediad y cyhoedd, ac i helpu i sicrhau hyn cynhelir ymgyrch gyhoeddusrwydd er mwyn cyfleu diben a gwerth y Cyfrifiad i'r cyhoedd a rhoi sicrwydd ynghylch cyfrinachedd y wybodaeth.
- Rhoddwyd mentrau ar waith i sicrhau bod y wybodaeth a gesglir o'r ansawdd mwyaf posibl a'i bod yn cael ei mesur yn effeithiol; yn arbennig, cynhelir arolygon cwmpas ac ansawdd y Cyfrifiad i fesur nifer y bobl nas cyfrifwyd gan y Cyfrifiad ac ansawdd yr ymatebion a roddwyd.
- Caiff allbwn ystadegol y Cyfrifiad ei gynllunio i fodloni gofynion defnyddwyr, ac fe'i rhennir yn unol ag amserlen a drefnir ymlaen llaw.

## Costau a rheolaeth ariannol

1.28 Yn seiliedig ar dybiaethau cynllunio presennol, amcangyfrifir mai cyfanswm cost Cyfrifiad 2011 yng Nghymru a Lloegr dros y cyfnod o 11 mlynedd rhwng 2005 a 2016 yw £482 miliwn ar hyn o bryd. Caiff y costau ar gyfer y cyfnod hwn eu rhannu fel a ganlyn:

(£ miliynau)

| Cymru a Lloegr | 2005–2007 | 2007–2008 | 2008–2009 | 2009–2010 | 2010–2011 | 2011–2012 | 2012–2016 | Cyfanswm 2005–2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau | 12.0 | 11.3 | 40.6 | 48.7 | 152.4 | 184.7 | 32.0 | 481.7 |

1.29 Darparwyd £450 miliwn ar gyfer cost y Cyfrifiad hyd at 2011–12. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer blynyddoedd diweddarach yn amodol ar adolygiadau o wariant yn y dyfodol a bydd yn cwmpasu camau terfynol y gwaith o brosesu a rhannu data ac allbwn a nifer o wasanaethau a datganiadau allbwn dilynol.

1.30 Caiff costau'r broses o gynnal y Cyfrifiad eu rheoli a'u monitro'n ofalus. Elfennau mwyaf y gost yw'r gweithrediad maes – dosbarthu a chasglu'r holiaduron – a phrosesu'r data. Mewn ymgyrch i wella costeffeithiolrwydd y broses weithredu, mae Swyddfeydd y Cyfrifiad yn datblygu'r gwaith o osod y rhain ar gontract allanol ynghyd â rhai agweddau eraill ar Gyfrifiad 2011, gan adeiladu ar brofiad 2001 (gweler paragraffau 4.74–4.81). Gyda'i gilydd mae tua 55 y cant o gostau arfaethedig y Cyfrifiad wedi'u nodi ar gyfer cyfranogiad posibl gan y sector preifat.



2

# Ymgynghoriadau a phrofion y Cyfrifiad

# 2 Ymgynghoriadau a phrofion y Cyfrifiad

*"A Census is a complex and costly undertaking and one that is only undertaken when it has been clearly shown that there is a need for it. Planning the Census is inevitably a long process, requiring many phases and it is vital that consultation takes place with a wide range of users of census data to determine their needs for data."* **2001 Census General Report for England and Wales**[2]

## Y broses ymgynghori

2.1 Mae cynllun a chynnwys Cyfrifiad 2011 wedi'i seilio ar dri phenderfynydd allweddol:

- galwadau a gofynion defnyddwyr ystadegau cyfrifiad
- y gwerthusiad o Gyfrifiad 2001
- chyngor a chanllawiau asiantaethau a sefydliadau cyfrifiad rhyngwladol sydd â phrofiad o weithrediadau tebyg

Pennwyd y rhain drwy waith ymgynghori helaeth, cyswllt rhyngwladol, pwyllgorau cynghori ffurfiol, gweithgorau pwnc a chyfarfodydd cyhoeddus *ad hoc*, drwy gyfryngau megis papurau ymgynghori a gwybodaeth SYG, a gwefan y Cyfrifiad. Cafwyd llawer o ymatebion llawn a manwl gan randdeiliaid, defnyddwyr ac aelodau o'r cyhoedd – sy'n parhau – a fu'n allweddol i ddatblygu cynllun arfaethedig y Cyfrifiad.

2.2 Ymgynghorwyd ag adrannau'r Llywodraeth, ar sail ddwyochrog ac ar y cyd drwy Benaethiaid Proffesiynau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth a Phwyllgorau rhyngadrannol, i bennu eu hanghenion a blaenoriaethau o ran cynnwys pynciau. Yn yr un modd, ymgynghorwyd ag awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd, y gymuned academaidd, y sector busnes a chymunedau lleol drwy Grwpiau Cynghori hirsefydlog y Cyfrifiad a drefnwyd gan yr Ystadegydd Gwladol. Hefyd, ymgynghorwyd ag arbenigwyr pwnc a methodolegwyr o fewn SYG.

2.3 Fel rheol, mae Grwpiau Cynghori'r Cyfrifiad, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r prif gymunedau o ddefnyddwyr a swyddogion SYG, yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ond cânt wybodaeth a chynhelir ymgynghoriadau fel y bo'n berthnasol. Yn ogystal â'r Grwpiau hynny a sefydlwyd cyn Cyfrifiad 2001 (sy'n cwmpasu buddiannau adrannau llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd, y gymuned academaidd, a chymdeithasau busnes a phroffesiynol), sefydlwyd dau Grŵp Cynghori newydd ar gyfer Cyfrifiad 2011 mewn ymateb i argymhelliad adroddiad Pwyllgor Dethol y Trysorlys ar Gyfrifiad 2001[9] er mwyn

darparu fforymau i glywed barn defnyddwyr a rhanddeiliaid ehangach yng Nghymru a chyrff Trydydd Sector sy'n cynrychioli buddiannau cymunedau lleol, grwpiau lleiafrifol, pobl anabl a sefydliadau ffydd.

2.4 Rhydd y Grwpiau fforwm i drafod nifer eang o agweddau ar y Cyfrifiad sy'n cwmpasu:

- sail y boblogaeth
- cynnwys pwnc
- diffiniadau a dosbarthiadau
- cynlluniau a chanlyniadau profion ac ymarferion
- methodoleg casglu data
- cynlluniau sicrhau ansawdd
- cyswllt cymunedol
- allbynnau, gan gynnwys daearyddiaeth a chyfryngau dosbarthu
- methodolegau ystadegol a rheoli datgeliadau
- gwerthusiadau.

2.5 Mae Grwpiau Cynghori yn elfen allweddol o ymgynghori â defnyddwyr ar y Cyfrifiad a byddant yn parhau i gwrdd, naill ai ar eu ffurf bresennol neu – mewn rhai achosion – ar eu ffurf ddiwygiedig, hyd at ac ar ôl diwrnod y Cyfrifiad.

2.6 Rheolwyd ymgynghoriad ychwanegol ag awdurdodau lleol i ddechrau drwy Grŵp Llywio Cyswllt Awdurdod Lleol a sefydlwyd yn arbennig, a chwaraeodd rôl benodol yn y gwaith o lywio trefniadau gwaith partneriaeth rhwng SYG ac awdurdodau lleol i ddatblygu'r gweithrediad maes gyda'r nod cyffredinol o wella'r ymateb. Yn arbennig, mae cynllunwyr y Cyfrifiad wedi ystyried y gwersi a ddysgwyd o Gyfrifiad 2001 yn yr ardaloedd hynny yr oedd yn anodd iawn eu cyfrifo.

2.7 Ymgysylltwyd ag awdurdodau lleol ar y lefel uchaf i gychwyn drwy Gymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), a sefydlodd Is-grŵp Cyfrifiad o'i Phanel Materion Etholiadol yn 2006 er mwyn hwyluso'r broses o ymgysylltu â llywodraeth leol ar y lefel gwneud penderfyniadau polisi, ac mae bellach yn cael ei ddatblygu drwy rwydwaith o Hyrwyddwyr Rhanbarthol y Cyfrifiad a benodwyd o blith y Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer pob un o naw Swyddfa'r Llywodraeth yn Lloegr a'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer Cymru.

2.8 Yng Nghymru, hwylusir y broses o gysylltu ag awdurdodau lleol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, SOLACE Cymru ac Uned Ddata Llywodraeth Leol. Ceir ymgysylltiad ar lefel waith drwy Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru a fforymau eraill. At hynny, yng Nghymru, aeth cynrychiolwyr SYG a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfarfod pob un o Bwyllgorau Pwnc y Cynulliad Cenedlaethol rhwng mis Hydref 2006 a mis Mawrth 2007 i drafod cynlluniau ar gyfer y Cyfrifiad yng Nghymru (gweler hefyd baragraff 7.11). Yn arbennig ymdriniodd y rhain â'r canlynol:

- y trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r pŵer i lunio Rheoliadau'r Cyfrifiad o Ganghellor y Trysorlys i'r Cynulliad Cenedlaethol (ac a drosglwyddwyd

wedyn i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler paragraffau 7.8–7.10))

- y gwahaniaethau yng nghynnwys holiadur y Cyfrifiad yng Nghymru, megis cynnwys blwch ticio hunaniaeth Gymraeg a chwestiwn ar yr iaith Gymraeg (gweler paragraffau 3.57 a 3.65 yn y drefn honno)
- y trefniadau arbennig ar gyfer cynnal y Cyfrifiad yng Nghymru, megis darparu holiaduron cyfrifiad yn Gymraeg a Saesneg a deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog (gweler hefyd baragraff 4.43)

2.9 Yn ogystal, bu ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol, a gefnogwyd gan nifer o sioeau teithiol cenedlaethol a chyfarfodydd agored, ar faterion penodol, ac mae SYG wedi croesawu sylwadau a chyflwyniadau ar y Cyfrifiad o unrhyw ffynhonnell gyda neu heb wahoddiad. Mae Blwch 1 yn crynhoi'r prif ymgynghoriadau a gynhaliwyd hyd yma.

**Blwch 1 Ymgynghoriadau ar Gyfrifiad 2011 yng Nghymru a Lloegr**

| | |
|---|---|
| Hydref 2003 | Gweithdy Cyd-grwpiau Cynghori. |
| Tachwedd 2003 | Cynhadledd SYG/RSS 'Census 2001 and Beyond: Learning from the past – building for the future'. |
| Mawrth 2004 | Papur Gwybodaeth '2011 Census: A design for England and Wales'. |
| Mai 2005 | Barn gychwynnol SYG ar gynnwys yn cael ei chyhoeddi. |
| Mehefin/Gorffennaf 2005 | Cyfarfodydd Sioe Deithiol Gyhoeddus yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd, Crewe, Harrogate, Llundain, Newcastle a Northampton. |
| Mawrth 2006 | Asesiad o ofynion cychwynnol defnyddwyr o ran cynnwys yn cael ei gyhoeddi. |
| Hydref 2006 | Papur Gwybodaeth ar Ddatblygu holiadur ar gyfer Prawf 2007 yn cael ei gyhoeddi. |
| Tachwedd 2006 – Chwefror 2007 | Ymgynghoriad ar ddaearyddiaeth Ardaloedd Bach. |
| Rhagfyr 2006 - Mawrth 2007 | Ymgynghoriad ar ethnigrwydd, hunaniaeth, crefydd ac iaith. |
| Mawrth 2007 | Y farn ddiweddaraf am gynnwys - cyfarfodydd agored yng Nghaerdydd, Llundain a Sheffield. |
| Hydref 2007 | Ymatebion i'r ymgynghoriad ar ethnigrwydd, hunaniaeth, crefydd ac iaith yn cael eu cyhoeddi. |
| Chwefror – Mai 2008 | Ymgynghoriad ar-lein ar anghenion allbwn defnyddwyr. |
| Tachwedd 2008 | Sioe Deithiol gyhoeddus ymgynghoriad ar allbwn. |

2.10 Mae SYG wedi ystyried yr holl safbwyntiau a fynegwyd hyd yma wrth baratoi'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn.

## Cynnwys rhanddeiliaid yn fwy

2.11 Yn ogystal â'r dulliau sefydledig o ymgynghori â defnyddwyr ystadegau cyfrifiad, mae SYG wedi datblygu strategaethau i gynnwys ystod ehangach o randdeiliaid er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r safbwyntiau ehangach ar gynnal y Cyfrifiad. Yn arbennig, mae SYG yn ceisio annog deialog â'r Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru drwy fforymau Pwyllgorau Dethol, Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Grwpiau Seneddol Hollbleidiol, ac ASau/Aelodau Cynulliad unigol fel y bo'r cyfleoedd yn codi, er mwyn sicrhau y ceir dealltwriaeth fwy cyffredinol o nodau ac amcanion, a phwysigrwydd, Cyfrifiad 2011, ynghyd â chefnogaeth drawsbleidiol ar ei gyfer, fel bo'r broses weithredu gyfan yn cael cefnogaeth eang.

2.12 Bydd cyswllt agosach â grwpiau cymunedol a chyrff eraill yn anelu at sicrhau bod y Cyfrifiad nid yn unig yn diwallu anghenion ystadegol defnyddwyr, ond bod materion yn ymwneud ag anabledd a materion eraill yn ymwneud â chydraddoldeb yn cael sylw priodol er mwyn sicrhau bod y Cyfrifiad yn cydymffurfio'n llawn â'r rhwymedigaethau sydd ar SYG sy'n deillio o ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. Cyfeirir at faterion penodol yn fanylach ym Mhenodau 3 a 4.

## Profion y Cyfrifiad

2.13 Mae cynigion Awdurdod Ystadegau'r DU hefyd yn ystyried canlyniadau rhaglen ymchwil a phrofion a anelwyd at feithrin gwell dealltwriaeth o amgyffred a chanfyddiad y cyhoedd o gysyniadau'n ymwneud â'r cyfrifiad, a phrofion, yn fach ac yn fawr, ar eiriad cwestiynau'r cyfrifiad, cynllun yr holiadur a dulliau dosbarthu.

2.14 Mae gwaith cynllunio cynnar, profion a gwaith gwerthuso yn brosesau hanfodol i sicrhau llwyddiant Cyfrifiad 2011. Diben cynnal profion gwirfoddol cyn cyfrifiad yw asesu'r ystod eang o agweddau gwahanol ar weithredu'r cyfrifiad, o'r cyhoedd yn derbyn y cwestiynau a'r gweithdrefnau gweithredol i'r camau amrywiol ar brosesu data. Mae anghenion newidiol defnyddwyr cyfrifiad, a datblygiadau mewn technoleg, yn arwain at arloesedd o ran gweithredu'r cyfrifiad y mae'n rhaid ei brofi'n drylwyr cyn ei fabwysiadu, gan ganiatáu amser i wneud newidiadau ac yna gynnal profion pellach os oes angen. Yn arbennig, mae Cyfrifiad 2011 yn anelu at fabwysiadu'r canlynol:

- cynllun newydd ar gyfer yr holiadur;
- dulliau newydd o ddosbarthu a chasglu'r ffurflen
- partneriaethau cryfach ag awdurdodau lleol a chymunedau
- technolegau newydd a osodir ar gontract allanol a methodolegau targedu gweithredol gan gynnwys gwirio cyfeiriadau ac anfon drwy'r post
- defnyddio adnoddau dilynol mewn ffordd fwy hyblyg

2.15 Cynhaliwyd Prawf Cyfrifiad mawr yng Nghymru a Lloegr ar 13 Mai 2007. Ei brif nodau oedd:

- gwerthuso effaith (i) cynnwys cwestiwn ar incwm, a (ii) defnyddio'r post i ddosbarthu holiaduron ar ymatebion
- asesu ymarferoldeb rhai syniadau arloesol mawr o ran gweithdrefnau gweithredol, megis datblygu cofrestr cyfeiriadau a gosod y gwaith o recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes ar gontract allanol
- asesu perfformiad cyflenwyr amgen fel rhan o'r broses o gaffael nifer o wasanaethau ar gontract

2.16 Roedd Prawf 2007 yn brawf mawr mewn pum ardal awdurdod lleol a ddewiswyd i adlewyrchu amrywiaeth o amodau maes. Roedd y pum awdurdod lleol (pedwar yn Lloegr ac un – am y tro cyntaf mewn Prawf Cyfrifiad mawr – yng Nghymru) (gweler Ffigur 1) yn cynrychioli amrywiaeth o fathau o ardaloedd yn ôl dosbarthiad ardal SYG[18]:

- Lerpwl (Gwasanaethau a Dinasoedd)
- Camden (Canol Llundain)
- Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf (DU Ffyniannus)
- Stoke-on-Trent (Mwyngloddio a Gweithgynhyrchu)
- Sir Gaerfyrddin (Arfordir a Chefn Gwlad)

2.17 Dewiswyd yr ardaloedd hyn, gan fabwysiadu nifer o feini prawf, i ddarparu trawstoriad amrywiol o'r boblogaeth – yn cynnwys cymysgedd o fyfyrwyr, yr henoed, cymunedau ethnig – a mathau o dai a fyddai'n cael eu cwmpasu mewn cyfrifiad llawn[19].

2.18 Yr ymateb cyffredinol i'r Prawf gwirfoddol oedd 48 y cant gan amrywio o 35 y cant yn Camden i 66 y cant yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yr ymateb yn is na'r Prawf cyfatebol yn 1997 cyn Cyfrifiad 2001, gan adlewyrchu nid yn unig y duedd mewn profion cyn cyfrifiad dros y 30 mlynedd diwethaf o ran y ffaith bod llai a llai o'r cyhoedd yn cymryd rhan ond hefyd y ffaith bod yr ardaloedd a ddewiswyd yn tueddu at y rhai y mae'n anodd iawn eu cyfrifo a lle felly, yr oedd disgwyl i'r ymateb fod yn is na'r cyffredin. Serch hynny, roedd yn ddigon uchel i gynnal gwerthusiadau ystadegol dilys. Cwblhawyd gwerthusiad cryno o'r Prawf yng ngwanwyn 2008[20] ac o ganlyniad i'w ganfyddiadau, cafodd nifer o'r gweithdrefnau a ddilynwyd yng Nghyfrifiad 2001 eu diwygio'n sylweddol. Ymhlith y newidiadau allweddol roedd:

- anfon y rhan fwyaf o ffurflenni'r cyfrifiad drwy'r post
- gosod y gwaith o recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes cyfrifo ar gontract allanol
- dibynnu ar system rheoli maes i olrhain ffurflenni a monitro cyfraddau ymateb ardal leol

2.19 Yn ogystal â’r Prawf mawr yn 2007, cynhaliwyd profion ac ymchwil ar raddfa lai rhwng 2005 a 2008. Mae’r rhain wedi amrywio o bennu’r graddau y mae’r cyhoedd yn derbyn cwestiynau a therminoleg (a gynhaliwyd yn bennaf drwy grwpiau ffocws ac ymchwil wybyddol) i asesu dichonoldeb gweithgareddau maes arloesol ac effeithiolrwydd a chwmpas rhestrau cyfeiriadau presennol (a gynhaliwyd drwy arolygon post a phrofion maes).

2.20 Roedd y profion hyn yn wirfoddol ac mae’r Llywodraeth yn ddiolchgar iawn am gydweithrediad y cyhoedd wrth ymateb iddynt. Cynhaliwyd profion tebyg yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd gan Swyddfeydd y Cyfrifiad [21,22].

## Ymarfer y Cyfrifiad


2.21 Cynhelir Ymarfer ar gyfer y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr ar 11 Hydref 2009, gyda’r nod o sicrhau bod yr holl weithdrefnau ar gyfer dosbarthu a chasglu ffurflenni’r cyfrifiad yn effeithiol. Ar hyn o bryd, bwriedir i’r Ymarfer gwmpasu tua 135,000 o gartrefi mewn ardaloedd a ddewiswyd i ddynwared amodau cyfrifiad gwirioneddol drwy gynnwys trawstoriad o’r boblogaeth a mathau o dai, er enghraifft, ardaloedd â lefelau uchel o amlddeiliadaeth, yn enwedig twf cyflym a symudiad o ran y boblogaeth, llety myfyrwyr, gwestai a llety gwyliau, ysbytai a sefydliadau cymunedol mawr eraill, a chymunedau lleiafrifoedd ethnig amrywiol. Bydd ardaloedd yr Ymarfer yn cynnwys 61,000 o gartrefi yng Nghaerhirfryn (yr ALl cyfan), 40,000 yn Newham (tua 40 y cant o’r fwrdeistref) ac Ynys Môn yn gyfan gwbl (gan gwmpasu tua 34,000 o gartrefi) (gweler Ffigur 1).

2.22 Y nod fydd lleihau’r risg o fethiant gweithrediadau maes y Cyfrifiad yn 2011 ynghyd â’u systemau cefnogol, yn enwedig gweithdrefnau a systemau newydd ac arloesol, drwy brofi:

- ymateb ar-lein i'r holiadur
- cofrestr cyfeiriadau i’w defnyddio i ddosbarthu ffurflenni a’u holrhain
- y systemau cymorth maes allweddol
- cipio a chodio data
- cyfleu negeseuon allweddol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid
- yr elfennau hynny o gynllun y Cyfrifiad sy'n benodol i Gymru

2.23 Hefyd cynhelir ymarferion ategol y Cyfrifiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn 2009.

## Ffigur 1 Cymru a Lloegr: Prawf 2007 ac Ymarfer 2009; Awdurdodau Lleol ac Unedol





# Poblogaeth a phynciau i'w cwmpasu gan y Cyfrifiad

# 3 Poblogaeth a phynciau i'w cwmpasu gan y Cyfrifiad

*"There is an unyielding tension in the collection of census data between change and continuity. As social realities change, this must be reflected in the questions asked and the definitions used, otherwise the census becomes fossilised and loses its relevance. On the other hand, one of the main uses of the census is to make comparisons over time – to record shifts in the population, changes in the occupational structure, changes in housing."* **Angela Dale, Cathie Marsh Centre for Census and Survey Research, Prifysgol Manceinion**[23]

## Sail y boblogaeth

3.1 Yn draddodiadol mae pob cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd yn cwmpasu pawb yng Nghymru a Lloegr, a chynigir hyn eto ar gyfer Cyfrifiad 2011. Cyn Cyfrifiad 2001 y sail gyfrifo oedd y rhai a oedd yn bresennol mewn cyfeiriad ar noson y Cyfrifiad, ac amcangyfrifwyd cyfrifiadau o breswylwyr drwy drosglwyddo ymwelwyr yn ôl i ardal eu preswylfa arferol. Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghoriad cyn Cyfrifiad 2001, roedd defnyddwyr wedi dangos eu bod yn gryf o blaid gweld y Cyfrifiad yn cyfrif unigolion yn eu preswylfa p'un a oeddent yn bresennol yno ai peidio ar noson y Cyfrifiad ac felly gwnaed y newid hwn**.** Ar yr adeg honno hefyd penderfynwyd peidio â chyfrif ymwelwyr er mwyn lleihau'r baich ar y cyhoedd.

3.2 Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o dystiolaeth mai'r methiant hwn i geisio cipio ymwelwyr a'r diffyg eglurder dilynol o ran ymhle y dylid cofnodi ymwelwyr oedd dau o'r ffactorau a arweiniodd at y tangyfrifo yng Nghyfrifiad 2001. O ganlyniad, er bod SYG yn cynnig cyfrifo unigolion yn y man lle maent yn preswylio fel arfer unwaith eto, caiff gwybodaeth am ymwelwyr sy'n bresennol mewn cartrefi ar noson y Cyfrifiad – gan gynnwys ymwelwyr o dramor – ei chasglu (gweler paragraffau 3.95–3.96) a chynhyrchir cyfrifiadau ar wahân.

3.3 Caiff pob cartref holiadur Cyfrifiad 2011 i'w lenwi, yn cynnwys cwestiynau ar bob unigolyn sydd fel arfer yn byw yn y cartref yn ogystal â chwestiynau ar y cartref cyfan. Yn ogystal, bydd lle i ddeiliad y cartref gofnodi nifer yr ymwelwyr sy'n bresennol yn y cyfeiriad ar noson y Cyfrifiad a rhai nodweddion demograffig sylfaenol megis oedran, rhyw a chyfeiriad arferol. Fodd bynnag, os bydd unrhyw ymwelwyr o'r fath fel arfer yn byw rywle arall yn y Deyrnas Unedig, bydd hefyd angen iddynt roi gwybodaeth lawn yn eu preswylfa arferol.

3.4 Fel o'r blaen, ystyrir bod myfyrwyr a phlant ysgol breswyl yn byw yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor waeth ble y maent ar ddiwrnod y Cyfrifiad, gan felly olygu bod y Cyfrifiad yn gyson â'r sail ar gyfer yr amcangyfrifon o'r boblogaeth canol blwyddyn.

3.5 Caiff pobl sy'n byw mewn rhai mathau o sefydliadau cymunedol, megis gwestai ac ysbytai, Holiaduron i Unigolion i'w llenwi. Gwneir trefniadau ar wahân i gyfrifo mathau eraill o sefydliadau megis carchardai a gwersylloedd milwrol (gweler paragraffau 4.36–4.38).

3.6 Felly caiff holl breswylwyr y DU eu cyfrif yn y cyfeiriad maent yn byw adeg y Cyfrifiad; bydd y ffurflen ar gyfer cartref hefyd yn cynnwys unrhyw un sydd fel arfer yn byw yno ond sy'n digwydd bod i ffwrdd ar noson y Cyfrifiad, boed hynny rywle arall yn y Deyrnas Unedig neu dramor. Dyrennir ymwelwyr i'w preswylfa arferol. Bydd cyfrifiadau dilynol nifer y bobl sydd fel arfer yn byw mewn ardal yn sail i ffigurau'r boblogaeth a ddefnyddir i gyfrifo dyraniadau cymorth refeniw llywodraeth ganolog i lywodraeth leol ac awdurdodau iechyd. Gan ei bod yn bwysig sicrhau bod y ffigurau hyn mor gywir â phosibl, bydd yn ofynnol i bobl mewn cartrefi lle nad oedd unrhyw un yn bresennol ar noson y Cyfrifiad lenwi ffurflen Cyfrifiad pan ddychwelant i'w preswylfa arferol, os yw o fewn chwe mis i noson y Cyfrifiad. Mae'n debygol y caiff cartrefi sydd â phob aelod yn absennol nad ydynt yn llenwi ffurflen Cyfrifiad o fewn y cyfnod hwn eu cyfrifo fel rhan o'r broses o asesu cwmpas (gweler paragraff 5.16).

## Diffiniad diwygiedig o 'gartref'

3.7 Ar gyfer Cyfrifiad 2011, mae SYG yn mabwysiadu diffiniad diwygiedig o'r hyn sy'n gyfystyr â chartref, gyda'r nod o wella cyfraddau ymateb, yn enwedig mewn cyfeiriadau amlddeiliadaeth.

3.8 Yng Nghyfrifiad 2001 (a'r cyfrifiad blaenorol), cafodd cyfrifwyr gyfarwyddyd i ddosbarthu ffurflen Cyfrifiad i bob cartref unigol a ddiffiniwyd fel a ganlyn: *un person yn byw ar ben/phen ei hun* neu *grŵp o bobl (nad ydynt yn perthyn o anghenraid) yn byw yn yr un cyfeiriad sy'n rhannu cyfrifoldebau cadw tŷ.* At y diben hwn diffiniwyd 'gofal tŷ cyffredin' fel a ganlyn: *yn rhannu naill ai ystafell fyw neu lolfa, neu o leiaf un pryd y dydd.* Fodd bynnag, cafwyd anawsterau gan ddeiliaid cartrefi o ran dehongli'r diffiniad o 'gartref', a chyda'r cam arfaethedig tuag at fethodoleg anfon drwy'r post yn bennaf gan arwain at golli'r cyswllt wrth stepen y drws yn anochel, credwyd bod angen diffiniad mwy greddfol o gartref ar gyfer Cyfrifiad 2011. Yn arbennig, credwyd bod y term 'gofal tŷ cyffredin' yn dod yn fwyfwy hen ffasiwn ac yn cael ei gamddeall. Ymgynghorwyd â defnyddwyr ymhellach, a chynhaliwyd rhaglen ymchwil a phrofion gyda'r cyhoedd, er mwyn llunio cysyniad haws ei ddeall a oedd yn adlewyrchu newid cymdeithasol ac amodau byw modern, yn enwedig o fewn amgylchiadau anheddau

amlddeiliadaeth ac eto a oedd yn gyson â'r diffiniad sy'n hyrwyddo cysondeb yr argymhellwyd ei ddefnyddio yn arolygon y llywodraeth. Cafodd y diffiniad canlynol ei fabwysiadu ym Mhrawf Cyfrifiad 2007:

"*Cartref yw: un person yn byw ar ei ben/phen ei hun; neu grŵp o bobl (nad ydynt yn perthyn o anghenraid) sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac yn rhannu ystafell fyw, lolfa, ystafell fwyta neu gegin.*"

3.9 Er nad yw'r diffiniad hwn yn gyson â Chyfrifiad 2001, perfformiodd yn dda; dangosodd ymchwil wybyddol a gwerthusiad ôl-brawf nad oedd ymatebwyr yn ei chael yn anodd ei ddeall ac na chafwyd unrhyw broblemau. At hynny, mae'r diffiniad newydd yn gwbl gyson â dogfen gyfredol Cynhadledd yr Ystadegwyr Ewropeaidd sef *Recommendations for the 2010 Censuses of Population and Housing*[13]. Fodd bynnag, er mwyn osgoi unrhyw amwysedd parhaus o ran pennu pa elfennau o lety byw a rennir, mabwysiedir diffiniad diwygiedig pellach yng Nghyfrifiad 2011:

"*Cartref yw: un person yn byw ar ei ben/phen ei hun; neu grŵp o bobl (nad ydynt yn perthyn o anghenraid) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn rhannu cyfleusterau coginio ac sydd hefyd yn rhannu ystafell fyw, lolfa neu le bwyta*."

## Gofynion o ran pynciau

3.10 Y pynciau a gynigir ar gyfer y Cyfrifiad yw'r rhai y dangoswyd bod eu hangen fwyaf gan brif ddefnyddwyr gwybodaeth y cyfrifiad ac y lluniwyd cwestiynau ar eu cyfer y gellir disgwyl iddynt gynhyrchu data dibynadwy a chywir. Ymhob achos, nid oes ffynhonnell arall o'r wybodaeth y gellir ei chymharu na chael gafael arni ar gael ar y cyd ag eitemau eraill yn y Cyfrifiad.

3.11 Cyhoeddwyd barn gychwynnol ar gynnwys Cyfrifiad 2011[24] ym mis Mai 2005 gyda'r nod o hyrwyddo trafodaeth ac annog datblygu achosion cryf am bynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2011. Arweiniodd yr ymgynghoriad at alw llawer yn fwy am gwestiynau na'r hyn y byddai'n bosibl ei gynnwys ar ffurflen Cyfrifiad y gallai fod yn rhesymol disgwyl i gartrefi ei llenwi. I gychwyn nododd defnyddwyr fod angen yr holl bynciau a gynhwyswyd yng Nghyfrifiad 2001 ynghyd ag amrywiaeth o bynciau ychwanegol yn cwmpasu hunaniaeth genedlaethol, incwm, iaith, natur anabledd, ail breswylfa, blwyddyn cael mynediad i'r DU a hunaniaeth rywiol. Yn dilyn hynny cyflwynwyd achosion am ragor o bynciau megis nifer yr ystafelloedd gwely a'r bwriad i aros yn y DU. Wrth ddewis y cwestiynau terfynol bu'n rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd wrth asesu'r gofynion gwahanol am wybodaeth a chydbwyso'r angen am newid yn erbyn dilyniant. Bu nifer o feini prawf yn sail i'r gwerthusiad o gryfder yr achos a wnaed gan ddefnyddwyr am bob pwnc.

## Meini prawf i ddiwallu anghenion defnyddwyr

3.12 *Rhaid i bynciau ddiwallu angen sylweddol a ddangoswyd yn glir gan ddefnyddwyr*. Gellid cyfiawnhau anghenion defnyddwyr o ran, er enghraifft, ddyrannu adnoddau sylweddol, gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau, datblygu polisïau neu fonitro polisïau. Felly, mae'n hanfodol bod i bob cwestiwn a ofynnir ddiben penodol, a bod y data a gesglir o bwysigrwydd cenedlaethol mawr. Oni wnaed achos cadarn am gasglu gwybodaeth benodol, ni chynhwyswyd pwnc.

3.13 Mae'r Cyfrifiad yn briodol iawn i bynciau y mae angen *gwybodaeth fanwl am ardaloedd daearyddol bach a/neu wybodaeth am is-grwpiau bach o'r boblogaeth* ar ddefnyddwyr na ellir ei nodi'n ddigonol mewn ffyrdd eraill, megis cofnodion gweinyddol. Gall fod yn well casglu gwybodaeth am ardaloedd daearyddol eang yn unig (megis ar lefel awdurdod lleol neu lefel ranbarthol) mewn ffyrdd eraill (er enghraifft, arolygon sampl) yn dibynnu ar fanylion y croes-ddosbarthiad sy'n ofynnol. Yn yr un modd, os mai dim ond angen gwybodaeth am ychydig o ardaloedd bach penodol sydd, gallai dulliau eraill o gasglu data fod yn fwy priodol.

3.14 Un o fanteision allweddol data'r cyfrifiad yw *gallu dadansoddi newidynnau penodol yn erbyn ei gilydd*. Bydd gofyniad i gynnal dadansoddiad mor amlamrywedd yn cryfhau'r achos am gynnwys pwnc yn y Cyfrifiad. Mae'r pynciau a gynigir yn y Papur Gwyn hwn yn ategu ei gilydd; hynny yw, bydd pob un yn darparu gwybodaeth a fydd yn gwneud eraill yn fwy defnyddiol. Mae hyn yn agwedd werthfawr iawn ar gyfrifiad, lle cesglir gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau ar yr un pryd ar gyfer y boblogaeth gyfan er mwyn creu un ffynhonnell sy'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi rhyngberthnasau pwysig rhwng dau neu fwy o bynciau. Felly gellir cyfuno atebion gan y bobl unigol sy'n ffurfio cartrefi a theuluoedd er mwyn darparu gwybodaeth werthfawr am nifer a nodweddion cartrefi a theuluoedd o fathau gwahanol – megis, er enghraifft, nifer y teuluoedd un rhiant lle cyflogir y rhiant ac mae'r plant dan oedran ysgol.

3.15 Ac yn olaf, mae *cymhariaeth ystadegol â chyfrifiadau blaenorol* yn agwedd bwysig ar ddadansoddi cyfrifiad. Lle bynnag y bo'n bosibl, talwyd sylw arbennig i gymaroldeb â chynnwys holiadur Cyfrifiad 2001.

## Meini prawf i SYG eu hystyried

3.16 Yn ogystal roedd ffactorau eraill yr oedd angen i SYG eu hystyried wrth werthuso pa wybodaeth y gellir ei chasglu o'r Cyfrifiad ac asesu'r blaenoriaethau ar gyfer pynciau:

- dylid dangos, mewn profion, nad oedd cynnwys cwestiynau penodol wedi cael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y Cyfrifiad cyfan, yn enwedig ymateb y cyhoedd
- mae hefyd yn hanfodol gallu llunio cwestiynau ymarferol i gasglu data o ansawdd ystadegol digonol a mesuradwy i fodloni gofynion defnyddwyr am wybodaeth

3.17 At hynny, mae'r Cyfrifiad yn ymarfer gofynnol a gynhelir ar sail hunangyfrifo ac mae felly yn ofynnol i bob deiliad cartref ateb pob cwestiwn perthnasol ar yr holiadur (ac eithrio unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â chrefydd – gweler paragraff 3.60). Rhydd hyn gyfyngiadau ar y mathau o ddata y gellir ei gasglu er mwyn cynhyrchu allbwn cywir o ansawdd uchel. Felly ni ddylai'r Cyfrifiad, at ei gilydd:

- holi cwestiynau sensitif neu gwestiynau a allai fod yn ymwthiol a fyddai'n arwain at lefel annerbyniol o ddiffyg ymateb
- holi cwestiynau sy'n gofyn am esboniad hirfaith neu gyfarwyddyd i sicrhau ateb cywir (gan fod ymchwil wedi dangos nad yw pobl yn darllen y fath gyfarwyddiadau fel rheol), neu
- geisio gwybodaeth nad yw'n gwbl hysbys neu nad yw'n debygol y bydd pobl yn gallu ei chofio ac sydd, o ganlyniad, yn debygol o fod yn annibynadwy

3.18 Ystyriwyd hefyd *a* yw data ar gael o ffynonellau eraill. Er enghraifft, gallai data tebyg neu ddirprwyol gael ei gasglu gan un o adrannau neu sefydliadau eraill y llywodraeth, neu efallai y cynhaliwyd arolygon eisoes, neu maent ar y gweill, gan SYG, neu gallai'r data fod ar gael o gofnodion gweinyddol. Mae'r ddogfen National Statistics Code of Practice Protocol on Managing Respondent Load yn nodi "*National Statistics will, where appropriate, be derived from information supplied for the administration of government business and public services*"[25]. Felly, yn gyffredinol dylai Cyfrifiad 2011 ond geisio casglu gwybodaeth nad oes ffynhonnell ddichonadwy arall ar ei chyfer.

3.19 Mae SYG ei hun yn cynhyrchu amrywiaeth helaeth o wybodaeth ar hyn o bryd o gyfrifiadau ac arolygon economaidd, ffynonellau gweinyddol a rhaglen gynhwysfawr o arolygon o'r boblogaeth a chartrefi. Er na all arolygon SYG gasglu'r wybodaeth fanwl sydd ar gael o'r Cyfrifiad ar gyfer is-grwpiau bach o'r boblogaeth neu ardaloedd bach, mae manteision cyffredinol yn gysylltiedig â chyfwelwyr yn casglu'r data yn hytrach na'r fethodoleg hunangyfrifo a ddefnyddir yn y Cyfrifiad (er enghraifft, y gallu i dreiddio'n ddyfnach a datrys unrhyw ansicrwydd). Gall arolygon hefyd fod yn well na'r Cyfrifiad o ran amseroldeb allbwn.

3.20 Mae'r *baich ar yr ymatebydd* yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ystyried wrth gynllunio holiadur cyfrifiad. Felly, rhaid cyfyngu ar hyd y ffurflen, a'r gofod sydd ar gael arni, ac mae cynllun a maint cwestiwn yn ffactor pwysig wrth benderfynu a ellir casglu gwybodaeth benodol ai peidio drwy'r Cyfrifiad. Er bod holiadur Cyfrifiad 2011 dudalen yn fwy fesul unigolyn na ffurflen 2001, awgryma tystiolaeth o brofion na ddisgwylir i'r cynnydd hwn gael effaith ormodol ar yr ymateb.

3.21 Yn ogystal â'r ffactorau hyn, dylid ystyried y Cyfrifiad yn ymarfer *a gynhelir at ddibenion ystadegol yn unig*. Felly, ni ddylid defnyddio'r Cyfrifiad i gasglu data a fydd yn hyrwyddo grwpiau gwleidyddol neu sectaraidd yn fwriadol nac yn cefnogi achosion penodol.

3.22 Yn olaf, *mae SYG wedi ystyried y gofynion cyfreithiol a statudol*. Mae Deddf Cyfrifiad 1920 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfrifiad (Diwygio) 2000) yn cyfyngu ar y wybodaeth y gellir ei chasglu o'r Cyfrifiad i ryw raddau. Mae SYG hefyd wedi gorfod ystyried y gofynion posibl sy'n deillio o Reoliad diweddar yr Undeb Ewropeaidd ar gyfrifiadau o'r boblogaeth a thai[11] ynghyd â chanllawiau rhyngwladol cyfredol sy'n ymwneud â chynnwys cyfrifiad, a wneir i hwyluso'r broses o gymharu allbwn ystadegol yn rhyngwladol. Ystyriwyd argymhellion a wnaed gan y Cenhedloedd Unedig, Comisiwn Economaidd y CU ar gyfer Ewrop, ac Eurostat wrth lunio cynnwys holiadur Cyfrifiad 2011.

## Pynciau dethol

3.23 Yn fras, mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig y dylid casglu gwybodaeth am y pynciau canlynol yng Nghyfrifiad 2011:

### Ymhob eiddo a feddiannir gan gartref ac ar gyfer pob math o lety cartref heb ei feddiannu:

- Cyfeiriad, gan gynnwys cod post

### Ar gyfer cartrefi:

- Nifer ac enwau pob preswyliwr boed yn bresennol neu'n absennol am gyfnod dros dro ar noson y Cyfrifiad
- Enw, cyfeiriad arferol, rhyw ac oedran unrhyw ymwelydd sy'n bresennol ar noson y Cyfrifiad
- Deiliadaeth llety
- Math o lety ac a yw'n hunan-gynhwysol ai peidio
- Math o landlord (ar gyfer cartrefi mewn llety rhent)
- Nifer yr ystafelloedd (ac ystafelloedd gwely*)
- Math o wres canolog*
- Nifer y ceir a faniau sy'n eiddo i aelodau o'ch cartref neu sydd ar gael iddynt

### Ar gyfer preswylwyr mewn cartrefi

- Enw, rhyw, a dyddiad geni
- Statws priodasol (gan gynnwys statws partneriaeth sifil*)
- Perthynas ag eraill yn y cartref
- Statws myfyriwr
- A yw myfyrwyr yn byw mewn cyfeiriad a gaiff ei gyfrif yn ystod y tymor;
- Cyfeiriad arferol flwyddyn yn ôl
- Gwlad enedigol
- Dinasyddiaeth (pasbortau a ddelir)*
- Y mis a'r flwyddyn y cafwyd mynediad i'r DU* ac am ba hyd y bwriedir aros* (ar gyfer pobl nas ganwyd yn y DU)

- Hunaniaeth genedlaethol* a grŵp ethnig
- Crefydd
- Iaith*
- Medrusrwydd yn yr iaith Gymraeg (yng Nghymru yn unig)
- Iechyd cyffredinol
- Salwch neu anabledd hirdymor
- Darparu gofal personol di-dâl
- Cymwysterau addysgol a galwedigaethol
- Ail breswylfa*
- Gweithgarwch economaidd yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad
- Amser ers cyflogaeth ddiwethaf
- Statws cyflogaeth
- Statws goruchwylio
- Oriau gwaith
- Teitl swydd a disgrifiad o'r alwedigaeth
- Enw'r cyflogwr a natur busnes y cyflogwr yn y gweithle (diwydiant)
- Cyfeiriad y gweithle
- Dull o deithio i'r gwaith

### Ar gyfer ymwelwyr mewn cartrefi

- Enw, rhyw, a dyddiad geni
- Cyfeiriad arferol (neu drigfan arferol os nad yn breswyliwr y DU)

### Ar gyfer preswylwyr mewn sefydliadau cymunedol

- Fel ag ar gyfer preswylwyr mewn cartref heblaw am y berthynas ag eraill yn y cartref
- Statws yn y sefydliad

### Ar gyfer sefydliadau cymunedol

- Math o sefydliad (gan gynnwys grŵp oedran a’r boblogaeth a wasanaethir, a chyfrifoldeb y rheolwyr)

3.24 Cynigir cynnwys rhai o’r pynciau hyn (y rhai â *) yn y Cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr am y tro cyntaf. Cafodd pob pwnc arall ei gynnwys mewn rhyw ffurf neu’i gilydd yng Nghyfrifiad 2001. Mae fformat y cwestiwn ar grŵp ethnig yng Nghymru a Lloegr yn fwy manwl na’r cwestiwn a ofynnwyd yn 2001 er mwyn adlewyrchu anghenion newidiol a phroffil dynamig y boblogaeth lleiafrifoedd ethnig.

3.25 Caiff cwestiynau ar yr holl bynciau a restrir ym mharagraff 3.23 eu cynnwys yn Ymarfer y Cyfrifiad yn 2009. Disgrifir y cwestiynau a gynigir yn y paragraffau canlynol. O ganlyniad, caiff y cwestiynau i’w cynnwys yn y Cyfrifiad ei hun eu cyflwyno mewn deddfwriaeth ddilynol (Gorchymyn y Cyfrifiad) a gyflwynir gerbron y Senedd tuag at ddiwedd 2009 (gweler paragraffau 7.3–7.4).

## Cwestiynau i'w holi ymhob cyfeiriad

### Cyfeiriad a chod post

3.26 Gweithgaredd maes cyntaf y Cyfrifiad, a gynhelir ryw chwech i naw mis cyn dosbarthu ffurflenni'r Cyfrifiad, fydd gwirio pob cyfeiriad o fewn ardaloedd dynodedig penodol er mwyn sicrhau bod gan SYG restr gynhwysfawr a chyfredol o gyfeiriadau, y gall ei defnyddio fel y sail ar gyfer dosbarthu ffurflenni naill ai drwy'r post neu drwy gyfrifydd**.** (Mae'r fethodoleg o anfon ffurflenni drwy'r post, ynghyd â datblygu Cofrestr Cyfeiriadau, yn ddatblygiadau arloesol i'r Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, ac fe'u disgrifir yn llawnach ym mharagraffau 4.10–4.15). Yna **caiff y cyfeiriad post llawn gan gynnwys y cod post** ei argraffu'n awtomatig ar bob un o holiaduron y Cyfrifiad gan ei wneud yn unigryw i'r cartref hwnnw (neu'r sefydliad cymunedol). Gofynnir i ddeiliad y cartref (neu reolwr y sefydliad) sicrhau bod y wybodaeth am y cyfeiriad yn gywir a'i diwygio os nad yw.

3.27 Yn ogystal â hwyluso'r broses o ddosbarthu holiadur y Cyfrifiad, mae'r cyfeiriad yn helpu i sicrhau bod y staff maes yn trafod y ffurflen yn gywir, ac mae'n golygu y gellir gwirio'r ffurflenni hynny a ddychwelir drwy'r post. Bydd gweithdrefnau cyfrinachedd llym (gweler Pennod 6) yn sicrhau na ddefnyddir gwybodaeth am enwau a chyfeiriadau i ddatgelu unrhyw wybodaeth am unigolion neu gartrefi y gellid eu hadnabod i unrhyw un y tu allan i sefydliad y Cyfrifiad heblaw am at ddibenion y Cyfrifiad. Fodd bynnag, gellir defnyddio manylion y cyfeiriadau hynny nas cynhwysir ar y rhestr cyfeiriadau gychwynnol i'w defnyddio gan SYG, ond a nodwyd yn ystod y broses o wirio cyfeiriad, i ddiweddaru rhestrau cenedlaethol eraill o gyfeiriadau a ddefnyddir yn fwy cyffredinol. Dim ond pan nad oedd unrhyw risg i ddatgelu gwybodaeth cyfrifiad bersonol y gwnaed hyn (gweler paragraff 4.19).

3.28 Bydd cod post pob cyfeiriad yn golygu y gall Ardaloedd Cynnyrch a ddefnyddir i gyflwyno ystadegau'r cyfrifiad (gweler paragraffau 5.36–5.39), gael eu diffinio yn nhermau codau post ac, ar ffurf gyfun, gael eu defnyddio ar y cyd â data arall a drefnir ar sail cod post. Dim ond nifer fach o gyfeiriadau y mae cod post cyffredin yn ei chwmpasu, ac felly mae'r dewis o ardaloedd a allai ddatblygu o godau post yn eang. Fodd bynnag, er mwyn diogelu cyfrinachedd data Cyfrifiad 2011 ar gyfer pobl a chartrefi unigol, rhyddheir ystadegau – heblaw am gyfrif niferoedd yn syml - ar gyfer cyfuniadau digon mawr o godau post – fel yr oedd yr achos yn 2001 (gweler hefyd baragraff 6.5).

3.29 Bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi pob holiadur Cyfrifiad yn nodi **enw** pob preswyliwr yn y cartref i'w gynnwys ar y ffurflen. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y broses gyfrifo yn gyflawn ac mae'n golygu bod unrhyw ymholiadau yn cael eu cyfeirio at y bobl gywir os oes angen gweld a oes unrhyw wybodaeth ar goll.

## Cwestiynau ar gyfer pob cartref

3.30 Gofynnir rhai cwestiynau am bob cartref yn ei gyfanrwydd. Defnyddir gwybodaeth am **nifer y cartrefi** i gynllunio, ariannu a rheoli gwasanaethau a ddarperir i gartrefi'n gyffredinol. Yn ogystal, bydd ystod ehangach o ystadegau cyfrifiad am bobl a gwybodaeth am gartrefi a thai yn ategu penderfyniadau am ddatblygu gwledig a pholisïau trefol a pholisïau canol dinas, yn enwedig wrth ddatblygu safleoedd tir llwyd. Bydd ystadegau sy'n deillio o'r Cyfrifiad hefyd yn helpu i ddiffinio ardaloedd â phroblemau amddifadedd ac yn golygu y gellir cyfeirio polisïau ac adnoddau at yr ardaloedd ag anghenion arbennig.

3.31 Pan fydd llety yn wag ar noson y Cyfrifiad ac ni ddychwelir ffurflen, cofnodir rhai ffeithiau sylfaenol am yr eiddo gan staff maes a ddefnyddir i ategu'r wybodaeth a gesglir o lety a feddiannir. Bydd angen i gartrefi sydd â phob aelod yn gwbl absennol o'u cyfeiriad arferol ar noson y Cyfrifiad lenwi ffurflen Cyfrifiad ar ôl dychwelyd, os gwneir hyn o fewn chwe mis i noson y Cyfrifiad.

### Cwestiynau ar dai

3.32 Bydd y Cyfrifiad yn darparu gwybodaeth am y llety a feddiannir gan bob cartref. Bydd hefyd yn cyfrif anheddau, gan gynnwys rhai gwag, ynghyd ag anheddau a rennir gan ddau neu fwy o gartrefi. Bydd hyn yn dangos y ffordd y defnyddir y stoc dai a bydd yn sail gadarn i asesu gofynion cyfredol a gofynion y dyfodol wrth i nifer y cartrefi a'r math o gartrefi newid. Nid oes unrhyw ffynhonnell arall o ddata yn darparu gwybodaeth mor gynhwysfawr am stoc dai ar lefel genedlaethol a lefel leol.

3.33 Ar lefel ardal leol, y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell o wybodaeth y gellir ei chymharu'n genedlaethol am dai, ac fe'i defnyddir yn helaeth i gyfrifo hawliadau grant awdurdodau lleol. Defnyddir mesurau o dai annigonol a gorboblogi i benderfynu ar lefelau o fuddsoddiadau mewn tai ac i dargedu rhaglenni sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac economaidd mewn ardaloedd trefol a gwledig. Gofynnir y cwestiynau canlynol.

#### Math o lety a llety hunan-gynhwysol

3.34 Caiff cwestiynau ar y **math o lety** a feddiannir gan y cartref ac a yw'r llety hwnnw'n **hunan-gynhwysol** eu defnyddio i nodi anheddau ar wahân a nodweddion y llety mewn anheddau a rennir gan ddau neu fwy o gartrefi. Nodir cartrefi sy'n byw mewn carafanau a strwythurau dros dro eraill. Mae llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol a defnyddwyr eraill wedi cadarnhau pwysigrwydd parhaus casglu'r data hwn i hwyluso'r broses o ddadansoddi newidiadau yn y cyflenwad tai a'r galw am dai, er mwyn deall amrywiadau mewn amlddeiliadaeth a nodi ardaloedd o amddifadedd. Mae argaeledd gwybodaeth o'r fath yn sail gadarn i gymharu cyfrifiadau o gartrefi ac anheddau a sefydlu dosbarthiad anheddau gwag mewn ardaloedd bach.

## Deiliadaeth llety a math o landlord

3.35 Bydd cwestiynau ar **ddeiliadaeth llety** a **math o landlord** (pan fo'r llety yn cael ei rentu) yn dangos faint o'r stoc dai ymhob ardal sy'n eiddo i berchen-feddiannydd ac a yw'n destun morgais, yn eiddo i'r awdurdod lleol, yn cael ei osod yn breifat, yn cael ei ddarparu gan gymdeithasau tai, neu'n cael ei gadw gan fathau eraill o ddeiliadaeth. Bydd y wybodaeth yn helpu llywodraeth ganolog a llywodraeth leol i asesu newidiadau yn y galw am dai, dyrannu adnoddau ac adolygu a datblygu cynlluniau a pholisïau tai, ac fe'i defnyddir gan y diwydiant tai i ddadansoddi'r farchnad dai ac asesu achosion posibl o gam-gymharu rhwng y cyflenwad tai a'r galw am dai.

## Nifer yr ystafelloedd ac ystafelloedd gwely

3.36 Bydd cwestiwn ar **nifer yr ystafelloedd** mewn llety yn helpu i ddangos i ba raddau y gallai llety fod wedi'i orboblogi neu ei danddefnyddio, ynghyd â nifer y bobl ymhob cartref a'u nodweddion. Ystyrir bod prinder lle yn ddangosydd sylfaenol o amddifadedd tai ac fel y cyfryw mae'n gyfystyr â rhan hanfodol o'r Mynegai Amddifadedd. At hynny, mae byw mewn amodau gorboblog yn gysylltiedig ag effeithiau personol, cymdeithasol ac iechyd andwyol. Er enghraifft, ystyrir bod prinder lle yn niweidiol i ddatblygiad plant. Cynigir cwestiwn ychwanegol – sy'n newydd ar gyfer Cyfrifiad 2011 – sy'n nodi **nifer yr ystafelloedd gwely**.

## Math o wres canolog

3.37 Erbyn hyn nid ystyrir bod cwestiwn sefydledig y cyfrifiad ynghylch a oes gan gartrefi ddefnydd neilltuedig o fath/cawod neu doiled, neu'r ddau, yn darparu dangosydd digon gwahaniaethol o ran dyrannu adnoddau ar gyfer datblygu ac adfywio tai. O ganlyniad, ni chynhwysir y cwestiwn hwn yng Nghyfrifiad 2011. Fodd bynnag, bydd cwestiwn ar y **math o wres canolog** yn parhau i fod yn ddangosydd defnyddiol o ran safonau tai sylfaenol, a defnyddir y wybodaeth gan lywodraeth ganolog, awdurdodau lleol a defnyddwyr eraill i hwyluso gwaith ar dlodi tanwydd ac amddifadedd. Mae'r gofynion sefydledig hyn wedi cael eu hatgyfnerthu gan anghenion newydd am well gwybodaeth am ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni.

## Cludiant cartrefi

3.38 Bydd cwestiwn, a gynhwyswyd yn y Cyfrifiad ers 1971, yn gofyn faint o **geir neu faniau sy'n eiddo i'r cartref neu sydd ar gael** i'w defnyddio ganddo. Defnyddir y wybodaeth yn eang i gefnogi gwaith ar bolisïau a gwaith cynllunio trafnidiaeth, a bydd, yn arbennig, yn helpu i nodi ardaloedd lle mae trafnidiaeth breifat yn rhoi'r pwysau mwyaf ar y ffyrdd, ac yn asesu'r galw am drafnidiaeth gyhoeddus a'r angen am ffyrdd newydd neu well i reoli tagfeydd traffig yn well. Caiff yr

ystadegau eu defnyddio hefyd i lunio rhagamcanion o ran lefelau bod yn berchen ar gar yn y dyfodol, astudiaethau o'r defnydd o ffyrdd ac arfarniadau o'r angen i fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus yn y dyfodol. Defnyddir y wybodaeth yn eang, er enghraifft, drwy awdurdodau lleol yn llunio cynlluniau strategol a chynlluniau trafnidiaeth lleol.

## Cwestiynau ar gyfer preswylwyr mewn cartrefi

3.39 Bydd tua hanner y cwestiynau a ofynnir i breswylwyr mewn cartrefi yn gymwys i bawb; ni chaiff y cwestiynau sy'n ymwneud â chymwysterau, gweithgarwch economaidd, galwedigaeth a diwydiant eu gofyn i blant o dan 16 oed.

### Nodweddion poblogaeth sylfaenol

3.40 Prif ddiben y Cyfrifiad yw rhoi cyfrif cywir ac awdurdodol o **nifer y bobl** yng Nghymru a Lloegr a dangos ymhle maent yn byw fel arfer, gan felly ddarparu meincnod newydd a chyfredol ar gyfer amcangyfrifon canol blwyddyn blynyddol o'r boblogaeth ar gyfer ardaloedd lleol. Derbynnir yn eang bod amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ganolog i bob system genedlaethol o ystadegau swyddogol; fe'u defnyddir mewn fformiwlâu ystadegol sy'n dyrannu'r symiau mawr o arian cyhoeddus i'r gweinyddiaethau datganoledig ac i lywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd a nodir ym mharagraffau 1.10–1.11. Fel y nododd Pwyllgor y Trysorlys, "*.... it is therefore a matter of social responsibility to ensure that the population statistics are calculated accurately*"[26].

3.41 Yn y blynyddoedd rhwng cyfrifiadau, caiff yr amcangyfrifon blynyddol o'r boblogaeth eu diweddaru (o sail flaenorol y cyfrifiad) drwy ddefnyddio data o gofrestru genedigaethau a marwolaethau, ac amcangyfrifon ymfudo sy'n seiliedig ar ffynonellau megis cofrestru cleifion gyda meddygon a gwybodaeth o'r Arolwg Rhyngwladol o Deithwyr ac arolygon eraill. Heb effaith gywirol gyfnodol cyfrifiad byddai'r amcangyfrifon hyn, yn enwedig ar lefel ardal leol, yn mynd yn llai ac yn llai dibynadwy.

3.42 Mae angen i bolisïau hirdymor ystyried poblogaethau yn y dyfodol. Bydd amcangyfrifon o'r boblogaeth a gaiff eu diwygio yn sgîl y Cyfrifiad yn sail i lunio amcanestyniadau o nifer y bobl a chartrefi mewn blynyddoedd i ddod, a chânt eu defnyddio i asesu'r galw tebygol am nwyddau a gwasanaethau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

3.43 Mae dosbarthu'r boblogaeth yn ôl **rhyw, oedran** a **statws priodasol** yn sail i dablau actiwaraidd, sy'n ei gwneud yn bosibl monitro tueddiadau mewn disgwyliad oes ac a ddefnyddir at amryw ddibenion megis cynllunio darpariaethau ar gyfer pensiynau'r wladwriaeth ac aswiriant bywyd. Bydd dadansoddi pobl mewn cartrefi drwy gyfuniadau o **oedran, rhyw, statws priodasol** a **pherthynas** yn rhoi gwybodaeth am wahanol fathau o gartrefi, megis y rhai sy'n cynnwys

teuluoedd un rhiant neu ddau berson o oedran pensiwn, a bydd yn golygu y gellir llunio ystadegau ar unedau teulu gwahanol. Gofynnir y cwestiynau canlynol.

### Rhyw, dyddiad geni a statws priodasol

3.44 Ar wahân i ddiwallu anghenion sylfaenol am ystadegau cenedlaethol a lleol o'r boblogaeth a ddisgrifir uchod, mae gwybodaeth am **ryw**, **oedran** (a bennir yn ôl **dyddiad geni**) a **statws priodasol** yn allweddol i amcangyfrif y galw am wasanaethau awdurdod lleol, megis cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc a'r henoed. Mae'r data yn allweddol i'r brif gyfres ystadegol, gan olygu y gellir cyfrifo cyfraddau sy'n benodol i oedran a rhyw ar gyfer morbidrwydd, marwoldeb, ffrwythlondeb, priodi ac ysgaru. Fe'i defnyddir i drawsddadansoddi holl newidynnau eraill cyfrifiad yn ôl rhyw, oedran a statws priodasol, er enghraifft i amcangyfrif niferoedd ac oedrannau'r merched priod hynny a gyflogir mewn galwedigaethau neu ddiwydiannau penodol.

3.45 Yn dilyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004, ehangwyd y cwestiwn traddodiadol ar **statws priodasol** i gynnwys categorïau ymateb ar gyfer **statws partneriaeth sifil**.

### Perthynas mewn cartref

3.46 Mewn cartrefi lle ceir dau neu fwy o bobl, bydd cwestiwn yn gofyn am y **berthynas rhwng pawb yn y cartref**. Bydd y wybodaeth hon yn darparu ystadegau o gartrefi a ddadansoddir yn ôl cyfansoddiad teuluol, ac fe'u defnyddir gan, er enghraifft, awdurdodau a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i deuluoedd y mae angen iddynt wybod faint o deuluoedd sydd yno a pha newidiadau o ran maint teulu sydd wedi bod yn digwydd dros amser. Ymhlith y ceisiadau mae cynllunio llety a gwasanaethau i'r henoed ac asesu'r galw posibl am dai gan deuluoedd ifanc a chartrefi â sawl teulu ynddynt. Bydd cyfuno'r wybodaeth o'r cwestiwn hwn â'r wybodaeth am **ryw** yn darparu ystadegau ar nifer y cartrefi sy'n cynnwys cyplau o'r un rhyw.

### Ymfudo

3.47 Bydd cwestiwn, a gynhwyswyd yn y Cyfrifiad ers 1961 yn gofyn am **gyfeiriad arferol pawb flwyddyn cyn y Cyfrifiad**. Pan fydd yn wahanol i'r cyfeiriad arferol cyfredol, caiff ystadegau eu llunio i roi niferoedd a nodweddion pobl a chartrefi sydd wedi symud o un ardal i ardal arall. Hefyd nodir sawl gwaith y bydd rhywun wedi symud yn ôl y math o unigolyn a chartref rhwng ardaloedd a rhanbarthau o'r wlad. Bydd y ffigurau yn dangos y rhai sydd wedi cyrraedd o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, ond nid y rhai sy'n gadael, yn y flwyddyn cyn y Cyfrifiad. Bydd cwestiynau ychwanegol sy'n newydd i'r Cyfrifiad yn 2011 yn gofyn am y **mis a'r flwyddyn y cafwyd mynediad i'r DU** ynghyd ag **am ba hyd y bwriedir aros yn y DU** (bydd yr olaf yn destun profion a gwaith datblygu pellach) ar gyfer pawb a anwyd y tu allan i'r DU fel dull o sefydlu statws preswylio yn well.

3.48 Mae'r wybodaeth hon yn arbennig o bwysig gan fod ymfudo yn cyfrif am gryn dipyn o dwf neu ddirywiad poblogaeth ardaloedd rhwng Cyfrifiadau. Bydd y wybodaeth a gesglir yn y Cyfrifiad yn golygu y gellir dod i gasgliadau ynghylch lefel a phatrwm ymfudo mewn blynyddoedd eraill. At y diben hwn, mae'n hollbwysig cyfrif nifer y bobl a chartrefi sy'n symud yn y flwyddyn cyn y Cyfrifiad, a hynny'n llawn, ynghyd â meithrin gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa, yn enwedig ymfudwyr tymor byr – bu'r amcangyfrif hwn yn destun pryder arbennig i Bwyllgor y Trysorlys yn ei adroddiad diweddar ar gyfrif y boblogaeth[26]. Ar hyn o bryd y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell o ddata dibynnol ar ymfudo ar gyfer ardaloedd bach, ac mae dadansoddi ymfudwyr yn ôl eu nodweddion demograffig a'r math o symudiad yn darparu mwy o wybodaeth am y grŵp pwysig hwn o bobl, at ddibenion cynllunio, nag sydd ar gael gan unrhyw ffynhonnell arall.

3.49 Bydd gwybodaeth o'r cwestiwn traddodiadol am **wlad enedigol** yn darparu gwybodaeth am bobl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig a anwyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu mewn man arall. Ynghyd â chwestiwn newydd i nodi **dinasyddiaeth**, bydd y wybodaeth yn darparu amcangyfrifon o nifer ac amgylchiadau cymunedau o fewnfudwyr (sydd weithiau'n fach) o wledydd amrywiol, a allai fod ag anghenion penodol, er mwyn cefnogi'r broses o ddyrannu adnoddau a datblygu polisïau.

### Ail breswylfa

3.50 Un o blith nifer o elfennau allweddol y mae SYG yn ei datblygu i wella cwmpas y Cyfrifiad a meithrin gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros ddiffyg cwmpas digonol yw cynnwys mwy o ffyrdd o asesu preswylfa yng nghynnwys y Cyfrifiad drwy gyflwyno rhagor o gwestiynau ar drefniadau preswylio, yn enwedig aml-breswylfeydd. (Y prif elfennau eraill yw: ceisio gwella'r diffiniad o gartref (gweler paragraffau 3.7–3.9), cyfrif ymwelwyr (paragraff 3.95); a datblygu Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad - gweler paragraffau 4.63–4.65). I'r perwyl hwnnw, mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig y dylai Cyfrifiad 2011 gynnwys cwestiynau newydd yn gofyn am **ail breswylfa** a'r **rhesymau dros aros** mewn cyfeiriad o'r fath.

3.51 Elfen hanfodol o ddeall cwmpas fydd cyflwyno gwell mesur o ddynameg newid cymdeithasol sy'n effeithio ar gysyniad sefydledig blaenorol preswylfa arferol, yn enwedig y duedd gynyddol tuag at: cymudo wythnosol; plant rhieni sydd wedi ysgaru neu wahanu â mwy nag un cartref; ail gartrefi; a phatrymau byw byd-eang. Ynghyd â'r wybodaeth am gyfeiriad arferol, bydd ymatebion i'r cwestiynau newydd hyn yn galluogi SYG i ddyrannu'r boblogaeth yn well i ardal briodol y breswylfa arferol a bennir gan batrymau byw cartrefi, a bydd yn helpu i gysoni cyfrifiadau ag amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth. Bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol iawn, o ran cynllunio tai a thrafnidiaeth, i awdurdodau lleol a fydd am wybod faint o bobl sy'n aros yn eu hardal ac yn defnyddio gwasanaethau lleol yn ystod yr wythnos ond sy'n byw rywle arall fel arfer.

## Nodweddion diwylliannol

### Grŵp ethnig a hunaniaeth genedlaethol

3.52 Cafodd cwestiwn ar **grŵp ethnig** ei gynnwys gyntaf yng Nghyfrifiad 1991 ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r wybodaeth wedi galluogi llywodraeth genedlaethol a lleol ac awdurdodau iechyd i ddyrannu adnoddau a chynllunio rhaglenni gan ystyried anghenion arbennig grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Yn arbennig, mae ymatebion i'r cwestiwn wedi darparu ffigurau sylfaenol y gall y Llywodraeth fonitro anfantais hiliol bosibl o fewn grwpiau lleiafrifol yn eu herbyn. Roedd y cwestiwn yn gweithio'n dda bryd hynny a hefyd yn 2001 (er gwaethaf rhai pryderon sylweddol yng Nghymru ynghylch peidio â chydnabod 'Cymreig' fel grŵp ethnig ar wahân) pan y'i diwygiwyd i fodloni gofynion defnyddwyr am wybodaeth ychwanegol am bobl o darddiad cymysg ac is-grwpiau o fewn y boblogaeth 'Wyn' (yn enwedig 'Gwyddelod') a bod mor dderbyniol â phosibl i ymatebwyr. Erbyn hyn mae'r modd y dosberthir grwpiau ethnig yn y Cyfrifiad yn cael ei ystyried yn eang fel yr hyn sy'n safonol ar gyfer arolygon rhyng-gyfrifiadol a monitro ethnig.

3.53 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig cynnwys cwestiwn unwaith eto yng Nghyfrifiad 2011 er mwyn bodloni ystod eang o ddefnyddiau o ran data ar ethnigrwydd:

- galluogi sefydliadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol o dan ddeddfwriaeth cysylltiadau hiliol a chyfle cyfartal (lle nad yw ffynonellau eraill o ddata yn darparu'n ddigonol ddata cywir am boblogaethau bach o leiafrifoedd ethnig sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol)
- yn y fformiwlâu ar gyfer dyrannu grantiau gan Lywodraeth Ganolog a Llywodraeth Leol
- llywio'r gwaith o ddatblygu a monitro polisïau
- meithrin gwell dealltwriaeth ymhlith cyrff cyhoeddus o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt ac felly lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau

3.54 Mae'r categorïau a nodwyd wedi cael eu datblygu o fframwaith cwestiwn Cyfrifiad 2001 i fodloni gofynion newidiol defnyddwyr ond mae'r cwestiwn yn dal i fabwysiadu'r cymysgedd hwnnw o darddiad daearyddol a nodweddion lliw y dangosodd profion yn yr 1980au a'r 1990au eu bod fwyaf derbyniol i'r cyhoedd ac y gellid cael yr ystadegau mwyaf defnyddiol ohonynt. Er bod ethnigrwydd yn amlwg yn nodwedd ddynamig pan y'i hystyrir yn genedlaethol – ac mae'n rhaid i'r Cyfrifiad geisio adlewyrchu hyn – maen prawf sydd yr un mor bwysig yw'r gallu i gymharu canlyniadau un Cyfrifiad ag un arall – ac i'r perwyl hwnnw rhaid i'r cwestiwn gynnal elfen o sefydlogrwydd dros amser.

3.55 Fodd bynnag, er mwyn darparu ar gyfer y bobl hynny, waeth beth fo'u grŵp ethnig eang, i nodi eu hunaniaeth fel Prydeinig, Seisnig neu Gymreig (neu Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon ac ati), bydd elfen ychwanegol ac ar wahân i'r cwestiwn yn gofyn am **hunaniaeth genedlaethol**.

3.56 Mae ffurf a chynnwys y cwestiynau ar ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol wedi deillio o ymgynghoriad helaeth â defnyddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill – yn arbennig fel rhan o ymgynghoriad ffurfiol ar bynciau cyfrifiad yn gyffredinol yn 2005, a chanolbwyntiodd ymgynghoriad pellach ar ethnigrwydd, hunaniaeth, iaith a chrefydd rhwng mis Tachwedd 2006 a mis Mawrth 2007**,** gan gynnwys cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus (gweler Pennod 2). Nod yr ymgynghoriad hwn oedd pennu nid yn unig ofynion o ran gwybodaeth ond hefyd agweddau newidiol y cyhoedd tuag at dderbynioldeb y cwestiwn ymhlith cymunedau penodol o leiafrifoedd ethnig. Cafodd ffurf y cwestiynau arfaethedig ei hadolygu hefyd fel rhan o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o Gyfrifiad 2011[27].

3.57 Dangosir ffurf y cwestiynau ar ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol y mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn eu cynnig ar gyfer Cymru a Lloegr yn Ffigur 2. Cyflwynwyd categorïau ymateb newydd ar gyfer 'Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig' ac 'Arabaidd' yn y cwestiwn ar ethnigrwydd. (Ar gyfer y cwestiynau yng Nghymru caiff y categorïau/blychau ticio ar gyfer 'Seisnig' a 'Cymreig' eu trawsosod.)

3.58 Er, fel yng Nghyfrifiad 2001, y cynigir mathau gwahanol o'r cwestiwn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon (i adlewyrchu gofynion gwahanol o ran gwybodaeth), bydd y newidynnau, serch hynny, yn golygu y gellir llunio ystadegau a fydd yn gymaradwy ar y cyfan ledled y DU ac ag ystadegau o Gyfrifiad 2001.

### Crefydd

3.59 Cafodd cwestiwn ar **grefydd** ei gynnwys yn y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr am y tro cyntaf yn 2001 ar ôl Deddf Cyfrifiad (Diwygio) 2000. Bu'r ymatebion i'r cwestiwn o gymorth i ddarparu gwybodaeth a ategodd yr allbwn o'r cwestiwn ar ethnigrwydd drwy nodi is-grwpiau o leiafrifoedd ethnig, yn enwedig y rhai o is-gyfandir India, o ran eu crefydd. Defnyddir gwybodaeth i wella dealltwriaeth o boblogaethau a marchnadoedd lleol er mwyn cynllunio gwasanaethau a hyrwyddo rhwymedigaethau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac atal gwahaniaethu.

3.60 Bydd **crefydd** yn un o gyfres o gwestiynau a fydd yn galluogi ymatebwyr unigol i nodi eu hunaniaeth yn y ffordd fwyaf priodol yn eu barn hwy. Nid yw Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig unrhyw newid i fformat sylfaenol y cwestiwn ar gyfer Cyfrifiad 2011, a fydd yn galluogi pobl i gofnodi nad oes ganddynt unrhyw grefydd. Fel yn achos 2001, yn unol â darpariaethau Deddf y Cyfrifiad, bydd y cwestiwn – yn wahanol i bob cwestiwn arall yn y Cyfrifiad – yn wirfoddol. Dangosir y cwestiynau arfaethedig yng Nghymru a Lloegr yn Ffigur 3.

**Ffigur 2 Cwestiynau arfaethedig Cyfrifiad 2011 ar ethnigrwydd a hunaniaeth**

**(a) Cwestiwn ar ethnigrwydd yn Lloegr**


16 What is your ethnic group?

Choose **one** section from A to E, then tick **one** box to best describe your ethnic group or background

A White
- English / Welsh / Scottish / Northern Irish / British
- Irish
- Gypsy or Irish Traveller
- Any other White background, write in


B Mixed / multiple ethnic groups
- White and Black Caribbean
- White and Black African
- White and Asian
- Any other Mixed/multiple ethnic background, write in

C Asian / Asian British
- Indian
- Pakistani
- Bangladeshi
- Chinese
- Any other Asian background, write in

D Black / African / Caribbean / Black British
- African
- Caribbean
- Any other Black/African/Caribbean background, write in

E Other ethnic group
- Arab
- Any other ethnic group, write in

**(b) Cwestiwn ar ethnigrwydd yng Nghymru**


16 Beth yw'ch grŵp ethnig?

Dewiswch **un** o'r adrannau o A i E, yna ticiwch **un** blwch sy'n disgrifio'ch grŵp neu gefndir ethnig

A Gwyn
- Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig
- Gwyddelig
- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- Unrhyw gefndir Gwyn arall, nodwch


B Cymysg / grwpiau aml-ethnig
- Gwyn a Du Caribïaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir Cymysg/aml-ethnig arall, nodwch

C Asiaidd / Asiaidd Prydeinig
- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladesiaidd
- Tsieineaidd
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall, nodwch

D Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig
- Affricanaidd
- Caribïaidd
- Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall, nodwch


E Grŵp ethnig arall
- Arabaidd
- Unrhyw grŵp ethnig arall, nodwch

**(c) Cwestiwn ar hunaniaeth genedlaethol yn Lloegr**


15 How would you describe your national identity?

Tick all that apply
- English
- Welsh
- Scottish
- Northern Irish
- British
- Other, write in


**(ch) Cwestiwn ar hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru**


15 Sut fyddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?

Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol
- Cymreig
- Seisnig
- Albanaidd
- Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- Prydeinig
- Arall, nodwch

**Ffigur 3 Cwestiynau arfaethedig Cyfrifiad 2011 ar grefydd**

**(a) Lloegr**




20 What is your religion?

This question is voluntary

- ☐ No religion
- ☐ Christian (including Church of England, Catholic, Protestant and all other Christian denominations)
- ☐ Buddhist
- ☐ Hindu
- ☐ Jewish
- ☐ Muslim
- ☐ Sikh
- ☐ Any other religion, write in

**(b) Cymru**



20 Beth yw'ch crefydd?

Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol

- ☐ Dim crefydd
- ☐ Cristnogaeth (pob enwad)
- ☐ Bwdhaeth
- ☐ Hindŵaeth
- ☐ Iddewiaeth
- ☐ Islam
- ☐ Siciaeth
- ☐ Unrhyw grefydd arall, nodwch

3.61 Drwy ymgynghori â defnyddwyr awgrymwyd na fyddai ffurf cwestiwn 2001 yn bodloni eu holl ofynion. Yn arbennig dadleuwyd yr achosion canlynol:

(a) roedd y categorïau ar gyfer Cristnogaeth a Moslemiaeth yn rhy eang

(b) roedd angen gwybodaeth am grefyddau ychwanegol a chredoau penodol nad ydynt yn grefyddol

(c) dylid gwahaniaethu rhwng y cysyniad o 'arfer crefyddol' a 'chysylltiad/ hunaniaeth'

3.62 Mewn perthynas â phwyntiau (a) a (b) mae prinder lle wedi golygu na fyddai SYG yn gallu darparu blychau ticio ychwanegol ar gyfer crefyddau eraill na dadansoddi categorïau presennol ymhellach. Ystyriodd SYG a fyddai modd aileirio'r cwestiwn er mwyn adlewyrchu'r geiriad a ddefnyddiwyd yn y Ddeddf Cydraddoldebau a phrofwyd y cwestiwn: *Beth yw'ch crefydd neu'ch cred?* Fodd bynnag, dangosodd profion gwybyddol fod ymatebwyr, heb unrhyw syndod, yn rhoi mwy o bwyslais ar gred grefyddol wrth ddehongli'r cwestiwn nag a wnaethpwyd wrth ateb y cwestiwn yn 2001 gan felly beryglu'r broses o gymharu'r data â data 2001 heb unrhyw welliant gwirioneddol i'r data a gasglwyd.

3.63 Mewn ymateb i (c), mae SYG yn cydnabod nad yw'r cwestiwn arfaethedig yn mesur arfer crefyddol, ac ar gyfer rhai anghenion defnyddwyr (yn enwedig ar gyfer cynllunio gwasanaethau) y gallai mesur o arfer fod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, nid yw'n credu y gellir newid un cwestiwn ar grefydd mewn ffordd a fyddai'n cipio'r wybodaeth hon yn addas ac mewn ffordd a fyddai'n cyfiawnhau'r ffaith na ellir cymharu data â data 2001. Yn hytrach, mae SYG o'r farn y bydd y cwestiwn presennol yn diwallu anghenion eraill defnyddwyr (o ran deall poblogaethau, monitro anghydraddoldebau ac ati) ac mai cwestiwn wedi'i addasu i'w ofyn mewn arolygon cymdeithasol fyddai'r ffordd orau o gipio gwybodaeth am arfer.

3.64 Fel gydag ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol, mae fformatau'r cwestiynau ar grefydd a gynigir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn wahanol – gan adlewyrchu gofynion a phoblogaethau lleol – ond maent yn ddigon cymaradwy at ddibenion darparu ystadegau eang ar gyfer y DU.


### Iaith

3.65 Gofynnir cwestiwn ar **yr iaith Gymraeg** yng Nghymru – fel y gwnaed mewn rhyw ffurf neu'i gilydd ers Cyfrifiad 1891**.** Bydd yr ymatebion yn darparu gwybodaeth a ddefnyddir i fesur y newid mewn medrusrwydd Cymraeg er mwyn llywio'r broses o ddatblygu a monitro polisïau. Hefyd defnyddir y wybodaeth i lywio'r broses o ddyrannu adnoddau lleol. (Caiff cwestiynau tebyg eu gofyn o ran y defnydd o'r Gaeleg yn yr Alban a'r iaith Wyddeleg yng Ngogledd Iwerddon).

3.66 Fodd bynnag, mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig cyflwyno cwestiynau newydd yng Nghyfrifiad 2011 ar **iaith** a fydd, ledled Cymru a Lloegr, yn ymchwilio i'r brif iaith a ddefnyddir a'r gallu i siarad Saesneg. Bydd y cwestiwn ar brif iaith yn galluogi ymatebwyr i gofnodi eu prif iaith (gan gynnwys ieithoedd arwyddion) os nad Saesneg yw hon (neu Gymraeg yng Nghymru) (gweler Ffigur 4). Bydd yr ymatebion yn arwydd o'r ardaloedd a'r cymunedau lle mae angen darparu gwasanaethau ieithoedd tramor, ynghyd â gwella'r ddealltwriaeth o amrywiaeth y boblogaeth ac yn arbennig effaith gallu yn yr iaith Saesneg (neu Gymraeg) ar gyflogaeth a dangosyddion cynhwysiant cymdeithasol eraill.


**Ffigur 4 Cwestiynau arfaethedig Cyfrifiad 2011 ar iaith**

**(a) Lloegr**


18 What is your main language?
English → Go to 20
Other, write in (including sign languages)

19 How well can you speak English?
Very well | Well | Not well | Not at all

**(b) Cymru**


18 Beth yw'ch prif iaith?
Cymraeg neu Saesneg → Ewch i 20
Arall, nodwch (gan gynnwys ieithoedd arwyddion)

19 Pa mor dda allwch chi siarad Saesneg?
Da iawn | Da | Ddim yn dda | Dim o gwbl

## Iechyd

### Problem iechyd neu anabledd hirdymor

3.67 Bydd cwestiwn, y cafodd fersiwn ohono ei gynnwys am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 1991 a'i ailadrodd yn 2001, yn gofyn a oes gan unigolyn unrhyw **broblem iechyd neu anabledd hirdymor** sy'n peri anhawster wrth wneud gweithgareddau beunyddiol. Caiff problemau sy'n deillio o henaint eu cynnwys. Defnyddir y wybodaeth i fesur yr angen am wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol personol ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdod iechyd/lleol, ac o amgylch cyfleusterau lleol penodol, sy'n bodoli eisoes neu sydd yn yr arfaeth. Yn unol â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, bydd cwestiwn 2011 yn cwmpasu anabledd a salwch**.** Ystyriwyd cwestiwn yn holi am natur anableddau

penodol hefyd ond ni chaiff ei gynnig am na fu'n bosibl llunio holiadur hunanlenwi a all ddarparu data digon cywir i fodloni gofynion defnyddwyr.

3.68 Bydd y cwestiwn yn galluogi'r Cyfrifiad i ddarparu gwybodaeth am yr amgylchiadau y mae pobl â salwch ac anabledd hirdymor yn byw ynddynt – er enghraifft, a ydynt yn byw ar eu pen eu hunain neu mewn llety anaddas. Bydd hefyd yn dadansoddi'r wybodaeth yn ôl oedran, a fydd yn bwysig wrth i nifer yr henoed gynyddu. Bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat o ran darparu gwasanaethau i bobl sâl a phobl anabl.

### Iechyd cyffredinol

3.69 Yn ogystal â'r cwestiwn ar broblemau iechyd hirdymor, mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig cynnwys cwestiwn ar **iechyd cyffredinol**, a fydd yn gofyn i'r ymatebwyr asesu eu hiechyd eu hunain dros y 12 mis blaenorol ar raddfa pum pwynt o 'Da iawn' i 'Gwael iawn' gan ymhelaethu ar y categorïau o dri ymateb yng nghwestiwn Cyfrifiad 2001. Dangoswyd mewn arolygon fod y wybodaeth hon yn rhagfynegydd da o ran polisïau iechyd a darparu gwasanaethau, yn enwedig i'r henoed. Drwy ei gynnwys yn y Cyfrifiad yn 2001 am y tro cyntaf bu'n bosibl cymhwyso'r fath wybodaeth ar lefel ardal leol.

### Darparu gofal

3.70 Mae'r Llywodraeth yn parhau i gydnabod y swm cynyddol o **gymorth personol di-dâl** a roddir i bobl sâl, ac mae'n croesawu cynnig Awdurdod Ystadegau'r DU i gynnwys y pwnc unwaith eto. Bydd hyn yn helpu i wella'r ddealltwriaeth o amrywiadau yn yr angen am ofal a'r pwysau ar wasanaethau cymdeithasol mewn ymgais i dargedu adnoddau'n fwy effeithiol.

3.71 Mae gwybodaeth Cyfrifiad 2001 am ofalwyr wedi helpu i nodi materion polisi allweddol sy'n effeithio ar ofalwyr ac wedi arwain at ddatblygu mentrau polisi mewn perthynas â rhoi gwell cymorth i ofalwyr gan weithwyr iechyd proffesiynol, darparu gofal iechyd, asesu cynnydd tuag at well iechyd ymhlith y boblogaeth, a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Defnyddir y data hefyd i ddatblygu a monitro polisïau i hyrwyddo cyfle cyfartal, dadansoddi'r baich posibl a allai gael ei roi ar wasanaethau gofal cymdeithasol os nad oedd gofalwyr di-dâl ar gael, a nodi nifer y bobl â chyfrifoldebau gofalu nad ydynt mewn cysylltiad â rhwydwaith cymorth i ofalwyr.

3.72 At hynny derbynnir bod iechyd gofalwyr yn waeth ar y cyfan a'u bod yn byw bywydau llai iachus a bod angen iddynt gael gwasanaethau cymorth yn aml gan yr awdurdod lleol. Defnyddir gwybodaeth am ofalwyr o gyfrifiad ochr yn ochr â mesurau eraill i nodi anghydraddoldeb iechyd lleol. Mae gofalwyr hefyd yn teimlo'n ynysig yn aml oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu ac fe'u nodir fel grŵp sy'n wynebu risg o allgáu cymdeithasol yn adroddiad Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog *Breaking the Cycle*[28]. Felly mae gofalwyr yn grŵp â blaenoriaeth o ran

targedu adnoddau sy'n anelu at leihau allgáu cymdeithasol, ac mae data gofalwyr o'r Cyfrifiad yn golygu y gellir rhoi cynlluniau priodol ar waith.

3.73 Bydd y cwestiwn yn cofnodi a yw'r unigolyn **yn darparu cymorth personol di-dâl** i ffrind neu berthynas â phroblem iechyd neu anabledd hirdymor, a'r **amser a dreulir bob wythnos** yn darparu gofal o'r fath.

### Cymwysterau

3.74 Defnyddir y wybodaeth o gwestiwn ar **gymwysterau addysgol a galwedigaethol** i asesu cyflawniad addysgol a chyfranogiad yn y farchnad lafur drwy'r boblogaeth, gan edrych ar grwpiau demograffig ar lefel leol a rhanbarthol a'r rhwystrau penodol a wynebir. Bydd hyn yn helpu defnyddwyr i ddeall ac ymateb i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, er mwyn ehangu cyfranogiad a mynediad teg. Defnyddir gwybodaeth am gymwysterau canolradd a lefel uwch i lunio Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol ac, yn arbennig, mae'n helpu i feithrin dealltwriaeth o batrymau cymdeithasol a marchnadoedd llafur lleol. Defnyddir gwybodaeth am y bobl hynny heb unrhyw gymwysterau neu lefelau isel ohonynt i lunio mynegeion o amddifadedd a ddefnyddir ymhob rhan o lywodraeth ganolog a chan sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol fel y prif sylfaen i nodi ardaloedd o amddifadedd ar gyfer dyraniadau ariannol a cheisiadau am arian.

3.75 Ceisir gwybodaeth am y cymwysterau a gafwyd gyda'r prif nod o ganfod y cymhwyster uchaf a chydnabod unrhyw wahaniaethau mewn cymwysterau yng Nghymru a Lloegr. Nid yw Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig cadw'r cwestiwn a oedd ar wahân yng Nghyfrifiad 2001 am p'un a oes gan bobl gymwysterau proffesiynol megis cymwysterau addysgu, meddygol, nyrsio a/neu ddeintyddol, er y bydd categori i gofnodi 'cymwysterau proffesiynol'. Awgrymodd y broses o ymgynghori â defnyddwyr fod llai o ofyniad am y wybodaeth hon o gymharu â phynciau eraill y Cyfrifiad a gynigir.

### Cyflogaeth a'r llafurlu

3.76 Mae'r Cyfrifiad yn brif ffynhonnell o wybodaeth am nodweddion economaidd-gymdeithasol y boblogaeth a hon yw'r ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr ar lefel leol. Rhydd ystadegau am oedran a galwedigaethau gweithwyr mewn diwydiannau gwahanol. Gellir cyflwyno'r ystadegau hyn yn ôl preswylfan ac, ar gyfer y rhai sy'n gweithio, yn ôl gweithle. Mae'r Cyfrifiad hefyd yn darparu gwybodaeth am grwpiau eraill, sy'n anweithgar yn economaidd, megis myfyrwyr llawn amser, pobl sy'n gofalu am y cartref a'r teulu, a'r rhai sydd wedi ymddeol.

3.77 Mae'r Cyfrifiad hefyd yn gyfystyr â'r ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr o wybodaeth y farchnad lafur am is-grwpiau o'r boblogaeth, y mae meintiau sampl ar lefel ardal leol yn yr Arolwg o'r Llafurlu yn rhy fach i ddarparu amcangyfrifon dibynadwy. Er enghraifft, mae'r Cyfrifiad yn darparu ystadegau manwl ar gyfer ardaloedd bach

ar gyflogaeth a diweithdra ymhlith grwpiau ethnig ac economaidd-gymdeithasol gwahanol.

3.78 At hynny mae'r Cyfrifiad yn darparu ystadegau ar y llafurlu a'r gweithwyr wrth gefn posibl ymhob ardal. Ymhlith y cymwysiadau penodol y mae rhagfynegi llafurlu'r dyfodol, eu defnyddio gan awdurdodau lleol i lunio eu cynlluniau fframwaith, a'u defnyddio gan gyflogwyr yn y sector preifat sydd am leoli gweithrediadau mewn ardaloedd lle ceir gweithwyr addas.

3.79 Mae'r rhan fwyaf o gwestiynau yn cyfeirio at brif gyflogaeth unigolyn yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad neu, ar gyfer y rhai nad ydynt yn gweithio ar y pryd, eu swydd fwyaf diweddar, os oes un. Mae'r cwestiynau ond yn cyfeirio at y bobl hynny sy'n 16 oed neu drosodd, ac maent yn cwmpasu:

### Gweithgarwch economaidd yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad

3.80 Gofynnir nifer o gwestiynau er mwyn pennu a oedd yr unigolyn mewn cyflogaeth (gan gynnwys gwaith am dâl neu waith di-dâl ar gyfer ei fusnes ei hun neu fusnes y teulu) neu a oedd:

- wedi ymddeol
- yn fyfyriwr
- yn gofalu am y teulu neu'r cartref
- â salwch neu anabledd hirdymor
- yn chwilio am waith
- ar gael i weithio
- yn aros i ddechrau swydd

3.81 Bydd y categorïau hyn yn darparu'r dosbarthiad sylfaenol i ddadansoddi gweithgarwch economaidd a gynlluniwyd i fod mor gyson â phosibl â diffiniadau a argymhellwyd gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol[29] a Chynhadledd yr Ystadegwyr Ewropeaidd[12].

### Amser ers cyflogaeth

3.82 Caiff y cwestiwn, a oedd yn newydd i'r Cyfrifiad yn 2001, ac a holodd y bobl hynny a nododd nad oeddent yn gweithio yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad, am **y flwyddyn y gwnaethant weithio ddiwethaf**, ei gynnwys eto. Bydd hyn yn helpu i bennu gwahaniaethau lleol yn y cyfnodau o ddiweithdra a brofwyd ac i ba raddau y ceir diweithdra hirdymor. Mae'r defnydd a wneir o'r wybodaeth yn cynnwys asesu a monitro anfantais ac allgáu, cynllunio addysg a hyfforddiant, dyrannu adnoddau, dadansoddi'r farchnad lafur, ac astudio marwoldeb a morbidrwydd.

3.83 Os na fydd rhywun erioed wedi gweithio, ni ofynnir unrhyw gwestiynau pellach am gyflogaeth. Ar gyfer y rhai hynny mewn gwaith am dâl, neu sydd wedi gweithio'n flaenorol, bydd cwestiynau pellach yn cwmpasu:

### Galwedigaeth y brif swydd gyfredol, neu'r brif swydd ddiwethaf

3.84 Drwy holi pobl am eu **teitl swydd llawn** a'r **prif bethau a wneir yn eu gwaith**, darperir gwybodaeth fanwl a phwysig am yr ystod eang iawn o waith yn genedlaethol ac yn lleol. Paratoir diwygiad i'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol cyfredol (2000)[30] a bwriedir i hyn gael ei gymhwyso wrth godio data Cyfrifiad 2011.

3.85 Caiff yr ystadegau eu defnyddio i ddadansoddi llafurlu gwahanol ddiwydiannau a galwedigaethau, astudio marwoldeb galwedigaethol, a bydd yn sail i ddosbarthu pobl a chartrefi yn ôl Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol[31].

3.86 Bydd dau gwestiwn arall ar wahân yn gwella'r wybodaeth a gesglir am brif alwedigaeth. Bydd cwestiwn ar **statws cyflogaeth** yn gofyn a yw'r unigolyn yn gweithio, neu wedi gweithio, fel cyflogai neu'n hunangyflogedig gyda, neu heb, gyflogeion. Bydd ail gwestiwn, am **statws goruchwylio**, yn gofyn a oes gan yr unigolyn unrhyw gyfrifoldebau goruchwylio fel rhan o'i swydd, neu a fu ganddo gyfrifoldebau o'r fath. Bydd ymatebion i'r cwestiynau hyn yn helpu i osod yr unigolyn yn fwy cywir o fewn Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol.

### Diwydiant cyflogaeth

3.87 Caiff hwn ei bennu'n bennaf drwy holi pobl am **natur busnes y sefydliad** sy'n eu cyflogi. Caiff y wybodaeth ei defnyddio, er enghraifft, mewn dadansoddiadau o'r farchnad lafur ac i lunio cyfrifon rhanbarthol a dangosyddion economaidd. Gellir cael gwybodaeth ychwanegol am ddiwydiant ar gyfer y bobl hynny sy'n gweithio ar hyn o bryd o **enw a chyfeiriad eu cyflogwr** (gweler hefyd baragraff 3.92). Caiff y diwydiant ei godio yn ôl y fersiwn cyfredol (SIC 2007) o'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)[32]. Ni fwriedir gwneud rhagor o ddiwygiadau cyn y Cyfrifiad nesaf.

### Oriau a weithir

3.88 Bydd cwestiwn ar **nifer yr oriau a weithir** fel arfer ym mhrif swydd yr unigolyn yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n gweithio'n llawn amser ac yn rhan amser. Bydd y wybodaeth yn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o newidiadau mewn patrymau gwaith, a sut y mae'r rhain yn gymwys i alwedigaethau a diwydiannau penodol. Bydd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn defnyddio'r wybodaeth i wella dealltwriaeth o delerau ac amodau cyflogaeth fel y'u rhoddir ar waith, yn enwedig mewn perthynas â'r agenda plant a phobl ifanc. Ar lefel llywodraeth leol, mae gwybodaeth am bobl sy'n gweithio oriau hir yn ddangosydd amddifadedd a gall lywio strategaethau adnewyddu cymdogaethau. Defnyddir y wybodaeth hefyd mewn astudiaethau o'r farchnad lafur, mewn polisïau a gwaith adfywio gwledig,

ac i bennu dosbarthiadau ardal ac economaidd-gymdeithasol. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn darparu tystiolaeth ar gyfer y gyfarwyddeb oriau gwaith.

### Gweithle a theithio i'r gwaith

3.89 O'r wybodaeth o'r cwestiynau ar **gyflogaeth** a'r **gweithle** bydd y Cyfrifiad yn gallu dangos ymhle y mae pobl sy'n byw mewn unrhyw ardal yn gweithio, a'r gwrthwyneb. Mae'r wybodaeth hon yn sail i fesur patrymau cymudo ac asesu cydbwysedd tai a swyddi. Mae'r Cyfrifiad hefyd yn ychwanegu at werth a defnyddioldeb llawer o ystadegau rheolaidd ar gyflogaeth sydd fel arfer yn seiliedig ar ardal gweithle, drwy ddarparu dadansoddiad yn ôl ardal breswylio.

3.90 Defnyddir ystadegau'r Cyfrifiad ar ble y mae pobl gyflogedig yn byw ac yn gweithio gan adrannau'r Llywodraeth i ddiffinio 'Ardaloedd Teithio i'r Gwaith'. Mae'r ardaloedd hyn yn gyfystyr ag amcangyfrifon o farchnadoedd llafur hunan-gynhwysol a'r rhain yw'r lleiaf o ran cyhoeddi cyfraddau diweithdra. Mae'r Llywodraeth yn defnyddio gwybodaeth am ddiweithdra ar gyfer ardaloedd bach, megis wardiau, i nodi ardaloedd mewn dinasoedd mawr y dylid cyfeirio adnoddau ychwanegol atynt. Gofynnir y cwestiynau canlynol:

### Cyfeiriad y gweithle

3.91 Bydd ymatebion i gwestiwn ar **gyfeiriad y gweithle** yn dangos cyrchfan teithiau unigol i'r gwaith mewn perthynas â'r cyfeiriad arferol (sef tarddle'r daith fel arfer) a bydd yn rhoi gwybodaeth am y niferoedd sy'n teithio i'r gwaith o darddle penodol i gyrchfannau penodol. Ynghyd â gwybodaeth o'r cwestiwn ar y dull o deithio i'r gwaith (paragraff 3.93), bydd y data yn helpu i nodi llwybrau cymudo sy'n destun llwythi uwch o drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat.

3.92 Yn ogystal, gofynnir am **enw'r sefydliad** y mae unigolyn yn gweithio iddo ar y pryd. Defnyddir y wybodaeth hon i ategu'r broses o godio'r math o ddiwydiant yn gywir (gweler paragraff 3.87 uchod) drwy gyfeirio at y Gofrestr Busnes Ryngadrannol (IDBR) – rhestr o gyflogwyr mawr a ddosbarthwyd eisoes yn ôl y math o ddiwydiant. Ni chaiff ymatebion i'r cwestiwn eu defnyddio i lunio gwybodaeth am gyflogwyr unigol a enwir.

### Y prif ddull a ddefnyddir i deithio i'r gwaith

3.93 Bydd hyn yn dangos y **dull trafnidiaeth** a ddefnyddir fel arfer ar gyfer y rhan hiraf, o ran pellter, o'r daith i'r gwaith. Defnyddir dadansoddiadau manwl o lifau cymudo penodol yn ôl y prif ddull o deithio i gynllunio darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau ar gyfer trafnidiaeth breifat.

3.94 Ystyriwyd ehangu'r cwestiwn hwn i gwmpasu'r daith i'r man astudio ar gyfer myfyrwyr a phlant ysgol fel y gwnaed yng Nghyfrifiad 2001 yn yr Alban (a lle

y caiff ei gynnwys hefyd yn 2011). Fodd bynnag, mae galw defnyddwyr yng Nghymru a Lloegr yn llai cryf a cheir pryderon bod cyflwyno'r elfen ychwanegol hon yn effeithio ar ansawdd ymatebion ar y daith i'r gweithle. O ganlyniad, nid yw Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig gofyn y cwestiwn yng Nghymru a Lloegr.

## Cwestiynau am ymwelwyr

3.95 Fel y nodwyd ym Mhennod 2, tra na cheisiodd Cyfrifiad 2001 gasglu gwybodaeth am unigolion a oedd yn bresennol ar noson y Cyfrifiad mewn cyfeiriad lle nad oeddent yn preswylio fel arfer, bydd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys 'ymwelwyr' o'r fath ar Holiadur y Cartref. Fodd bynnag, dim ond gwybodaeth gyfyngedig a gesglir oherwydd bydd hefyd yn ofynnol i ymwelwyr sy'n byw rywle arall yn y DU roi gwybodaeth lawn ar ffurflen y Cyfrifiad yn eu cyfeiriad arferol.

3.96 Mae'r wybodaeth a gesglir am ymwelwyr fel a ganlyn:

- **enw** a **chyfeiriad arferol** (neu **wlad breswylio** os nad yn breswyliwr y DU)
- **rhyw**
- **dyddiad geni**

Bydd lle ar Holiadur y Cartref ar gyfer gwybodaeth am hyd at dri ymwelydd ynghyd â chyfrif cyfanswm nifer yr ymwelwyr. Bydd y wybodaeth hon yn ei gwneud yn bosibl i gyfrif nifer yr ymwelwyr a'r preswylwyr arferol yn fwy cywir ar lefel ardal leol. Bydd cysylltu niferoedd ymwelwyr â niferoedd preswylwyr yn eu cyfeiriad arferol yn darparu gwybodaeth ychwanegol am ba amcangyfrifon o dangyfrif yn y Cyfrifiad, a/neu orgyfrif, y gellir eu gwneud.

## Trefniadau ar gyfer sefydliadau cymunedol

3.97 Bydd y Cyfrifiad yn cyfrifo pawb sy'n preswylio mewn sefydliadau cymunedol ar noson y Cyfrifiad megis ysbytai, cartrefi nyrsio a phreswyl, sefydliadau addysgol a gwestai, ac ati. (Bydd preswylio mewn sefydliadau o'r fath yn cael ei bennu ar sail cyfnod o chwe mis neu fwy yno.) Bydd angen manylion llawn preswylwyr mewn sefydliadau o'r fath, a chaiff ystadegau ar y preswylwyr hyn, gan nodi staff preswyl ar wahân, eu paratoi ar gyfer pob math o sefydliad. Mae llety cymunedol o'r fath yn cael ei rannu'n unedau bach fwyfwy, y mae'n anodd eu cynnwys mewn arolygon sampl. Mae'r Cyfrifiad yn darparu cyfrif cynhwysfawr ac awdurdodol o'r boblogaeth sy'n byw yn y sefydliadau hyn nad yw ar gael gan ffynonellau eraill.

3.98 Ni chaiff gwybodaeth am lety unigolyn ei chasglu (er y caiff data am y **math o sefydliad cymunedol** ei gasglu ar wahân gan y rheolwr neu'r sawl sy'n gyfrifol am y sefydliad). Ni chaiff gwybodaeth am berthynas ag unrhyw un arall yn y sefydliad ei chasglu ychwaith.

3.99 Gwneir trefniadau arbennig i gyfrifo preswylwyr yn sefydliadau'r gwasanaeth carchardai a llochesi, ar longau mewn porthladdoedd ac ar wersylloedd milwrol, ac is-grwpiau eraill o'r boblogaeth nad ydynt yn byw mewn cartrefi preifat, megis pobl ddigartref.

3.100 Ni chaiff gwybodaeth ei chasglu am ymwelwyr sy'n bresennol mewn sefydliad cymunedol ar noson y Cyfrifiad. Os byddant yn byw rywle arall yn y Deyrnas Unedig, bydd yn ofynnol i ymwelwyr o'r fath – fel ymwelwyr â chartrefi – roi gwybodaeth lawn ar ffurflen y Cyfrifiad i'w llenwi yn eu cyfeiriad arferol. Ni chesglir gwybodaeth am unrhyw ymwelydd nad yw'n breswyliwr y DU sy'n aros yn y sefydliad cymunedol am llai na thri mis.

## Pynciau a ystyriwyd ond nas cynhwyswyd yn y cynigion ar gyfer Cyfrifiad 2011

3.101 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU o'r farn bod yr holl bynciau a gynhwyir yn y cynigion ar gyfer Cyfrifiad 2011 yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Adran 1. Yn ogystal â'r cwestiynau ar incwm a hunaniaeth rywiol (gweler paragraffau 3.104–3.117) ystyriwyd sawl pwnc arall ond ni chynigir eu cynnwys, am y rhesymau canlynol:

(a) nid ystyriwyd bod yr achos o'u plaid yn ddigon cryf i ddisodli un neu ragor o'r pynciau arfaethedig, neu
(b) dangosodd profion na fyddai ansawdd y wybodaeth o gwestiwn cyfrifiad yn addas at y diben, neu
(c) byddai'r cwestiynau yn rhoi gormod o faich ar y cyhoedd, neu
(d) cyfuniad o'r rhesymau hyn

3.102 Rhestrir y pynciau a ystyriwyd ond nas cynhwysir yn y cynigion ym Mlwch 2.

3.103 Gwerthusodd SYG yr holl awgrymiadau a gyflwynwyd yn ofalus. Gwrthodwyd rhai pynciau ar gam cynnar yn y gwaith cynllunio ond bu llawer yn destun profion bach a mawr. Yn yr un modd blaenoriaethodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr achosion a wnaed i lywio cynnwys pwnc holiadur y Cyfrifiad yng Nghymru. Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn ddiolchgar i bawb a wnaeth awgrymiadau ac mae'n ymddiheuro na fu'n bosibl cynnwys mwy ohonynt.

**Blwch 2 Pynciau a ystyriwyd ond nas cynhwyswyd yn y cynigion ar gyfer Cyfrifiad 2011**

- mynediad i ardd neu iard
- mynediad i gyfrif banc
- mynediad i fath/cawod
- llety ar fwy nag un lefel llawr
- cyfeiriad pum mlynedd cyn y Cyfrifiad
- oedran yr annedd
- statws lloches neu fewnfudo
- cyfeiriad cymudo
- iaith Gernyweg a hunaniaeth Gernywaidd
- gwlad breswylio arferol flaenorol
- cyfnod preswylio yn y cyfeiriad presennol
- cyfnod preswylio yn y DU
- cyrhaeddiad addysgol
- cyfeiriad e-bost
- ffrwythlondeb
- amlder defnyddio'r iaith Gymraeg yng Nghymru;
- llety wedi'i ddodrefnu
- incwm
- mynediad i'r Rhyngrwyd
- ffordd o fyw
- dull o deithio i'r man addysg, a'i leoliad
- rhif Yswiriant Gwladol
- natur salwch neu anabledd hirdymor
- nifer y swyddi cyfredol
- nifer y milltiroedd sy'n cael eu teithio bob blwyddyn
- grŵp galwedigaeth a diwydiant gan ddefnyddio cwestiwn caeedig (blwch ticio)
- gwlad enedigol rhieni
- perchen ar anifail anwes
- man geni
- presenoldeb larymau mwg
- medrusrwydd mewn ieithoedd tramor
- cymhwyster neu hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer galwedigaeth
- cael gofal personol di-dâl
- hunaniaeth rywiol
- ethnigrwydd Sikh a Kashmiraidd
- maint y gweithle
- ieithoedd a addysgwyd
- cyfeiriad yn ystod y tymor myfyrwyr blaenorol blwyddyn cyn y Cyfrifiad
- math o anabledd
- math o gytundeb tenantiaeth
- defnydd o gyfleusterau gofal plant
- defnydd o adnoddau ynni adnewyddadwy
- defnydd o gadair olwyn
- gwerth y cartref
- gwaith gwirfoddol
- cyflwr atgyweirio llety

### Yr achos o blaid ac yn erbyn cynnwys cwestiwn ar incwm

3.104 Dangosodd y broses o ymgynghori â defnyddwyr cyn Cyfrifiad 2001 ofyniad eang i gael gwybodaeth am lefel yr incwm gros unigol sydd ar gael o'r Cyfrifiad. Ystyriwyd yn eang bod incwm yn newidyn mwy gwahaniaethol na galwedigaeth neu gyflwr tŷ at ddibenion nodi ardaloedd cyfoethog neu ardaloedd o amddifadedd ac mewn ymchwil economaidd a chymdeithasol. Cyflwynodd yr holl brif gymunedau o ddefnyddwyr achos cryf dros gwestiwn ar incwm yn eu hachosion busnes ar gyfer pynciau cyfrifiad. Yn arbennig, soniodd defnyddwyr llywodraeth ganolog a llywodraeth leol am ofyniad i'r wybodaeth gael ei defnyddio i ategu amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys dyrannu adnoddau, datblygu ac adolygu polisïau, llunio dangosyddion amddifadedd, ac asesu anghydraddoldebau ac allgáu cymdeithasol.

3.105 Fodd bynnag, yr adeg honno roedd y Llywodraeth o'r farn bod angen i gryfder y gofyniad am wybodaeth cyfrifiad am incwm gael ei gydbwyso yn erbyn yr anfodlonrwydd posibl ymhlith y cyhoedd ynghylch derbynioldeb cwestiwn o'r fath mewn Cyfrifiad gorfodol, yr amheuon ynghylch dibynadwyedd y wybodaeth a gesglir, ac argaeledd ffynonellau amgen posibl o'r wybodaeth.

3.106 Ystyriodd y Llywodraeth dystiolaeth o'r canlynol:

(a) profion bach ar fersiynau amrywiol o gwestiwn ar incwm, nad yw ymatebwyr yn dueddol o ateb cwestiynau ar incwm yn gywir
(b) Prawf Cyfrifiad 1997 ac Ymarfer Cyfrifiad 1999, a awgrymodd y byddai cwestiwn ar incwm yn cael effaith niweidiol ar yr ymateb i'r Cyfrifiad cyfan

3.107 O ganlyniad, penderfynodd y Llywodraeth, er yn cydnabod yr angen cyffredinol am wybodaeth am incwm, fod y risgiau ar y pryd i gynnal y Cyfrifiad yn ei gyfanrwydd a oedd ynghlwm wrth gynnwys cwestiwn o'r fath yn rhy fawr, a chynhaliwyd ymchwil i weld a ellid diwallu anghenion drwy ffynonellau data amgen. Fodd bynnag, yn ei adolygiad o Gyfrifiad 2001, nododd Pwyllgor Dethol y Trysorlys ei bod yn glir y byddai cwestiwn ar incwm wedi bod yn ddefnyddiol i lawer o ddefnyddwyr data'r Cyfrifiad ac argymhellodd y dylai SYG gynnal ymgynghoriad pellach ynghylch a ddylid cynnwys cwestiwn ar incwm mewn unrhyw Gyfrifiad yn y dyfodol[9].

3.108 Mae SYG wedi gwneud hyn, ac mae wedi nodi[33] bod gofynion defnyddwyr o ran cwestiwn ar incwm sydd wedi dod i'r amlwg ers Cyfrifiad 2001, ac yn arbennig yn ystod rhaglen ymgynghori 2005 a 2007, er yr un mor gryf ag yr oeddent cyn Cyfrifiad 2001, yn gymharol lai na'r rhai a fynegwyd ar gyfer pynciau eraill sy'n cystadlu am le ar holiadur Cyfrifiad 2011. Serch hynny cafodd cwestiwn ar incwm ei gynnwys ym Mhrawf Cyfrifiad 2007 (gweler Adran 2) gyda'r nod o asesu a oedd digon o dystiolaeth o anfodlonrwydd parhaus y cyhoedd ynghylch cynnwys cwestiwn o'r fath yn y Cyfrifiad a fyddai'n debygol o effeithio ar yr ymateb.

3.109 Yn sgîl cynllun y Prawf roedd yn bosibl asesu'r effaith y byddai cynnwys cwestiwn ar incwm yn ei chael ar y cyfraddau ymateb. Cafodd hanner y 100,000 o gartrefi a gwmpaswyd yn y Prawf holiadur cyfrifiad a oedd yn cynnwys cwestiwn ar incwm, ac anfonwyd ffurflen heb yr incwm at yr hanner arall. Roedd y gwahaniaeth mewn cyfraddau ymateb yn 2.7 pwynt canran ar y cyfan (50.6 y cant ar gyfer ffurflenni yn cynnwys y cwestiwn o gymharu â 53.3 y cant ar gyfer ffurflenni hebddo). Roedd y gwahaniaeth hwn yn debyg i'r hyn a welwyd ym mhrofion y Cyfrifiad cyn 2001 ac roedd yn ystadegol bwysig, yn enwedig o ystyried y ffaith bod y Prawf yn wirfoddol ac felly fod ymatebion gan gartrefi a oedd yn debygol o gydymffurfio'n fwy. At hynny, nododd dadansoddiad o'r holiadur ar incwm a gwblhawyd ac a ddychwelwyd i 9 y cant arall o'r ymatebwyr ddewis peidio ag ateb y cwestiwn ar incwm.

3.110 Wrth gydbwyso galw defnyddwyr am wybodaeth am incwm yn erbyn y dystiolaeth hon o amharodrwydd y cyhoedd i ateb y cwestiwn, ynghyd â'r gwerthusiad o nifer o feini prawf eraill yn anelu at asesu dealltwriaeth y cyhoedd o'r cwestiwn, yn ogystal ag argaeledd posibl gwybodaeth o ffynonellau amgen, mae Awdurdod Ystadegau'r DU wedi dod i'r casgliad nad yw'r achos dros gynnwys y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2011 yn ddigon cryf i orbwyso'r risg o gael llai o ymateb.

### Casglu gwybodaeth am hunaniaeth rywiol

3.111 Nododd y broses o ymgynghori â defnyddwyr, yn enwedig yn ystod rhaglen 2005, ofyniad cryf i'r Cyfrifiad geisio casglu gwybodaeth am hunaniaeth rywiol er mwyn darparu meincnod i asesu polisïau monitro cydraddoldeb yn well. Er bod Awdurdod Ystadegau'r DU wedi cydnabod gwerth posibl gwybodaeth o'r fath, rhaid iddo hefyd ystyried pryderon penodol ynghylch preifatrwydd a chyfrinachedd unigolion o fewn amgylchedd y cartref yng nghyd-destun Cyfrifiad gorfodol, ansawdd y data dilynol, ac effaith bosibl cwestiwn o'r fath ar yr ymateb cyffredinol i'r Cyfrifiad.

3.112 Mewn arolwg bach drwy'r post a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn yr Alban yn 2006, a oedd yn cynnwys cwestiwn ar gyfeiriadedd rhywiol, o'r 31 y cant o gartrefi a ymatebodd ni ddarparodd un o bob saith ddata defnyddiol ar gyfeiriadedd rhywiol – naill ai am iddynt ddewis ticio'r blwch yn nodi bod yn well ganddynt beidio ag ateb neu am eu bod wedi gwrthod ateb y cwestiwn[34]. Roedd hyn yn llawer mwy na chanran yr ymatebwyr a nododd gyfeiriadedd nad yw'n heterorywiol, a daeth y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol i'r casgliad y byddai'r canlyniadau yn cwestiynu cywirdeb unrhyw ddata a gasglwyd gan gwestiwn o'r fath yn y Cyfrifiad ac felly ddefnyddioldeb y data a gasglwyd yn y ffordd hon. At hynny, mae'r derminoleg a'r cysyniadau a ddefnyddir i geisio gwahaniaethu ymddygiad rhywiol gwahanol yn dueddol o ddrysu llawer o ymatebwyr gan arwain at fwy o anghywirdeb yn yr ymatebion.

3.113 Yn sgîl hyn, ac ymchwil ryngwladol arall i ymarferoldeb cynnwys cwestiwn o'r fath mewn cyfrifiad o'r boblogaeth[35,36], mae'r Llywodraeth yn cefnogi barn yr Awdurdod Ystadegau nad yw cyfrifiad gorfodol yn ffordd addas o gasglu gwybodaeth am hunaniaeth rywiol am y tro cyntaf ac na ddylid cynnwys cwestiwn ar hunaniaeth rywiol yng Nghyfrifiad 2011.

3.114 Fodd bynnag, i gydnabod pwysigrwydd penodol casglu gwybodaeth am y pwnc hwn at ddibenion monitro cydraddoldeb, mae SYG wedi cychwyn ar brosiect sy'n ceisio datblygu cwestiwn ar hunaniaeth rywiol a fydd yn dderbyniol ac yn sicrhau y cesglir data o ansawdd uchel, y gellir ei ddefnyddio mewn arolygon cenedlaethol.

3.115 Prif fantais casglu'r data hwn mewn arolwg o gartrefi yw ansawdd uchel yr amcangyfrifon a gynhyrchir. Mewn amgylchedd arolwg, rhoddir gwybodaeth gan yr unigolyn y mae'n gysylltiedig ag ef ac ni chaiff ei rhannu gan ddeiliaid eraill y cartref. Preifatrwydd a chyfrinachedd oedd y pryderon allweddol a fynegwyd yn y grwpiau ffocws gan y grwpiau lesbaidd, hoyw a deurywiol a heterorywiol.

3.116 Os gofynnir y cwestiwn, fel y bwriedir, o 2009 ymlaen mewn arolwg mawr o gartrefi megis yr Arolwg Integredig o Gartrefi, byddai amcangyfrifon ar gael tua thair blynedd yn gynharach na chyfrifon Cyfrifiad 2011. Gellir diweddaru amcangyfrifon arolygon bob blwyddyn, gan ei gwneud yn bosibl i fonitro maint, dosbarthiad a phroffil demograffig cymdeithasol newidiol y boblogaeth lesbaidd, hoyw a deurywiol yn rheolaidd.

3.117 Mae papur sy'n darparu gwybodaeth gefndir bellach ac yn crynhoi'r rhesymau pam yr oedd SYG o'r farn na ddylid gofyn cwestiwn yng Nghyfrifiad 2011 ar gael ar wefan Ystadegau Gwladol[37].



4

# Casglu'r wybodaeth

# 4 Casglu'r wybodaeth

*"One of the most important requirements of a successful census is to ensure that the coverage is complete and accurate and that the data are safely and speedily transferred from schedules to computer. The enormity of the undertaking, and the importance attached to producing outputs to a tight deadline within a fixed budget mean that, as far as possible, procedures must be tried and tested. There is little margin for error in such an undertaking and no scope for taking risks."* **Angela Dale, Cathie Marsh Centre for Census and Survey Research, Prifysgol Manceinion**[23]

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r broses o gasglu data – wyneb cyhoeddus y cyfrifiad bob amser – yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau yn ogystal â dosbarthu'r holiaduron a chasglu'r ffurflenni wedi'u llenwi. Ymhlith y rhain y mae recriwtio staff maes, materion cyfreithiol, ariannol a thechnolegol, a threfniadau cytundebol â chyflenwyr. Ar gyfer Cyfrifiad 2001, canolbwyntiwyd yn fwy ar weithgareddau casglu data, o gymharu â chyfrifiadau blaenorol, gan fod yn rhaid iddo gyfrif poblogaeth a oedd yn destun newid cymdeithasol mawr. Dilynir y trywydd strategol hwn ar gyfer Cyfrifiad 2011 unwaith eto.

4.2 Mae profiad wedi dangos ei bod yn fwyfwy anodd cysylltu â chartrefi, yn enwedig (ond nid yn unig) yng nghanol dinasoedd. Cafodd hyn ddylanwad mawr ar lunio cynlluniau casglu data ar gyfer Cyfrifiad 2011. Gellir priodoli'r anawsterau hyn i: boblogaeth sy'n heneiddio, niferoedd cynyddol o gartrefi un person; patrymau gwaith newidiol; cynnydd mewn systemau rheoli diogelwch mynediad; niferoedd cynyddol o boblogaethau mudol, yn enwedig o ardaloedd cymharol newydd megis Dwyrain Ewrop; a rhai grwpiau a chymunedau o fewn y boblogaeth sy'n teimlo'n fwyfwy ynysig o gymdeithas. Mae sicrhau bod pob cartref yn cael ffurflen Cyfrifiad ac yn cael ei gymell i'w llenwi, felly, yn fwy nag erioed yn brif sbardun yn y strategaeth a chynllunio ar gyfer casglu data. I'r perwyl hwn mae strategaeth cyhoeddusrwydd effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y Cyfrifiad. Disgrifir trefniadau cyhoeddusrwydd o'r fath ym mharagraffau 4.67–4.73.

4.3 Caiff y broses gyfrifo ei chynnal mewn ffordd sy'n anelu'n bennaf at gwmpasu pawb drwy ddefnyddio adnoddau mewn modd effeithlon ac, ar yr un pryd, yn cynnal ymdeimlad o dderbyn ymhlith y cyhoedd ynghyd â'i hyder ym mhwysigrwydd a diogelwch y Cyfrifiad**.** Er y bydd sawl agwedd ar y Cyfrifiad yn dilyn methodolegau sefydledig a sicr, mae SYG wedi cyflwyno newidiadau a fydd yn gwella effeithlonrwydd y broses o weithredu'r Cyfrifiad ac yn rhoi gwell

cymorth i'r cyhoedd. Er enghraifft, bydd defnyddio darparwr gwasanaeth post i hwyluso'r broses o ddosbarthu ffurflenni yn ogystal â dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi drwy'r post yn helpu i oresgyn yr anawsterau sydd ynghlwm wrth recriwtio niferoedd mawr o gyfrifwyr dros dro i ddosbarthu ffurflenni i bob cyfeiriad, a chael mynediad i lety a ddiogelir gan systemau diogelwch. Ynghyd â'r opsiwn o lenwi ffurflen ar-lein, bydd hyn yn rhyddhau staff maes i gael eu defnyddio mewn ffordd fwy hyblyg lle bynnag y bo eu hangen. Caiff hynt y broses gyfrifo ar lawr gwlad ei fonitro'n barhaus er mwyn gallu atgyfeirio cymorth ychwanegol ble bynnag y mae ei angen.

## Amcanion gweithredol

4.4 Mae nifer o amcanion allweddol y broses o gasglu data yn ategu nodau strategol eang y Cyfrifiad a nodir yn Adran 1; sef:

- datblygu methodoleg cyfrifo effeithiol sy'n targedu adnoddau a gweithdrefnau i sicrhau'r ymateb gorau posibl
- olrhain y broses o ddosbarthu a derbyn ffurflenni i dargedu diffyg ymateb
- annog lefel uchel o ymatebion ar-lein (a allai leihau costau mewn ardaloedd eraill)
- goresgyn y problemau sy'n gysylltiedig â recriwtio, cadw a thalu nifer fawr o staff maes
- rheoli cyfranogiad a chydweithrediad y cyhoedd drwy gyhoeddusrwydd sy'n llawn gwybodaeth
- gweithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i gynllunio a chynnal y broses gyfrifo, yn enwedig gwneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth am gyfeiriadau lleol a threfniadau preswylio a ffyrdd o gysylltu â grwpiau anodd eu cyfrif

## Staff maes dros dro

4.5 Cyflogir tua 30,000 o staff maes dros dro i gynnal Cyfrifiad 2011. Bydd gan y staff maes hyn strwythur rheoli hierarchaidd sy'n debyg i'r hyn a gafwyd yn 2001, a arweinir gan 100 neu fwy o Reolwyr Ardal y Cyfrifiad a gyflogir am gyfnod o naw mis cyn ac ar ôl y Cyfrifiad. Bydd pob un yn gyfrifol am gyfrifo ardal o tua 500,000 o bobl (llai mewn ardaloedd llai poblog). Byddant yn gyfrifol am reoli rheolwyr tîm lleol a elwir yn Gydlynwyr y Cyfrifiad – a fydd, yn eu tro, yn goruchwylio timau lleol o Wirwyr Cyfeiriadau, Dosbarthwyr y Cyfrifiad, Casglwyr y Cyfrifiad a Chyfrifwyr Arbennig. Penodir tîm bach o Reolwyr Rhanbarthol i gydlynu gweithrediadau ar lefel strategol uwch, gan gynnwys Rheolwyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru.

4.6 Bu'n bosibl lleihau nifer y staff maes o tua 70,000 yn 2001 yn bennaf drwy newid i fethodoleg lle anfonir ffurflenni drwy'r post ar y cyfan (gweler paragraffau 4.10 a 4.20–4.21). Bydd yr arbedion a wneir o ganlyniad i hyn yn golygu y gellir atgyfeirio adnoddau sydd wedi'u targedu'n well i'r cam dilynol.

## Recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes

4.7 Bydd y strategaeth ar gyfer recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes Cyfrifiad 2011 ychydig yn wahanol i'r hyn a wnaed yn 2001 a chyfrifiadau blaenorol. Mae gosod y gwasanaethau hyn ar gontract allanol ar gam cynnar gan ddefnyddio contractwr ag arbenigedd penodol mewn gweithrediadau maes mewn ymateb i'r pryderon a nodwyd yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sef *Outsourcing the 2001 Census*[14]. Yn amlwg nid yw gwasanaethau o'r fath yn greiddiol i SYG ac ni ellir eu darparu'n fewnol, i'r graddau hyn, heb fuddsoddiad ychwanegol sylweddol.

4.8 Ar gyfer Prawf Cyfrifiad 2007, gweithiodd SYG yn llwyddiannus gyda chyflenwr ar gontract i ddarparu gwasanaethau recriwtio, hyfforddi a thalu staff maes, gan arwain at benderfynu gosod y gwasanaethau hyn ar gontract allanol ar gyfer Cyfrifiad 2011. Er mai'r cyflenwr fydd yn gyfrifol am recriwtio staff maes, mae SYG am i'r staff maes a benodir, i ryw raddau, adlewyrchu proffil y cymunedau y byddant yn gweithio ynddynt, a sicrhau bod polisïau priodol ar waith ar gyfer hyn. Nid yn unig y mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau cyfle cyfartal ond bydd hefyd yn galluogi staff maes i chwarae rhan fwy effeithiol yn y cymunedau lleol a gyfrifir ganddynt, annog cyfranogiad, a deall y cymorth sydd ei angen. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau bod digon o staff maes sy'n siarad Cymraeg yn cael eu recriwtio mewn gwahanol rannau o Gymru i sicrhau bod y Cyfrifiad yn cael ei gynnal yn effeithiol yno (gweler hefyd baragraff 4.43).

4.9 Bydd y rhwymedigaeth statudol i bobl a gyflogir ar y Cyfrifiad i lynu wrth ymgymeriadau cyfrinachedd llym yr un mor gymwys i unrhyw staff maes dros dro sy'n cael eu recriwtio gan y cyflenwr ar gontract ag y byddent i staff parhaol Awdurdod Ystadegau'r DU (gweler paragraffau 6.15–6.18).

## Postio a datblygu Cofrestr Cyfeiriadau

4.10 Yn dilyn y llwyddiant o ran treialu'r broses o anfon ffurflenni Cyfrifiad drwy'r post ym Mhrawf Cyfrifiad 2007[20], penderfynodd yr Ystadegydd Gwladol, a gefnogir bellach gan Awdurdod Ystadegau'r DU, fabwysiadu'r fethodoleg hon fel y prif ddull o ddosbarthu ffurflenni ar gyfer Cyfrifiad 2011 (gweler paragraffau 4.20–4.21). Y rhesymeg sy'n sail i fabwysiadu'r strategaeth hon yw hyd yn oed pan ddosbarthwyd ffurflenni Cyfrifiad 2001 â llaw, methodd cyfrifwyr â dod i gysylltiad ag aelodau o'r cartref wrth stepen y drws mewn mwy na thraean o gyfeiriadau a bu'n rhaid rhoi'r ffurflen drwy'r blwch llythyrau. Gwelir y defnydd o ddarparwr gwasanaeth post sefydledig i wneud hyn fel cyfle i gyfeirio adnoddau maes i'r ardaloedd hynny lle y mae angen dilyn trywydd â mwy o ffocws iddo mewn perthynas â gweithgareddau dilynol er mwyn gwella cyfraddau ymateb. Mae SYG yn disgwyl anfon ffurflenni'r Cyfrifiad drwy'r post i gynifer â 95 y cant o gartrefi.

4.11 O ganlyniad, ac yn dilyn argymhellion Pwyllgor Dethol y Trysorlys yn ei adroddiad ar Gyfrifiad 2001[9], bydd SYG yn caffael contractau ar gyfer gwasanaethau anfon drwy'r post a dychwelyd drwy'r post ar gyfer y Cyfrifiad. Dechreuodd yr ymarfer caffael ar gyfer y gwasanaeth hwn ym mis Ebrill.

4.12 Yn amlwg yr hyn sy'n rhagofynnol ar gyfer strategaeth bostio lwyddiannus yw argaeledd cofrestr cyfeiriadau gynhwysfawr, o ansawdd uchel ar gyfer pob ardal yng Nghymru a Lloegr. Heb un ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth genedlaethol am gyfeiriadau, mae SYG wrthi'n datblygu cofrestr cyfeiriadau sy'n bodloni gofynion y Cyfrifiad o ran ansawdd a chwmpas, ac y gall awdurdodau lleol fod yn hyderus y bydd yn ategu proses gyfrif a chanlyniadau'r Cyfrifiad yn effeithiol. Gwneir defnydd llawn o'r prif ffynonellau o restrau cyfeiriadau, sef Postcode Address File (PAF) Post Brenhinol, MasterMap Address Layer 2 (AL2) Arolwg Ordnans a'r National Land and Property Gazetteer (NLPG), a weinyddir gan y gymuned awdurdod lleol drwy'r Asiantaeth Datblygu Gwybodaeth.

4.13 Bydd y gofrestr derfynol, y byddai SYG am iddi fod yn destun proses sicrhau ansawdd ac ardystio gan awdurdodau lleol, yn cynnwys rhestr o gyfeiriadau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd daearyddol lefel uwch at ddibenion rheoli, adrodd ac allbwn. Bydd hyn yn gofyn am gysylltu pob cyfeiriad â chyfeirnod safle cywir, i gynllunio gweithrediadau maes gan gynnwys argraffu ffurflenni a chynhyrchu allbwn.

4.14 Cynhaliodd SYG asesiad cynnar o addasrwydd dwy o'r ffynonellau o wybodaeth am gyfeiriadau (NLPG ac OSAL2) at ddiben y Cyfrifiad yn ystod 2006–07, a oedd yn cynnwys cymharu perfformiad dwy o'r setiau data yn erbyn gofynion y Cyfrifiad yn yr ardaloedd a gwmpaswyd gan Brawf Cyfrifiad 2007 (paragraff 2.16). Prif argymhellion a chasgliadau'r gwerthusiad yn seiliedig ar y data a roddwyd oedd:

- nid oedd cywirdeb fersiynau electronig y ddwy gofrestr yn ardaloedd y Prawf o ran cwmpas a dosbarthiad yn bodloni gofynion Cyfrifiad 2011
- ni fyddai wedi bod yn bosibl defnyddio'r un o'r ddau gynnyrch i gefnogi'r gweithgareddau cyfrifo heb waith adfer pellach gan SYG
- roedd cynnwys cyfeiriadau amlfeddiannaeth yn ddiffygiol iawn a byddai angen gwneud gwaith pellach ar nodi is-eiddo
- ni fyddai hyd yn oed ateb amgen i weithredu 'fersiwn cyfansawdd' o'r ddwy gofrestr cyfeiriadau, gan ddefnyddio elfennau gorau'r ddau, yn debygol o nodi pob cyfeiriad yn llawn

4.15 Mae rhagor o ymchwil, a ddisgrifir yn yr Adroddiad o'r gwerthusiad[38], wrthi'n cael ei chynnal i asesu gwelliannau a wneir gan y ddau gyflenwr. Mae SYG hefyd yn ystyried agweddau eraill ar gofrestrau cyfeiriadau, er enghraifft, cynnwys sefydliadau cymunedol a mathau amgen o breswylfeydd preifat, a nodi ardaloedd o newid mewn cyfnodau byr o amser cyn y Cyfrifiad.

## Gwirio cyfeiriadau

4.16 Cynigir y dylid anfon ffurflenni â chyfeiriadau arnynt yn barod sydd â rhif adnabod a chod bar unigryw i'r rhan fwyaf o gartrefi gan ddefnyddio Cofrestr Cyfeiriadau'r Cyfrifiad y cyfeirir ati uchod. Cofnodir y broses o'u hargraffu a'u dosbarthu ar system olrhain ffurflenni arloesol.

4.17 Ar hyn o bryd bwriedir i Wirwyr Cyfeiriadau gadarnhau bod Cyfeiriadau'n gywir mewn tua 30 y cant o ardaloedd lle ceir yr ansicrwydd mwyaf ynghylch ansawdd y rhestrau o gyfeiriadau. Byddai'r broses wirio yn digwydd dros gyfnod o chwe mis gan orffen tua chwe mis cyn y Cyfrifiad i sicrhau bod y Gofrestr Cyfeiriadau a nodweddion lleol mor gyfredol â phosibl ac eto mewn da bryd i allu argraffu holiaduron unigolion. Er enghraifft, cyn Prawf Cyfrifiad 2007 datgelodd y broses wirio fod 9,000 neu fwy o gartrefi ychwanegol yn yr ardaloedd a samplwyd nad oeddent ar y Gofrestr ar y pryd. Roedd y rhain yn dueddol o fod yn gyfeiriadau amlfeddiannaeth lle yr addaswyd tai yn fflatiau. Fodd bynnag, o ganlyniad i amserlen gymharol fyr y broses o wirio cyfeiriadau cyn y Prawf – dim ond chwe wythnos – ni chynhwyswyd llawer o gyfeiriadau eraill. Bydd ymestyn y cyfnod gwirio i dros chwe mis yng Nghyfrifiad 2011 yn sicrhau bod llawer mwy o gyfeiriadau cartrefi o'r fath yn cael eu nodi ymlaen llaw. Caiff yr ardaloedd eu gwirio ar sail cyfradd y newid yn y boblogaeth, graddau amlfeddiannaeth a graddau'r anghysondeb rhwng NLPG, PAF ac OSAL2.

4.18 Cynhaliwyd ymarfer peilot rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2008 mewn 24 o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i brofi a mireinio'r broses.

4.19 Er mwyn sicrhau bod yr ymdrech ychwanegol hwn wrth baratoi ar gyfer y Cyfrifiad yn cyflawni gwelliant parhaol o ran rhestrau cyfeiriadau presennol, bwriedir i wybodaeth am ddiweddaru'r Gofrestr – sy'n deillio, er enghraifft, o ddatblygiad tai newydd ac unrhyw newidiadau i statws cyfeiriadau presennol – gael ei rhannu â'r sefydliadau hynny sy'n rheoli'r NLPG, PAF ac OSAL2 lle nad yw gwybodaeth o'r fath yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol o'r Cyfrifiad (gweler hefyd y cyfeiriadau at sicrhau cyfrinachedd a geir ym Mhennod 6). I'r perwyl hwn, mae SYG wedi llwyddo i gael pob un o'r prif ddarparwyr rhestrau cyfeiriadau i lofnodi cytundeb rhannu gwybodaeth interim.

## Dosbarthu ffurflenni

4.20 Caiff ffurflenni eu hanfon drwy'r post ar gyfer y rhan fwyaf o gartrefi. Bydd penderfynu a gaiff ffurflen y Cyfrifiad ei hanfon drwy'r post neu ei dosbarthu â llaw gan staff maes yn dibynnu ar nifer o ffactorau a gafodd eu hasesu o dystiolaeth a gasglwyd yn ystod Prawf 2007. Ymhlith y rhain y mae:

- hyder ynghylch cywirdeb y rhestr o gyfeiriadau mewn unrhyw ardal benodol
- cyfran yr eiddo amlfeddiannaeth sy'n hysbys neu a amheuir yn yr ardal
- chrynodiadau o gartrefi mawr

### Dosbarthu drwy'r post

4.21 Bwriedir dechrau dosbarthu ffurflenni ddydd Llun 14 Mawrth, 13 diwrnod cyn Diwrnod y Cyfrifiad, a disgwylir iddo bara un wythnos waith ar y mwyaf. Bydd hyn yn caniatáu wythnos cyn Diwrnod y Cyfrifiad i ddatrys unrhyw faterion. Bydd hefyd yn rhoi amser i gael adborth ar gyfeiriadau nas cynhwyswyd ac unrhyw holiaduron nas dosbarthwyd, y bydd staff maes lleol yn gallu ymchwilio iddynt cyn Diwrnod y Cyfrifiad os oes angen.

### Dosbarthu â llaw

4.22 Yn y 5 cant o ardaloedd neu debyg lle y dosberthir ffurflenni â llaw, bydd hyn yn digwydd 15–7 diwrnod cyn y Cyfrifiad gan adael chwe diwrnod i ddatrys unrhyw broblemau dosbarthu lleol. Ar y cyfan, gwneir tair ymgais i gysylltu ag aelod cartref a dosbarthu pecynnau holiadur y Cyfrifiad i bob cyfeiriad cartref . Ar ôl hyn bydd staff maes yn rhoi'r pecyn drwy'r blwch llythyrau os na cheir unrhyw gyswllt. Cofnodir unrhyw eiddo sy'n edrych yn wag.

### Canolfan Gyswllt

4.23 Bydd cyhoeddusrwydd cenedlaethol a lleol, a ategir gan Ganolfan Gyswllt benodol yn y DU, yn canolbwyntio'n gychwynnol ar fynd i'r afael â diffyg cyswllt wyneb yn wyneb ar y cam dosbarthu, gan roi neges glir ynghylch yr hyn ddylai'r cyhoedd ei ddisgwyl a phryd, a beth i'w wneud os nad yw'n digwydd. Yn arbennig, bydd y Ganolfan Gyswllt yn cymryd manylion deiliaid cartrefi nad ydynt wedi cael ffurflen y Cyfrifiad, gan ddiweddaru'r wybodaeth ar y rhestr o gyfeiriadau a'r system olrhain ffurflenni ar yr un pryd. (Gweler paragraffau 4.67–4.73 ynghylch cyhoeddusrwydd yn fwy cyffredinol.)

## Casglu holiaduron wedi'u llenwi

4.24 Cynigir dau brif lwybr ymateb i alluogi'r cyhoedd i lenwi eu holiadur Cyfrifiad:

- ei lenwi ar bapur a'i ddychwelyd drwy'r post, neu
- ei lenwi ar-lein (am y tro cyntaf yn y DU)

Gall deiliaid cartrefi na allant ddychwelyd ffurflen yn y ffyrdd hyn ofyn iddi gael ei chasglu wrth stepen y drws yn lle hynny. Disgrifir trefniadau ar gyfer casglu ffurflenni wedi'u llenwi o sefydliadau cymunedol ym mharagraffau 4.36–4.38.

4.25 Ni chynigir clustnodi unrhyw ardaloedd ar gyfer casglu ffurflenni wrth stepen y drws yn benodol (fel yn achos dosbarthu ffurflenni â llaw). Bydd staff maes ar y cam dilynol yn ceisio casglu ffurflenni'r Cyfrifiad ond dim ond o gyfeiriadau lle na ddychwelyd ffurflen y gwneir hyn.

4.26 Bydd cymorth arbennig ar gael i unrhyw un sy'n ei chael yn anodd llenwi holiadur y Cyfrifiad, yn enwedig oherwydd iaith neu wendid. Caiff staff maes sy'n siarad Saesneg ac ieithoedd eraill a/neu arwyddwyr eu cyflogi, lle y bo'n bosibl.

### Postio ymateb

4.27 Ymhob achos, caiff cartrefi amlen ragdaledig â chyfeiriad arni i ddychwelyd eu ffurflen wedi'i llenwi o fewn cyfnod gofynnol o amser (i'w ragnodi gan is-ddeddfwriaeth – gweler Pennod 7). Gall unrhyw aelod o gartref sy'n oedolyn nad yw'n dymuno i bobl eraill yn y cartref weld ei atebion i gwestiynau'r cyfrifiad ofyn am holiadur ar wahân (Holiadur i Unigolion) ac amlen i'w roi ynddi a'i dychwelyd drwy'r post. O dan yr amgylchiadau hyn, dim ond enw a pherthynas yn y cartref unrhyw un sy'n dychwelyd ffurflen ar wahân y bydd angen i ddeiliad y cartref eu nodi ar y prif holiadur cartrefi.

4.28 Mewn cartrefi â mwy na chwe phreswyliwr, neu fwy na thri ymwelydd yn bresennol ar noson y Cyfrifiad, darperir ffurflenni ychwanegol (Holiadur y Cartref (Parhad)), ar gais, er mwyn gallu dychwelyd ffurflen ar gyfer unrhyw bobl ychwanegol o'r fath.

### Llenwi ar y Rhyngrwyd (ar-lein)

4.29 Amcangyfrifir, o brofiad cyfrifiadau rhyngwladol, y bydd hyd at 25 y cant o gartrefi yn ymateb ar-lein, sy'n gyfystyr â mwy na 5 miliwn o ymatebion o bosibl yng Nghymru a Lloegr. Felly, bydd SYG yn cynnig yr opsiwn o lenwi holiadur cyfrifiad ar-lein. Fodd bynnag, ceir ansicrwydd ynghylch y defnydd gwirioneddol o'r cyfrwng hwn a rhaid i'r gwaith o gynllunio capasiti ar gyfer y system ymateb ganiatáu hyblygrwydd. Bydd y fath gyfleuster yn cynnig y posibilrwydd o annog ymateb ymhlith is-grwpiau penodol o'r boblogaeth a allai fel arall fod yn anodd eu cyrraedd, a gwneud rhai arbedion o ran costau prosesu data os bydd lefelau ymateb cyffredinol yn ddigon uchel. At hynny, mae'r fath opsiwn yn cyflawni nod y Llywodraeth o geisio cynyddu nifer y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir ar-lein, a bydd yn rhoi cyfle i SYG asesu effeithlonrwydd y broses o gasglu gwybodaeth yn y fath fodd ar gyfer unrhyw gyfrifiadau yn y dyfodol ac arolygon ystadegol eraill.

4.30 Bydd yr holiadur ar-lein yn cynnwys yr un cwestiynau â'r fersiwn papur a bydd modd cofnodi unrhyw nifer o aelodau cartrefi ac ymwelwyr â chartrefi. Bydd hefyd yn bosibl i gartrefi ddefnyddio Holiadur i Unigolion os byddant yn dewis llenwi Holiadur y Cartref ar bapur ond am ddefnyddio'r Rhyngrwyd i gynnwys aelodau ychwanegol o'r cartref na ellir eu cynnwys ar y fersiwn papur, neu i alluogi aelod unigol o'r cartref i lenwi holiadur ar-lein ar wahân i Holiadur y Cartref y gweddill o aelodau o'r cartref.

4.31 Bydd pob cartref yn cael holiadur papur p'un a yw'n dewis llenwi holiadur ar-lein ai peidio. Ni fydd modd i ddeiliad cartref gofrestru ei fwriad i wneud hynny

ymlaen llaw oherwydd ystyrir bod y risg o beidio â llenwi ffurflen yn rhy uchel. Yn hytrach, bydd cyfeirnod unigryw ar bob holiadur papur yn gweithredu fel cod diogelwch sylfaenol i weld y ffurflen a'i llenwi ar-lein. Gellir hefyd wirio'r cyfeiriad ar ddechrau'r broses lenwi i gadarnhau'r manylion. Caiff y system olrhain ffurflenni ei diweddaru pan fydd holiadur ar-lein yn cael ei gyflwyno a rhoddir cod llenwi i'r ymatebydd.

## Ymweliadau dilynol

### Ymweliadau dilynol mewn perthynas â diffyg ymateb

4.32 Os na chaiff holiadur wedi'i lenwi ei ddychwelyd, bydd aelod o'r staff maes yn ffonio i gynnig unrhyw gymorth lle bo ei angen a chasglu'r holiadur. O dan y fath amgylchiadau, gall deiliad y cartref ddychwelyd ei holiadur wedi'i lenwi mewn amlen seliedig os nad yw am i'r swyddog maes ei weld. Bydd staff maes yn cynnal ymweliadau dilynol o'r fath â phob cyfeiriad y mae SYG yn hyderus na chafwyd unrhyw ymateb drwy unrhyw gyfrwng. Bydd y gweithgaredd hwn yn cychwyn 10 diwrnod ar ôl Diwrnod y Cyfrifiad.

4.33 Caiff y system olrhain ffurflenni ei diweddaru naill ai pan ddychwelir ffurflen wedi'i llenwi drwy'r post, neu pan gadarnheir ffurflen ar-lein. Bydd y system yna'n darparu'r rhestrau o gyfeiriadau y mae angen cynnal ymweliadau dilynol â hwy a bydd rheolwyr maes lleol yn dyrannu'r gwaith hwnnw ymhlith staff maes gan ddosbarthu'r llwythi gwaith er mwyn sicrhau'r ymateb gorau.

4.34 Os na cheir unrhyw gyswllt pan gynhelir yr ymweliad dilynol, gadewir cerdyn yn egluro pam mae Casglwr y Cyfrifiad wedi galw ac yn awgrymu dyddiad/amser i alw eto. Cynhelir ymweliadau pellach ar adegau gwahanol o'r dydd neu ddiwrnod gwahanol o'r wythnos er mwyn gwella'r siawns o gyswllt.

### Cynnal ymweliadau dilynol mewn perthynas ag ymatebion gwag neu anghyflawn

4.35 Nodir ymatebion gwag neu anghyflawn yn ystod y broses o gipio data (a ddisgrifir ym Mhennod 5) a chynhelir ymweliadau dilynol mewn perthynas â hwy tra bo'r gweithrediad maes yn mynd rhagddo o hyd.

## Sefydliadau cymunedol

4.36 Bydd nifer o ddulliau gwahanol o gyfrifo sefydliadau cymunedol yn dibynnu ar eu maint a'r lefelau amrywiol o anhawster sydd ynghlwm wrth gysylltu â hwy a sicrhau bod preswylwyr yn llenwi eu ffurflenni. Ar y cyfan, bydd Cyfrifwyr Arbennig yn gyfrifol am y gwaith cyfrifo.

4.37 Gwneir cyswllt cyn dosbarthu ffurflenni gan Reolwyr Ardal y Cyfrifiad a bydd yn cynnwys cysylltu ag awdurdodau lleol a phrif swyddfeydd/asiantaethau eraill i'w hysbysu o'r Cyfrifiad a dod i gysylltiad â rheolwyr pob sefydliad cymunedol. Bydd y cam hwn yn nodi swyddog lleol priodol ar gyfer cyswllt yn y dyfodol a bydd yn cadarnhau manylion o ran y math o sefydliad, ei faint ac unrhyw gymorth arbennig sydd ei angen.

4.38 Mewn sefydliadau cymunedol yn gyffredinol dosberthir Holiadur Unigolion i bob preswyliwr, gan ei ddychwelyd naill ai drwy'r post neu drwy ei gasglu â llaw.

## Gweithdrefnau cyfrifo arbennig

4.39 Ni fydd y strategaethau a ddatblygwyd i gyfrifo cartrefi a sefydliadau cymunedol yn llwyddiannus i bawb, a chydnabyddir y bydd yn rhaid mabwysiadu gweithdrefnau ychwanegol ar gyfer rhai poblogaethau arbennig. Ymhlith y rhain bydd pobl nad oes ganddynt breswylfa sefydlog, megis Sipsiwn, y rhai sy'n teithio gyda ffeiri a phobl ddigartref. Gallai gwaith dadansoddi pellach ac amodau cymdeithasol newidiol nodi poblogaethau newydd y tu hwnt i'r grwpiau traddodiadol o hyd, megis ceiswyr lloches a ffoaduriaid y bydd angen strategaethau cyfrifo arbennig arnynt.

4.40 Yn ogystal ceir grwpiau penodol eraill drwy'r boblogaeth a fydd yn gofyn am weithdrefnau cyfrifo wedi'u haddasu. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

- y rhai nad ydynt yn gallu deall holiadur y Cyfrifiad, megis pobl nad ydynt yn siarad Saesneg (a'r rhai sydd hefyd yn siaradwyr di-Gymraeg yng Nghymru) a phobl ag anawsterau darllen
- y rhai sy'n debygol o'i chael yn anodd llenwi neu ddychwelyd holiadur papur safonol, gan gynnwys pobl â nam ar eu golwg neu ag anabledd corfforol
- y rhai sy'n gallu, ond nad ydynt yn fodlon, llenwi holiadur

4.41 Drwy barhau i ymchwilio ac ymgynghori â sefydliadau cynrychioliadol drwy Raglenni Awdurdodau Lleol a Chyswllt Cymunedol (gweler paragraffau 4.45–4.53) bydd modd llywio'r broses o ddatblygu'r strategaethau mwyaf effeithiol i dargedu a chymhwyso'r grwpiau hyn, gyda'r nod o sicrhau na chaiff unrhyw gymuned nac unigolyn ei wneud yn ddifreiniedig. Mewn ymateb i argymhellion adroddiad Pwyllgor Dethol y Trysorlys ar Gyfrifiad 2001[9] gwneir trefniadau arbennig i alluogi pobl ddall neu bobl rannol ddall a phobl nad ydynt yn siarad Saesneg/siaradwyr di-Gymraeg yng Nghymru i ddychwelyd ffurflen cyfrifiad. Mae hyn yn cynnwys darparu copi o gwestiynau'r Cyfrifiad a'r deunydd esboniadol ategol, ar gais, mewn**:**

- Braille, print bras a fformatau sain/gweledol
- 26 neu fwy o fersiynau ieithoedd tramor

4.42 Bydd y cyfleuster i lenwi ffurflenni'r Cyfrifiad ar-lein hefyd yn golygu bod cyfieithiadau o'r holiadur ar gael i bobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf efallai a/neu sydd â nam ar eu golwg. Bydd cymorth arbennig ar gael i unrhyw un sy'n ei chael yn anodd llenwi holiadur y Cyfrifiad, yn enwedig oherwydd iaith neu wendid. Caiff staff maes sy'n siarad Saesneg ac ieithoedd eraill a/neu arwyddwyr eu cyflogi, lle y bo'n bosibl. (Caiff rhagor o fanylion eu rhoi ym mharagraffau 4.67–4.73 am drefniadau cyhoeddusrwydd.)

## Trefniadau yng Nghymru o ran Deddf yr Iaith Gymraeg

4.43 Fel y nodwyd ym mharagraff 1.18, Awdurdod Ystadegau'r DU sy'n gyfrifol am gynnal y Cyfrifiad yng Nghymru. Bydd SYG yn gwneud trefniadau i sicrhau bod gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (fel y nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg diwygiedig SYG[39]) yn cael eu bodloni o ran y broses gyfrifo a'r rhyngwyneb â'r cyhoedd yng Nghymru. Yn arbennig, caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg o ffurflen y Cyfrifiad eu dosbarthu i bob cartref, a bydd fersiynau dwyieithog o'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth ar gael hefyd. Mae ymrwymiad i recriwtio aelodau o staff maes sy'n ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) (fel y nodwyd ym mharagraff 4.8), yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir nifer uwch na'r cyffredin o siaradwyr Cymraeg. Penodir Rheolwr dwyieithog y Cyfrifiad i oruchwylio'r broses gyfrifo yng Nghymru.

4.44 Rhoddir manylion y trefniadau deddfwriaethol ar gyfer cynnal y Cyfrifiad yng Nghymru ym Mhennod 7.

## Cyswllt lleol a chymunedol

4.45 Un o'r heriau mwyaf i'w goresgyn yng Nghyfrifiad 2011 fydd cyrraedd grwpiau o'r boblogaeth a dangyfrifir yn draddodiadol – y grwpiau 'anodd eu cyfrif' fel y'u gelwir. Mae ymchwil i'r mathau o bobl nas cynhwyswyd yng Nghyfrifiad 2001 a phroffiliau demograffig newidiol wedi helpu i lywio'r math o fentrau sydd eu hangen. Mae Rhaglenni Awdurdodau Lleol a Chyswllt Cymunedol yn elfennau allweddol o'r ymchwil hon. Mae Cyfrifiad 2011 yn adeiladu ar y profiad gwerthfawr a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd o Gyfrifiad 2001 drwy roi pwyslais ar fwy o gydweithio ag awdurdodau lleol a'r asiantaethau a'r sefydliadau cymunedol niferus dan sylw.

### Cyswllt awdurdod lleol

4.46 Y partneriaid gorau i weithio gyda SYG i sicrhau'r cwmpas mwyaf posibl yw awdurdodau lleol, y mae eu hangen am wybodaeth leol ddibynadwy yn gymhelliant cryf i helpu i nodi a chyrraedd poblogaethau anodd eu cyfrif lleol. Drwy gynnwys awdurdodau lleol yn gadarnhaol yn y gwaith o ddatblygu rhestrau

cyfeiriadau a sicrhau eu hansawdd, er enghraifft, a'u hannog i hyrwyddo manteision y Cyfrifiad yn eu hardaloedd, mae SYG yn ceisio gwella'r cwmpas. Mae mentrau o'r fath yn anelu at nid yn unig gwmpasu'r grwpiau difreintiedig hysbys megis pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig a phobl hen iawn, ond bydd yn galluogi SYG i dargedu adnoddau at ardaloedd lle gwyddir bod nodweddion sy'n gysylltiedig â chwmpas gwael.

4.47 Mae SYG am gael budd o adnoddau a gwybodaeth awdurdodau lleol mewn perthynas â'u hardaloedd lleol i wella'r broses gyfrifo, a bydd awdurdodau lleol yn eu tro yn cael budd o ganlyniadau cyfrifiad gwell. Ystyriwyd y ffordd fwyaf effeithlon i staff maes y Cyfrifiad ddefnyddio rhwydweithiau lleol presennol gydag awdurdodau lleol wrth baratoi ar gyfer Prawf Cyfrifiad 2007 ac Ymarfer y Cyfrifiad yn 2009. Ymhlith y meysydd y cytunwyd arnynt o ran gweithio mewn partneriaeth mae:

- nodi poblogaethau anodd eu cyfrif drwy wybodaeth leol a chymunedol
- datblygu ac ardystio rhestrau cyfredol o gyfeiriadau
- helpu i recriwtio staff maes
- darparu cymorth logistaidd, megis swyddfeydd lleol
- gwaith hyrwyddo a chyhoeddusrwydd
- gwerthusiadau

4.48 Mae'n bwysig i SYG bod awdurdodau lleol yn cytuno ar strategaeth gyfrifo Cyfrifiad 2011, yn enwedig ar lefel y Prif Weithredwr, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o anghytuno a diffyg hyder yn ansawdd y canlyniadau terfynol i'r eithaf. Bydd SYG yn annog awdurdodau lleol i benodi rheolwyr cyswllt cyfrifiad ffurfiol i weithredu fel hyrwyddwyr y cyfrifiad o fewn yr awdurdod a gweithio gydag uwch reolwyr maes.

4.49 Cysylltir ag awdurdodau lleol hefyd drwy gyrff arweiniol amrywiol megis y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), yr Asiantaeth Gwella a Datblygu (IDeA), a'r Fforwm Arweinyddiaeth Etholiadol (ELF) a fu'n gyfrwng i benodi 'hyrwyddwyr Rhanbarthol y Cyfrifiad' sy'n cynrychioli Prif Weithredwyr arweiniol rhanbarthol i annog awdurdodau lleol i weithio gyda SYG i gynnal cyfrifiad llwyddiannus.

4.50 Sefydlwyd Grŵp Llywio Cyswllt Awdurdodau Lleol yn cynnwys cynrychiolwyr o SYG, awdurdodau lleol a CLlL ym mis Medi 2005 i oruchwylio'r broses o ddatblygu'r gwaith hwn.

### Cyswllt cymunedol

4.51 Datblygwyd Rhaglen Cyswllt Cymunedol arloesol Cyfrifiad 2001 ymhellach i sefydlu cyswllt â grwpiau cymunedol ac asiantaethau perthnasol. Mewn ymateb i argymhellion adroddiad Pwyllgor Dethol y Trysorlys ar Gyfrifiad 2001[9]

cychwynnwyd y Rhaglen hon yn llawer cynharach yn y cylch cynllunio (yn 2006). Amcanion penodol Rhaglen 2011 yw:

- annog pobl i gymryd rhan yn y Cyfrifiad drwy roi cyhoeddusrwydd iddo a thanlinellu ei ddefnydd a'i werth
- helpu i ddarparu ffynhonnell bosibl o staff maes
- rhoi help ac arweiniad i gymunedau lleol ac aelodau unigol o'r cyhoedd

4.52 Yn ogystal, bydd y Rhaglen yn ceisio helpu i ddarparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth ar lefel ardal leol i staff maes.

4.53 Mae Grŵp Cynghori ar Amrywiaeth y Cyfrifiad (un o ddau Grŵp Cynghori newydd a sefydlwyd fel rhan o'r trefniadau ymgynghori ar gyfer Cyfrifiad 2011 – gweler paragraff 2.3) hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad gwerthfawr ar gysylltu â chymunedau lleol a sefydliadau allweddol megis y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Age Concern, y Rhwydwaith Rhyng-Ffydd, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol ac eraill. Yn ogystal, mae SYG wedi sefydlu cysylltiadau dwyochrog â'r rhain a sefydliadau cysylltiedig eraill a grwpiau mantell sy'n cynrychioli poblogaethau lleiafrifol a grwpiau â diddordeb arbennig.

## Gorfodi'r gofyniad cyfreithiol i lenwi ffurflen cyfrifiad

4.54 Gwerth y Cyfrifiad o gymharu ag unrhyw ffynhonnell arall o ddata ystadegol yw y dylai anelu at gynnwys y boblogaeth gyfan heb unrhyw eithriad, ac felly, cred Awdurdod Ystadegau'r DU ei bod yn angenrheidiol parhau i fabwysiadu polisi clir ar gyfer erlyn troseddwyr, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd cael ymateb gan bob cartref.

4.55 Ymhob achos, p'un a ymatebir i'r Cyfrifiad drwy ddychwelyd ffurflen yn y post, ei llenwi ar-lein, neu ei chasglu wrth stepen y drws, ni chyflawnir y rhwymedigaeth statudol i lenwi ffurflen hyd nes y bydd Swyddfa'r Cyfrifiad neu staff maes lleol yn cael holiadur wedi ei lenwi. Deiliad y cartref (neu gyd-ddeiliaid y cartref) sydd bob amser yn gyfrifol am fodloni'r gofyniad statudol i lenwi ffurflen. Bydd unrhyw un sy'n gwrthod cydymffurfio â'r gofyniad statudol i lenwi ffurflen cyfrifiad yn agored i erlyniad a dirwy, sef uchafswm o £1,000 ar hyn o bryd.

4.56 Yn ei adroddiad ar Gyfrifiad 2001 nododd Pwyllgor Dethol y Trysorlys[9] y nifer gymharol isel o achosion a gyfeiriwyd i'w herlyn, a chwestiynodd pa neges yr oedd hyn yn ei rhoi o ran pa mor ddifrifol y mae SYG yn ystyried y drosedd. Bydd y wybodaeth sydd ar gael o system olrhain ffurflenni Cyfrifiad 2011 yn galluogi SYG i fonitro pob holiadur, a bydd yn darparu tystiolaeth fwy cadarn o'r methiant i lenwi ffurflen nag ar gyfer Cyfrifiad 2001, pan gafodd anawsterau penodol gyda gwasanaethau post lleol ac achos difrifol o argyfwng clwy'r traed a'r genau ar y pryd effaith ddifrifol ar allu SYG i olrhain symudiad ffurflenni.

4.57 Os bydd deiliaid cartrefi yn honni, yn wir neu'n anwir, fod holiadur wedi'i lenwi wedi'i ddychwelyd drwy'r post, bydd SYG mewn sefyllfa well i gadarnhau hyn ar unwaith a dosbarthu ffurflenni newydd lle y bo angen os nad oes unrhyw gofnod o ddychwelyd ffurflen. Bydd gwrthod llenwi ffurflen o dan yr amgylchiadau hyn yn destun yr un ddirwy.

4.58 Gan adlewyrchu baich penodol y ddyletswydd a osodwyd ar staff maes cyfrifo yn flaenorol i gynnal cyfweliadau ffurfiol o dan rybudd fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, bydd SYG yn defnyddio staff wedi'u hyfforddi'n arbennig i gynnal ymweliadau dilynol mewn achosion lle ceir arwydd clir bod deiliad cartref yn gwrthod llenwi ffurflen. O ganlyniad gellir casglu tystiolaeth sy'n ddigon cadarn i fodloni'r llysoedd pryd bynnag y ceir erlyniad.

## Cwmpas ac ansawdd data

4.59 Mae ansawdd wrth wraidd cynllunio Cyfrifiad 2011, ac roedd a wnelo llawer o'r syniadau arloesol a dreialwyd ym Mhrawf Cyfrifiad 2007 â gwella ansawdd prosesau'r Cyfrifiad ac, felly, y data. Mae cyfrifiad, yn ôl ei natur, yn anelu at gwmpasu'r boblogaeth gyfan, ond yn anochel gwneir camgymeriadau. Bydd cynllun cyfrifiad da yn cydnabod hyn ac yn darparu ar eu cyfer. Er enghraifft, gallai Cofrestr Cyfeiriadau – waeth pa mor gyfredol ydyw – fethu â chofnodi pob preswylfan mewn ardal ar adeg y Cyfrifiad; gallai staff maes fethu â nodi pob cartref mewn annedd aml-feddiannaeth; efallai na chaiff pob aelod o gartref a gofnodwyd ei gynnwys; ceir tuedd diffyg ymateb pan na fydd pobl yn llenwi ffurflen cyfrifiad neu pan na fyddant yn ateb pob cwestiwn; ac efallai y ceir gwallau o ran y system neu'r gwaith prosesu hefyd.

4.60 Mae'r gwelliannau a gyflwynir ar gyfer Cyfrifiad 2011 wedi'u cynllunio i leihau nifer y gwallau hyn i'r eithaf; er enghraifft:

- bydd creu Cofrestr Cyfeiriadau gyfredol y cytunir arni gyda rhanddeiliaid, ynghyd â system olrhain ffurflenni sydd ar waith mewn amser real, yn fodd i sicrhau bod holiaduron yn cael eu dosbarthu i bob cyfeiriad preswyl, ynghyd â'u casglu oddi yno, ac y gellir monitro cyfraddau dychwelyd ffurflenni mewn amser real
- bydd ailgynllunio holiadur y Cyfrifiad a'r cyfleuster i'w ddychwelyd ar-lein yn ei gwneud yn haws i ymatebwyr lenwi'r ffurflen ac i SYG brosesu'r data
- nod y broses o dargedu adnoddau maes mewn ardaloedd lle ceir ymateb isel yw gwella'r cwmpas cyffredinol

4.61 Peidio ag ymateb neu dangyfrifo yw'r gwall mwyaf sylweddol. Er i raddau'r tangynhwysiad cyffredinol a amcangyfrifwyd yng Nghyfrifiad 2001 (6 y cant ym Mhrydain Fawr) fod yn fach o gymharu ag arolygon cenedlaethol y llywodraeth, roedd yn uwch nag yn 1991 (4 y cant), gan adlewyrchu patrwm rhyngwladol o ddiffyg ymateb cynyddol yn y Cyfrifiad. Fodd bynnag, yr hyn a oedd yn fwy pwysig oedd ei amrywiad ar draws is-grwpiau o'r boblogaeth a gwahanol rannau o'r wlad.

4.62 Y nodau ar gyfer 2011 yw sicrhau bod ansawdd cyffredinol y data mor uchel â phosibl a lleihau'r gwahaniaethau mewn ansawdd rhwng ardaloedd. Mae SYG yn anelu at ddatblygu strategaeth i sicrhau ansawdd cronfa ddata Cyfrifiad 2011 cyn rhyddhau unrhyw ganlyniadau (gweler paragraffau 5.18–5.20).

### Arolygon Cwmpas ac Ansawdd y Cyfrifiad

4.63 Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad fydd y brif ffynhonnell o wybodaeth am raddau'r tangyfrifo yn y Cyfrifiad a'i ddosbarthiad. Bydd yr arolwg hwn yn arolwg sampl ar wahân y bwriedir ei gynnal ar hyn o bryd dros gyfnod o dair i bedair wythnos yn dechrau chwe wythnos ar ôl y Cyfrifiad ei hun, a bydd ar ffurf cyfweliad byr i gadarnhau cwmpas cartrefi a phobl o fewn cartrefi, a chasglu nodweddion demograffig sylfaenol (megis oedran, rhyw, statws priodasol, grŵp ethnig a gweithgarwch economaidd). Caiff y wybodaeth a gesglir yn yr arolwg ei defnyddio, ar y cyd â data'r Cyfrifiad ei hun, i helpu i lunio cyfres gyson o gyfrifiadau sy'n seiliedig ar y cyfrifiad, a fydd yn sail newydd i'r gyfres o amcangyfrifon canol blwyddyn blynyddol o'r boblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd.

4.64 Cynhaliwyd arolygon ôl-gyfrifo tebyg ar gyfer Cyfrifiadau blaenorol ar sail wirfoddol. Mewn ymgais i wella cyfraddau ymateb ar gyfer 2011, mae SYG yn ymchwilio i ymarferoldeb cynnal Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad ar sail orfodol o dan ddeddfwriaeth bresennol y Cyfrifiad.

4.65 Bydd hyn yn datblygu ac yn gwella'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer Cyfrifiad 2001 a gafodd groeso cynnes gan ddefnyddwyr[15,17]. Bydd SYG yn ymgynghori â defnyddwyr ar y dulliau methodolegol i'w mabwysiadu ac yn eu hysbysu am hynny, a bydd yn asesu ansawdd y data a gynhyrchir ynghyd ag adrodd arno.

4.66 Cynhelir Arolwg Ansawdd bach, ar wahân ar ôl y Cyfrifiad i fesur cywirdeb ymatebion i gwestiynau unigol.

## Cyhoeddusrwydd

4.67 Er ei bod yn ofynnol i bob cartref a phob preswyliwr mewn sefydliad cymunedol yng Nghymru a Lloegr lenwi ffurflen y Cyfrifiad yn ôl y gyfraith, ni fyddai'n bosibl cynnal Cyfrifiad heb gydweithrediad y cyhoedd. Mewn cydweithrediad agos â Swyddfeydd y Cyfrifiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, bydd SYG yn trefnu cyhoeddusrwydd i egluro diben a gwerth y Cyfrifiad, annog deiliaid cartrefi i ddychwelyd ffurflenni wedi'u cwblhau a sicrhau eu bod yn gwybod pryd a sut i wneud hynny, tawelu meddyliau o ran cyfrinachedd a diogelu data, ac ymdrin â materion penodol eraill sy'n peri pryder i'r cyhoedd pan fyddant yn codi. Tynnir sylw at y gofyniad cyfreithiol i lenwi ffurflen y Cyfrifiad.

4.68 Datblygwyd brand y Cyfrifiad â'r slogan 'Helpu i lunio'r dyfodol' (Ffigur 5) fel delwedd adnabyddus y Cyfrifiad i'r cyhoedd, ac fe'i mabwysiedir ar bob cyfle priodol. Caiff y brand ei ddefnyddio i hyrwyddo ymwybyddiaeth o Ymarfer Cyfrifiad 2009 yn yr ardaloedd a ddewisir.

4.69 Bydd SYG hefyd yn parhau â'i rhaglen o ddarparu gwybodaeth am y Cyfrifiad i'r cyfryngau a defnyddwyr y canlyniadau ystadegol drwy wybodaeth reolaidd a phapurau ymgynghori, drwy gynnal sioeau teithiol ledled y wlad, drwy gymryd rhan mewn cynadleddau, seminarau a gweithdai, drwy ei gwasanaeth newyddion ar-lein rheolaidd *Census News*, a thrwy gysylltiadau uniongyrchol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r Cyfrifiad yng Nghymru drwy *Cylchlythyr y Cyfrifiad* a gyhoeddir bob deufis.

4.70 Sail cysylltiadau cyhoeddus da fydd sicrhau bod staff maes yn cael eu briffio a'u hyfforddi i roi cymaint o gymorth â phosibl lle bydd angen iddynt ddosbarthu ffurflenni'r cyfrifiad a chasglu ffurflenni wedi'u llenwi, a bod cyswllt llawn gwybodaeth â grwpiau cymunedol lleol. Prif amcanion ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol a lleol fydd:

- *addysgu* – drwy gynyddu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o Gyfrifiad 2011 ymhlith y cyhoedd, mewn ardaloedd daearyddol allweddol ac ymhlith grwpiau anodd eu cyfrif
- *annog* – drwy roi cyhoeddusrwydd a chefnogaeth i'r broses o recriwtio staff maes o grwpiau cymunedol cyhoeddus ac allweddol, a hysbysu'r cyhoedd yn enwedig mewn ardaloedd anodd eu cyfrif ac ymhlith grwpiau anodd eu cyfrif y bydd angen iddynt gymryd rhan

**Ffigur 5 Logo'r Cyfrifiad 2011**



- *cyd-gysylltu* – drwy roi cyhoeddusrwydd a chefnogaeth i'r broses o ddosbarthu, llenwi a dychwelyd ffurflenni'r Cyfrifiad gan y cyhoedd a grwpiau anodd eu cyfrif, a rhoi sicrwydd clir ynghylch cyfrinachedd a diogelwch
- *gorfodi* – drwy sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl, o bob grŵp o'r boblogaeth yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau cyfreithiol i lenwi a dychwelyd eu holiaduron Cyfrifiad
- *egluro'r* canlyniadau a hyrwyddo gwerth Cyfrifiad 2011

4.71 Ceisir sicrhau cyhoeddusrwydd o'r fath drwy ymgyrch y telir amdani, gan gyflogi asiantaeth ar gontract, a thrwy gydweithrediad y rhanddeiliaid hynny â diddordeb arbennig mewn gweld Cyfrifiad llwyddiannus, megis awdurdodau lleol.

4.72 Dosberthir taflen eglurhaol gyda phob ffurflen Cyfrifiad, a bydd y cyhoeddusrwydd yn cynyddu wrth i Ddiwrnod y Cyfrifiad agosáu. Bydd y Ganolfan Gyswllt, a fydd yn darparu llinell gymorth dros y ffôn gyda dehonglwyr ieithoedd tramor, ar gael i ateb ymholiadau gan y cyhoedd tra y cynhelir y Cyfrifiad. Yn ogystal, darperir gwefan Cymorth Cyfrifiad yn ystod cyfnodau gweithredol yr Ymarfer a'r Cyfrifiad.

4.73 Fel y nodwyd ym mharagraff 4.43, bydd yr holiadur ar gyfer Cymru ar gael i'w lenwi yn Gymraeg neu Saesneg, gyda chyfieithiadau yn ogystal â chymorth arall a gwybodaeth ategol ar gael yn ddwyieithog drwy'r wefan. Bydd cyfieithiadau o gwestiynau'r Cyfrifiad i mewn i 26 neu fwy o ieithoedd tramor hefyd ar gael ar-lein i helpu ymatebwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae'r ieithoedd y bydd cyfieithiadau ar gael ar eu cyfer yn debygol o gynnwys y rhai a ddangosir ym Mlwch 3. Rhain yw'r ieithoedd a fabwysiadwyd yng Nghyfrifiad 2001, ond mae'n debygol y bydd angen cyfieithiadau mewn ieithoedd eraill yn 2011.

**Blwch 3 Yr ieithoedd y mae'n debygol y caiff cwestiynau a deunydd ategol Cyfrifiad 2011 eu cyfieithu iddynt**

| | | |
|---|---|---|
| Albaneg/Cosofeg | Groeg | Somalieg |
| Almaeneg | Gwjarati | Swahili |
| Arabeg | Hindi | Tamil |
| Bengaleg | Portiwgaleg | Tsieinëeg |
| Corëeg | Pwnjabeg | Tyrceg |
| Croateg | Pwyleg | Wrdw |
| Eidaleg | Rwseg | |
| Farsi/Perseg | Sbaeneg | |
| Fietnameg | Serbeg | |
| Ffrangeg | Siapaneeg | |

## Gosod rhannau o weithredu'r Cyfrifiad ar gontract allanol

4.74 Fel y nodir mewn rhannau eraill o'r Papur Gwyn hwn, mae SYG yn gosod rhai o'i gweithgareddau a'i phrosesau ar gyfer Cyfrifiad 2011 ar gontract allanol i gyflenwyr allanol. Nid yw'r strategaeth hon yn un newydd; yn draddodiadol mae'r Cyfrifiad wedi defnyddio gwasanaethau unigolion neu asiantau, nad ydynt yn rhan o staff parhaol SYG, i gynnal rhannau o weithrediad y Cyfrifiad.

4.75 Ar gyfer Cyfrifiad 2001, er enghraifft, gosodwyd y meysydd canlynol o waith ar gontract allanol am y tro cyntaf:

- gweinyddu taliadau'r staff maes
- rheoli canolfan alwadau i redeg llinell gymorth y Cyfrifiad
- casglu ffurflenni'r Cyfrifiad wedi'u llenwi drwy wasanaeth post
- cipio a chodio data cyfrifiad yn electronig
- chynhyrchu cofnodion archif

4.76 Yn ei hadroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus[14], nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod contractau allanol wedi helpu SYG i gyflwyno rhai syniadau arloesol pwysig i gynnal Cyfrifiad 2001. Y gwerth sydd ynghlwm wrth SYG yn gwneud hyn eto yw bod cyflenwyr allanol yn cynnig cryn brofiad ac arbenigedd technegol na fyddai fel arall ar gael i'r rhai sy'n cymryd y Cyfrifiad, ac sy'n galluogi SYG i ganolbwyntio ar ei phrif swyddogaeth o gynnal y Cyfrifiad yn hytrach na datblygu gweithdrefnau a sgiliau mewnol nad ydynt yn rhan o'i chymwyseddau craidd. At hynny, mae cylch 10 mlynedd y Cyfrifiad, yr amserlen brosesu fyr a systemau data helaeth gofynnol yn golygu bod contractau allanol yn cynnig effeithlonrwydd a gwerth am arian.

4.77 Fodd bynnag, nododd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Gyfrifiad 2001[14] hefyd nifer o ddiffygion o ran rheoli'r broses gaffael a gwnaeth nifer o argymhellion ar y trefniadau ar gyfer caffael gwasanaethau ar gyfer gweithrediadau cyfrifiad yn y dyfodol.

4.78 O ganlyniad, unwaith eto mae SYG yn rhoi nifer o wasanaethau ar gontract allanol fel rhan bwysig o sicrhau gwerth am arian y Cyfrifiad yn 2011, ond mae wedi cwblhau cam caffael y broses yn llawer cynharach yn y rhaglen gynllunio na'r tro diwethaf. Dechreuodd y broses o ddewis cyflenwr ar gyfer prif ran y gwaith prosesu data ym mis Medi 2005, ac ar ôl gwerthuso ymgeiswyr yn helaeth, cafodd dau gwmni – Lockheed Martin UK a T-Systems Ltd – eu rhoi ar y rhestr fer ym mis Medi 2006, a gweithiodd y ddau gyda SYG i gyflawni elfennau gwahanol o Brawf Cyfrifiad 2007. Yn sgîl mireinio gofynion Cyfrifiad 2011 a gwaith gwerthuso pellach, dewiswyd un cyflenwr – Lockheed Martin UK – a chyhoeddwyd y penderfyniad ar 28 Awst 2008. (Gweler paragraffau 6.17–6.18 am y goblygiadau o ran cyfrinachedd y Cyfrifiad sy'n deillio o benodi'r contractwr.)

4.79 Penodwyd darparwyr eraill ar ôl ymarferion caffael tebyg i ddarparu gwasanaethau ychwanegol ac ategol. Yn ogystal â’r holl wasanaethau a osodwyd ar gontract allanol yng Nghyfrifiad 2001, mae’r prosesau caffael amrywiol yn cwmpasu:

- recriwtio a hyfforddi staff maes
- dosbarthu ffurflenni drwy wasanaeth post
- systemau olrhain holiaduron/ffurflenni
- cyfieithu, argraffu a dosbarthu deunydd nad oes a wnelo â'r holiadur
- darparu cyfleusterau ymateb ar-lein ar gyfer cwblhau ffurflenni a hunan-help i'r cyhoedd

4.80 Gan gydnabod pryderon y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, mae SYG, ar gyfer 2011, wedi cyflwyno rheolaethau llawer mwy llym ar gyfer rheoli contractau, hyfforddiant a’r gyllideb mewn perthynas â’r prosesau caffael nag ar gyfer Cyfrifiad 2001, ac mae’r rhain hefyd wedi bod yn destun proses graffu allanol fanwl gywir drwy weithdrefnau Adolygiad Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

4.81 Dyfernir contractau eraill maes o law, i gwmpasu gweithgareddau megis rheoli’r ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu.



5

# Prosesu'r data a chyhoeddi canlyniadau'r Cyfrifiad

# 5 Prosesu'r data a chyhoeddi canlyniadau'r Cyfrifiad

*"One of the most basic decisions in a census operation, and indeed a key decision about the quality of census results, is the trade-off between timeliness and accuracy. This is particularly important in designing the output strategy, in that the decision affects not only the dissemination team but all the preceding stakeholders in the census programme. In general, it can be expected that the faster a process is undertaken the greater the level of inaccuracy in the results of that process. It is also a general rule that users of census data will expect a high level of accuracy in the information provided by an official census agency. The census agency will have to manage this trade-off."* **Adran Materion Economaidd a Materion Cymdeithasol y Cenhedloedd Unedig**[40]

## Cyflwyniad

5.1 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cydnabod mai dim ond os yw'r canlyniadau yn hygyrch i ddefnyddwyr mewn modd cyflym, clir a defnyddiadwy y gellir cyfiawnhau buddsoddi amser ac adnoddau mewn cyfrifiad cenedlaethol. Fel nod Cyfrifiad 2001[41] hefyd, mae SYG am i ddatblygiadau technolegol gael eu defnyddio yng Nghyfrifiad 2011 er mwyn gwella cywirdeb, amseroldeb, hygyrchedd a defnyddiadwyedd canlyniadau a gyhoeddir.

5.2 Yn arbennig, mae'r Awdurdod Ystadegau yn cynnig cyflwyno dau syniad arloesol mawr ym maes cipio a rhannu data:

- y cyfle i lenwi holiaduron y Cyfrifiad ar-lein drwy gysylltiad Rhyngrwyd diogel
- galluogi'r cyhoedd i gael yr holl ganlyniadau cenedlaethol a lleol safonol am ddim mewn cyfrwng electronig o'r wefan Ystadegau Gwladol

## Prosesu data

5.3 Fel cyfrifiadau blaenorol, caiff Cyfrifiad 2011 ei brosesu ar dri phrif gam. Mae *prosesu mewnbwn* yn cynnwys dau gam: y prif gam *cipio a chodio data*, a'r *gwaith prosesu 'eilaidd'* dilynol, sy'n cwmpasu'r cam golygu a phriodoli a gynhelir ar y cyd ag asesu cwmpas a phrosesau addasu a datgelu ystadegol. Yna bydd *prosesu allbwn* yn cynnwys creu tablau ystadegol a chynhyrchion eraill o gronfa ddata allbynnau, a rhannu'r cynhyrchion hyn ymhlith defnyddwyr.

5.4 Mae'r swm enfawr o wybodaeth i'w phrosesu unwaith y dychwelir ffurflenni'r Cyfrifiad wedi'u llenwi – 2 biliwn o gelloedd tabl allbwn amcangyfrifedig yn 2001 – a'r amser byr sydd ar gael i wneud hynny, yn draddodiadol wedi ei gwneud yn ofynnol cyflogi nifer fawr o staff clercol dros dro, a system brosesu gyfrifiadurol a brofwyd yn llawn i osgoi gwallau, diffygion ac oedi. Cyn 2001, proseswyd ffurflenni'r Cyfrifiad yn fewnol bob tro, ond yn dilyn Prawf Cyfrifiad 1997 penderfynwyd y gellid sicrhau gwell gwerth am arian drwy osod y prif wasanaethau sganio, cipio a chodio data ar gontract allanol ar gyfer Cyfrifiad 2001. Dilynir trywydd tebyg ar gyfer y gwaith o brosesu data Cyfrifiad 2011 (gweler paragraff 4.74).

## Gweithrediadau cipio data

5.5 Bydd ymatebwyr sydd am lenwi eu holiadur Cyfrifiad ar-lein yn gallu gwneud hynny drwy wefan benodol ar gyfer Cyfrifiad 2011. Bydd yr holiadur ar-lein yn debyg i'r holiadur papur o ran trefn a geiriad cwestiynau, ond bydd yn cynnwys llwybr sy'n dibynnu ar yr ymatebion i gwestiynau penodol ac, o bosibl, rywfaint o ddilysu meysydd penodol ar-lein.

### Sganio a chipio data

5.6 Caiff holiaduron wedi'u llenwi eu sganio a chaiff y data ei gipio a'i godio. Bydd rheolau dilysu a golygu yn gymwys i bob maes a gaiff ei gipio. Caiff yr holl ddata o bob llwybr ymateb ei gipio a'i gyfuno'n un llif data cyn trosglwyddo ymatebion testun i'r system godio.

5.7 Caiff ymatebion testun i gwestiynau megis y rhai sy'n ymwneud â galwedigaeth a diwydiant eu codio drwy gyfuniad o godau awtomatig a chodau llaw a gynorthwyir yn gyfrifiadurol. Ategir y system godio awtomatig gan ddosbarthiadau a mynegeion a ddarperir gan SYG, gyda system godio ryngweithiol i alluogi gweithredwyr i gael gafael ar y wybodaeth hon a deunydd cyfeirio arall.

5.8 Caiff staff pencadlys y Cyfrifiad weld data wedi'i gipio a'i godio yn ystod y gwaith prosesu er mwyn monitro cynnydd a dadansoddi ansawdd y data. Pan fydd y gwaith cipio a chodio wedi dod i ben, caiff data ei gyflwyno i SYG mewn grwpiau o awdurdodau lleol.

5.9 Pan gaiff SYG yr holl ddata a delweddau, a phan fydd yr archif electronig wedi'i greu, caiff holiaduron papur eu dinistrio yn unol â chanllawiau diogelwch y Llywodraeth, tra'n parhau i fodloni'r gofyniad penodol i ddiogelu gwybodaeth cyfrifiad a chyflawni polisïau ailgylchu. Caiff pob system a chyfrwng storio ei ddileu'n ddiogel yn unol â safonau diogelwch y Llywodraeth.

## Prosesu ‘eilaidd’

5.10 Ar ôl i’r data gael ei gipio a’i godio, bydd angen ei wirio’n ofalus a’i addasu cyn gallu cynhyrchu allbynnau credadwy a dibynadwy sy’n diwallu anghenion defnyddwyr. Bydd angen ei addasu i lenwi unrhyw ymatebion sydd ar goll ar holiadur y Cyfrifiad; cywiro data a gafodd ei gipio ar gam yn ystod y gweithrediadau cipio data; a pharatoi’r data i’w rannu â defnyddwyr. Gelwir y gyfres o systemau a ddatblygwyd i lanhau ac addasu’r data er mwyn gallu paratoi cronfa ddata gwbl gyson o gofnodion cyfrifiad fel sail y broses o rannu allbwn yn ‘brosesu eilaidd’ (gan eu bod yn cael eu cyflawni ar ôl y prif weithrediadau cipio a chodio data). Caiff y prosesau hyn eu cyflawni o fewn SYG a byddant yn dechrau pan ddarperir data gan y cyflenwr yn dilyn y prosesau cipio a chodio data a ddisgrifir uchod.

### Llwytho data

5.11 Bydd y broses lwytho yn cymryd y ffeiliau data oddi wrth y contractwr prosesu ac yn cynnal cyfres o wiriadau dilysu ac ansawdd wrth lwytho’r data i gronfeydd data SYG. Bydd y gwiriadau dilysu ac ansawdd yn sicrhau bod cywirdeb strwythurol y data yn bodloni disgwyliadau ac na chyflwynwyd unrhyw wall systematig ar y cam cipio a chodio data. Yn ogystal, bydd y gwiriadau’n cadarnhau a yw’r wybodaeth ofynnol yn bodoli i’r ymateb gael ei ystyried yn wir ymateb ac nid yn ymateb a grëwyd yn anghywir yn ystod y broses o gipio data.

### Golygu a phriodoli

5.12 Mae a wnelo’r broses golygu a phriodoli â chywiro ymatebion anghyson neu ymatebion a lenwyd yn rhannol. Caiff ymatebion o’r fath eu golygu yn ôl rheolau a bennwyd ymlaen llaw os nad yw’r ateb yn gydnaws â gweddill yr ymatebion ar ffurflen y cyfrifiad. Er enghraifft, ni ddylai unigolyn y cofnodir ei fod o dan 16 oed ateb cwestiynau ar weithgarwch economaidd.

5.13 Ar gyfer ymatebion a lenwyd yn rhannol, neu ar gyfer ffurflenni lle nad atebwyd nifer o gwestiynau, cynhyrchir ymateb sy’n gyson ag atebion eraill ar yr holiadur yn seiliedig ar ymatebion i’r un cwestiwn gan bobl sy’n byw mewn eiddo cyfagos neu gartrefi tebyg. Mae’r broses golygu a phriodoli hon yn sicrhau bod canlyniadau’r Cyfrifiad yn gyflawn ac yn gyson. Drwy wneud hyn, mabwysiedir y broses ystadegol safonol a ddefnyddiwyd ar gyfer Cyfrifiad 2001 ac a ddefnyddir yn fwy eang ar draws allbynnau eraill SYG, er ar raddfa lai.

5.14 Mae canlyniadau cyflawn a chyson yn golygu na fydd unrhyw fylchau mewn tablau ystadegol sy’n deillio o ymatebion ‘ddim yn hysbys’ neu ‘heb ei nodi’ (ar wahân i’r rhai sy’n ymwneud â’r cwestiwn gwirfoddol ar grefydd) ac na fydd yn rhaid i ddefnyddwyr wedyn lunio eu hamcangyfrifon eu hunain ar gyfer gwerthoedd

coll. Mae SYG mewn sefyllfa well na'r defnyddiwr i gywiro ymatebion anghyflawn neu annilys, neu i amcangyfrif yn gywir werthoedd ar gyfer newidynnau deilliedig a oedd yn seiliedig ar fwy nag un eitem (megis Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol NS-SEC).

### Asesu cwmpas ac addasu

5.15 Yn y pen draw, mae llwyddiant y Cyfrifiad yn dibynnu'n fawr ar ei gywirdeb a pha mor dda mae'n gallu amcangyfrif y boblogaeth a'i nodweddion. Ni fydd y Cyfrifiad byth yn cyfrif pob cartref ac unigolyn. Cynhelir y broses angenrheidiol o asesu'r cwmpas ac addasu i ddarparu amcangyfrifon cenedlaethol ac is-genedlaethol cywir o'r boblogaeth. Yng Nghyfrifiad 2001, galwyd y broses hon yn Gyfrifiad Un Rhif, a addasodd ganlyniadau'r Cyfrifiad i gyfrif am bobl nas cynhwyswyd. Ar gyfer 2011, dilynir trywydd tebyg ond gyda datblygiadau yn canolbwyntio ar nifer o feysydd i wella'r fethodoleg.

5.16 Mae'r strategaeth yn gymharol syml. Defnyddir arolwg ôl-gyfrifo â ffocws iddo (Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad) i fesur tangyfrifo drwy gynnal proses ar wahân o gyfrifo sampl o ardaloedd (gweler paragraffau 4.63–4.65). Yna caiff canlyniadau'r Arolwg eu paru, ar lefel unigol, â data cyfatebol Cyfrifiad 2011, gan nodi nifer a nodweddion y rhai nas cynhwyswyd yn y Cyfrifiad. Defnyddir gwybodaeth gyfunol y Cyfrifiad a'r Arolwg, ynghyd â modelau ystadegol, i amcangyfrif nifer y bobl nas cynhwyswyd yn y Cyfrifiad. Yna caiff y bobl a'r cartrefi yr amcangyfrifwyd na chawsant eu cynnwys eu hychwanegu at y gronfa ddata gan ddefnyddio technegau a phrosesau tebyg i'r cam golygu a phriodoli a ddisgrifiwyd ym mharagraffau 5.12–5.14 uchod.

5.17 Er y dilynir trywydd tebyg yn 2011, bydd elfennau ychwanegol nad oeddent yn bodoli yn 2001. Yn arbennig, bydd y bwriad i gasglu gwybodaeth am ymwelwyr ac ail breswylfeydd, er mwyn meithrin dealltwriaeth o batrymau newidiol preswylfa arferol, yn dueddol o gymhlethu'r broses o asesu cwmpas. Er enghraifft, drwy baru ymwelwyr â chofnodion y Cyfrifiad a'r Arolwg, gall fod gwybodaeth ychwanegol ar gael i helpu i nodi preswylwyr nas cofnodwyd yn y Cyfrifiad na'r Arolwg. At hynny, ystyrir paru gwybodaeth o ffynonellau gweinyddol â'r Cyfrifiad er mwyn llywio'r broses o asesu cwmpas (ac ansawdd) yn well. Hefyd ystyrir paru cronfa ddata'r Cyfrifiad â'i hunan, yn enwedig pan fydd pobl yn rhoi manylion ail gartrefi, i asesu achosion o orgyfrif. Caiff ymarferoldeb yr ymarfer paru a'r cywirdeb y gellir ei gyflawni drwy hyn eu hasesu o hyd. Bydd y rhain yn dylanwadu ar gynllun terfynol yr Arolwg Cwmpas a'r broses addasu.

## Sicrhau ansawdd

5.18 Bydd prosesau sicrhau ansawdd ar waith i gynnal gwiriadau a, lle y bo angen, i wneud cywiriadau a gynllunnir i wella ansawdd data'r Cyfrifiad a sicrhau bod y cyfansymiau cyffredinol yn gredadwy. Gall y cysyniad o ansawdd gael ei ddisgrifio

fel 'addas at y diben' o ran anghenion defnyddwyr. Fel y nodwyd gan Adran Materion Economaidd a Materion Cymdeithasol y CU[40], mae a wnelo'r strategaeth ar gyfer gwella ansawdd â chydbwyso'r gwelliant a wneir a'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen bob tro.

5.19 Cynhelir proses sicrhau ansawdd ar gyfer canlyniadau Cyfrifiad 2011 drwyddi draw er mwyn sicrhau'r canlynol:

- bod y newidiadau a wneir ymhob proses yn gadarn ac nad ydynt yn cyflwyno gwall systematig
- bod yr amcangyfrifon cenedlaethol ac is-genedlaethol (yn arbennig, awdurdodau lleol) yn gredadwy o gymharu â data o ffynonellau gweinyddol a chymaryddion demograffig

Caiff Adroddiad Ansawdd ei lunio i gyd-fynd â rhyddhau'r prif allbynnau ystadegol ac i'w hategu.

5.20 Ar ôl Cyfrifiad 2001, nododd gwaith ar yr amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth yr angen am addasiadau pellach i'r amcangyfrifon mewn nifer fach o feysydd. Yr anhawster oedd na chafodd y materion hyn eu datrys tan 2004. Ar gyfer Cyfrifiad 2011, mae SYG yn cydnabod y bydd yn bwysig ymgorffori gwelliannau a fydd yn atal y problemau hyn rhag codi neu, os byddant, eu datrys yn gyflymach, gan gynnwys ystyried ffynonellau eraill a gwybodaeth leol fel y bo'n briodol. Mae a wnelo hyn â gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol (yn arbennig awdurdodau lleol) cyn y Cyfrifiad – ymrwymiad sy'n mynd rhagddo eisoes.

## Cynhyrchu allbwn

5.21 Pan fydd y canlyniadau wedi bod yn destun proses sicrhau ansawdd, nid yn unig o ran amcangyfrifon cenedlaethol ac is-genedlaethol o'r boblogaeth ond hefyd at ddiben cysondeb pob nodwedd, bydd y gronfa ddata yn barod ar gyfer y gwaith o brosesu allbwn. Yn syml, mae a wnelo prosesu allbwn â nifer o gamau i greu cronfa ddata derfynol o allbwn a ddefnyddir i gynhyrchu canlyniadau i'w rhannu â defnyddwyr mewn sawl cyfrwng – adroddiadau papur, y we, a chyfryngau electronig. O fewn hyn, mae dwy broses allweddol y mae'n rhaid eu cynnal.

### Cymhwyso methodoleg rheoli datgelu ystadegol

5.22 Mae a wnelo rheoli datgelu ystadegol â chyfres o fesurau sy'n ategu ymrwymiadau cyfrinachedd Cyfrifiad 2011 (a nodir mewn mwy o fanylder ym Mhennod 6) na chaiff unrhyw ystadegau eu cynhyrchu sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod unigolyn (neu unrhyw wybodaeth am unigolyn) â chryn hyder. Gellir cymhwyso hyn i naill ai ddata cyn dablaidd pan y'i cynhelir fel rhan o'r broses eilaidd, neu ddata ôl-dablaidd pan ddaw'n rhan o brosesu allbwn (gweler paragraffau 6.5–6.9).

### Rhannu'r canlyniadau

5.23 Wrth rannu canlyniadau'r Cyfrifiad rhoddir cryn bwyslais ar y graddau yr ymatebir i ofynion defnyddwyr o ran cynnwys, fformat a sut y ceir gafael arnynt, ynghyd â safonau uchel wrth gynhyrchu ystadegau. Felly, mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig y dylai allbynnau fod ar ffurf sy'n bodloni gofynion newidiol defnyddwyr, ond mae'n rhagweld ei bod yn debygol y bydd gofyniad am grynodebau cenedlaethol, rhanbarthol ac awdurdod lleol, ynghyd ag adroddiadau ar ganfyddiadau allweddol ar bynciau penodol. Hefyd, mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig y dylai allbynnau fod ar gael mewn amryw gyfrwng er mwyn ei gwneud yn hawdd i'r defnyddiwr a'r cyhoedd fel ei gilydd gael gafael arnynt.

5.24 Gellir rhyddhau canlyniadau cyfrifiad mewn dwy ffordd o dan ddeddfwriaeth gyfredol. Yn gyntaf, mae adran 4 o Ddeddf Cyfrifiad 1920 yn ei gwneud yn ofynnol: i gyflwyno adroddiadau argraffedig ar y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr gerbron y Senedd a'u cyhoeddi; a darparu crynodebau ystadegol i ddefnyddwyr ar gais, ac am dâl, gan SYG. Yn ail, mae adran 20 o Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 yn caniatáu i Awdurdod Ystadegau'r DU (Bwrdd Ystadegau) gynhyrchu a chyhoeddi ystadegau sy'n ymwneud ag unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r Deyrnas Unedig neu unrhyw ran ohoni.

5.25 Caiff adroddiadau swyddogol y Cyfrifiad yng Nghymru eu cyflwyno gerbron y Senedd a'u cyflwyno hefyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gofyniad tebyg i Gofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon gyflwyno'r canlyniadau ar gyfer Cyfrifiad 2011 mewn adroddiadau i'w priod ddeddfwrfeydd. Er nad oes gofyniad statudol i gyflwyno adroddiadau o'r fath ar gyfer Prydain Fawr neu'r DU yn gyfan gwbl, bwriad yr Ystadegydd Gwladol yw y dylai canlyniadau ar gyfer Prydain Fawr a'r DU fod ar gael, pan fo'r data a gasglwyd yn caniatáu hynny, fel mater o flaenoriaeth unwaith y cwblheir y gwaith o brosesu'r data. Yn wir, bydd yr Ystadegydd Gwladol yn gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau'r DU i ddarparu canlyniadau'r Cyfrifiad i'r Undeb Ewropeaidd a Chomisiwn Ystadegol y Cenhedloedd Unedig. Felly, mae'n hanfodol sicrhau cydlyniad a chysondeb o ran cyflwyno allbynnau o'r Cyfrifiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon (lle caiff y cyfrifoldebau polisi eu datganoli i Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon).

5.26 Yn sgîl pryderon defnyddwyr nad oedd allbynnau Cyfrifiad 2001 wedi'u cydlynu'n ddigonol ar draws tair Swyddfa'r Cyfrifiad i allu cynhyrchu ystadegau cwbl gymaradwy ar gyfer y DU, argymhellodd Pwyllgor Dethol y Trysorlys[9] y dylid sicrhau mwy o gytgord ledled y DU ar gyfer Cyfrifiad 2011 er mwyn cyflawni cysondeb o ran allbynnau. Yn unol â hynny, gan gydnabod pwysigrwydd darparu allbynnau cyson ledled y DU, mae'r Ystadegydd Gwladol a'r Cofrestrwyr Cyffredinol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gyd-lofnodwyr Cytundeb[42] ar gynnal Cyfrifiad 2011 yn gyffredinol ac, yn arbennig ar gynhyrchu ystadegau sy'n sicrhau cysondeb gan dalu sylw arbennig i gwestiynau cyffredinol, sylfeini poblogaeth, diffiniadau, methodolegau rheoli datgelu a fformatau allbwn.

5.27 Fel y rhagwelir ar hyn o bryd, byddai canlyniadau Cyfrifiad 2011 ar gael, ar bob lefel o ddaearyddiaeth allbwn, ar-lein o wefan Ystadegau Gwladol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd galw parhaus am gyhoeddiadau copi caled o dablau, a ategir gan allbynnau ar CD/DVD, i ddiwallu anghenion penodol defnyddwyr a gofynion y Senedd.

5.28 Caiff y prif ganlyniadau cenedlaethol a lleol eu rhyddhau, yn unol ag amserlen a gyhoeddir ymlaen llaw, mor gyflym â phosibl dros gyfnod byr o amser unwaith y bydd y gwaith prosesu ar ben ac y bydd cyfanswm poblogaeth y wlad wedi'i bennu. Byddai rhyddhau canlyniadau ar yr un pryd ar gyfer pob ardal yng Nghymru a Lloegr yn sicrhau bod canlyniadau cynhwysfawr ar gael i'w defnyddio yn y systemau ar gyfer ariannu llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd, a byddai hefyd yn galluogi defnyddwyr i gymharu unrhyw ran o'r wlad neu sector o'r boblogaeth ag un arall yn syth.

5.29 Bydd Llywodraeth y DU yn bodloni ei gofyniad o dan Reoliad Senedd a Chyngor Ewrop ar Gyfrifiadau o'r Boblogaeth a Thai[11] i roi canlyniadau ystadegol o Gyfrifiad 2011 ar gyfer y DU (neu o ffynonellau data amgen) i'r Undeb Ewropeaidd ar ffurf cyfres o drawsdablau ystadegol a bennwyd ymlaen llaw erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

5.30 Er mwyn bodloni gofynion defnyddwyr arbenigol, bydd SYG yn datblygu systemau a gweithdrefnau syml, costeffeithiol a chyflym i ddefnyddwyr ofyn am grynodebau ystadegol nad ydynt yn safonol. Bydd y gwasanaeth ar gyfer allbwn mor benodol neu wedi'i gomisiynu ar gael cyn gynted ag y rhyddheir y prif ganlyniadau. Lle na fydd allbwn o'r fath yn darparu digon o fanylder at ddibenion ymchwil ystadegol penodol, bydd modd cael gafael ar lefelau manylach o ddata o dan amodau labordy a reolir yn llym, a lle y mae dilysrwydd ymchwilwyr yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Neddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.

5.31 Yn yr un modd, bydd gwasanaeth i ddarparu microddata, megis samplau o gofnodion dienw o bobl a chartrefi, ar gael i ymchwilwyr cymeradwy er mwyn iddynt allu cynnal eu dadansoddiadau eu hunain nad ydynt yn bosibl drwy ddefnyddio data cyfun. Bydd darparu data yn y fath fodd yn amodol ar yr angen hollbwysig i sicrhau cyfrinachedd llwyr data personol. Roedd argaeledd samplau o'r fath yn ddatblygiad arloesol mawr, a llwyddiannus, yng Nghyfrifiad 1991, ac fe'u hehangwyd yn 2001.

5.32 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnig ehangu Astudiaeth Hydredol SYG drwy ychwanegu data o Gyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru a Lloegr i'r cofnodion hynny a gynhwysir eisoes o Gyfrifiadau 1971–2001. Mae'r Astudiaeth Hydredol (cronfa ddata o ddata cysylltiedig o gyfrifiadau a digwyddiadau hanfodol ar gyfer sampl 1 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr[43]) yn destun yr un amodau cyfrinachedd cadarn â'r Cyfrifiad ei hun, a chaiff y gronfa ddata ei chadw'n ddiogel o fewn SYG, gyda mynediad iddi yn cael ei reoli'n llym ac yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.

5.33 Caiff metadata, ar ffurf diffiniadau, dosbarthiadau a dangosyddion ansawdd ei gynhyrchu hefyd i'w ddefnyddio gyda'r allbynnau ystadegol. Bydd y rhain yn cynnwys, yn arbennig, gyfyngau hyder a mesurau ansawdd eraill a gwybodaeth o arolygon cwmpas ac ansawdd ôl-gyfrifiad megis cyfraddau cwmpas lleol, diffyg ymateb eitem, a chyfraddau priodoli.

5.34 Gallai ystadegau o'r Cyfrifiad a ddarperir i Swyddfa Ystadegol yr Undeb Ewropeaidd (Eurostat) o dan ddarpariaethau Rheoliad Cyfrifiad yr UE[11] fod ar gael drwy Ganolbwynt Cyfrifiadau Ewropeaidd arfaethedig. Yn y modd hwn byddai data yn cael ei gadw'n ddiogel o fewn SYG a'i ryddhau i Eurostat a/neu Aelod-wladwriaethau ar gais i lefel gytûn o ddadansoddiad ystadegol a daearyddol. Byddai'r fath ddata yn destun yr un mesurau cyfrinachedd a rheoli datgelu ystadegol llym a fydd yn gymwys i geisiadau domestig am wybodaeth. Mae datblygu system o'r fath hefyd yn cael ei ystyried at ddiben rhannu allbynnau'r Cyfrifiad yn ddomestig.

5.35 Ym mha ffurf bynnag y darperir allbwn, cymerir y gofal mwyaf i osgoi datgelu gwybodaeth am unigolion y gellir eu hadnabod mewn camgymeriad drwy ganlyniadau ystadegol y Cyfrifiad. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd ystadegol, cymhwysir mesurau rheoli datgelu amrywiol (gweler paragraffau 5.22 a 6.5–6.9).

## Cynllunio daearyddiaeth yr allbwn

5.36 Bydd SYG yn anelu at fodloni gofynion defnyddwyr o ran darparu canlyniadau ystadegol, ar lefelau amrywiol o fanylder, ar gyfer nifer o ddaearyddiaethau, yn amodol ar y gofyniad hollbwysig i sicrhau cyfrinachedd ystadegol. Caiff daearyddiaethau o'r fath eu creu yn y bôn o'r un conglfeini ag yng Nghyfrifiad 2001 – yr Ardaloedd Cynnyrch.

5.37 Ardaloedd Cynnyrch yw'r ardal leiaf y cynhyrchir ystadegau'r Cyfrifiad ar ei chyfer ac fe'u crëwyd gyntaf ar gyfer Cyfrifiad 2001. Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach yn ardaloedd mwy a grëir o grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch ac fe'u defnyddiwyd yn helaeth i gyhoeddi Ystadegau Cymdogaethau ac ar gyfer amrywiaeth o ystadegau allweddol o Gyfrifiad 2001. Cynhaliodd SYG ymgynghoriad eang rhwng mis Tachwedd 2006 a mis Chwefror 2007 er mwyn dwyn ynghyd safbwyntiau defnyddwyr ar werth Ardaloedd Cynnyrch ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach fel y daearyddiaethau allbwn craidd ar gyfer Cyfrifiad 2011. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol iawn a datgelodd lawer iawn o gefnogaeth i egwyddorion allweddol sefydlogrwydd a pharhad gydag allbynnau o 2001 a awgrymwyd.

5.38 Yn dilyn yr adolygiad hwn o ofynion defnyddwyr ar gyfer daearyddiaeth allbwn, cyhoeddodd SYG ym mis Hydref 2007 na fyddai'r Ardaloedd Cynnyrch ar gyfer cyflwyno allbynnau Cyfrifiad 2011 yn newid rhyw lawer gan ddarparu rhywfaint o sefydlogrwydd daearyddol i'w gwneud yn bosibl cymharu allbynnau yn

agosach ag allbynnau Cyfrifiad 2001[44]. Lle ceir ardaloedd â newid sylweddol o ran y boblogaeth leol neu ddatblygiadau tai, efallai y bydd angen creu ffiniau diwygiedig – yn bennaf drwy rannu neu uno Ardaloedd Cynnyrch sy'n bodoli eisoes – er mwyn sicrhau bod meini prawf allweddol maint ac unffurfedd yn cael eu dilyn.  Fodd bynnag, nid yw SYG yn rhagweld newid mwy na 5 y cant o'r ffiniau Ardaloedd Cynnyrch cyfredol er mwyn bodloni'r gofynion hyn. Lle ceir newidiadau mawr o'r fath i boblogaethau lleol bydd hefyd angen tebyg i rannu neu uno nifer fach o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach. Fodd bynnag, trefnir pob diwygiad er mwyn i ddefnyddwyr allu cymharu data rhwng daearyddiaethau Cyfrifiad 2001 a 2011, gydag Ardaloedd Cynnyrch diwygiedig yn rhan o hierarchaeth sefydlog o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol.

5.39 Bydd daearyddiaethau gweinyddol – rhanbarthau, siroedd, awdurdodau lleol ac unedol, wardiau a phlwyfi/cymunedau sifil yng Nghymru – ac ardaloedd a adeiledir ohonynt, megis etholaethau Seneddol, ac Ardaloedd Trefol a Gwledig, yn ymwneud â ffiniau sy'n bodoli adeg y Cyfrifiad. Pan fydd ffiniau yn newid wedyn bydd SYG yn ystyried darparu allbynnau ar gyfer yr ardaloedd newydd, er y gall y rhain o reidrwydd fod yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweddu orau i Ardaloedd Cynnyrch yn gyfan gwbl er mwyn sicrhau cyfrinachedd ystadegol.



6

# Cyfrinachedd, preifatrwydd a diogelwch cyfrifiadurol

# 6 Cyfrinachedd, preifatrwydd a diogelwch cyfrifiadurol

*"The Census collects information from each person and household in the country. In its uses it is not concerned with facts about individuals as such. Its purpose is to provide statistics about the community, and groups within the community, as a whole. The public, therefore, has a right to expect, and needs to be assured, that personal information provided in confidence will be respected."* **Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig**[12]

## Egwyddorion cyfrinachedd

6.1 Mae pwysigrwydd sicrhau'r cwmpas mwyaf posibl o ran y Cyfrifiad yn gofyn am wneud cyfranogiad y cyhoedd yn orfodol. Mae hyn yn ei dro yn gosod rhwymedigaeth ar y Llywodraeth i sicrhau bod y wybodaeth, sy'n wybodaeth sensitif weithiau, sy'n cael ei rhoi'n gyfrinachol gan y cyhoedd, yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Rhagnodir y gofyniad statudol i ddarparu gwybodaeth cyfrifiad bersonol gan ddarpariaethau Deddf Cyfrifiad 1920 a'r Gorchymyn a'r Rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Yn gyfnewid, mae'r Ddeddf – a atgyfnerthwyd bellach gan ddarpariaethau cyfrinachedd Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 – hefyd yn cyflwyno gofynion llym ar ran Awdurdod Ystadegau'r DU (Bwrdd Ystadegau) (ac, o ganlyniad, ar SYG) i sicrhau cyfrinachedd unrhyw wybodaeth o'r fath a gesglir.

6.2 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn cydnabod bod angen i'r cyhoedd fod yn hyderus y cedwir eu cofnodion cyfrifiad personol yn ddiogel. Fel mewn cyfrifiadau blaenorol, tawelir meddyliau'r cyhoedd y caiff yr holl wybodaeth a roddir ei thrin yn gwbl gyfrinachol gan Swyddfa'r Cyfrifiad. Ceir enw da hirsefydledig am sicrhau cyfrinachedd y cyfrifiad y mae SYG yn bwriadu ei gynnal.

6.3 Caiff y wybodaeth a gesglir yng Nghyfrifiad 2011 ei defnyddio i gynhyrchu ystadegau ac ymchwil ystadegol yn unig. Bydd y defnydd a wneir ohoni yn cydymffurfio'n llawn â Deddf y Cyfrifiad, y Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru a gofynion deddfwriaeth diogelu data a rhyddid gwybodaeth. Mae cosbau cyfreithiol am ddatgelu gwybodaeth bersonol a gesglir yn y cyfrifiad yn anghyfreithlon.

6.4 Bydd SYG yn sicrhau bod safonau a weithredir drwy'r Llywodraeth sy'n ymwneud â rheoli risg gwybodaeth a diogelwch data yn cael eu cyrraedd. Bydd yr egwyddorion canlynol yn llywodraethu'r broses o drin a thrafod y wybodaeth a roddir ar ffurflenni'r Cyfrifiad:

(i) Dim ond unigolion sydd o dan reolaeth Awdurdod Ystadegau'r DU gan gynnwys yr asiantau hynny sy'n gweithredu, neu'n darparu gwasanaethau, ar ei ran at ddiben y Cyfrifiad, ac ymchwilwyr a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, a gaiff weld gwybodaeth cyfrifiad bersonol.

(ii) Yn y rhan fwyaf o achosion bydd un holiadur yn cwmpasu pob aelod o'r cartref a dychwelir gwybodaeth drwy'r post; ond os byddant yn dymuno, bydd pobl yn gallu rhoi gwybodaeth bersonol ar ffurflen ar wahân, neu drwy gyfleuster ar-lein diogel, mewn ffordd na fydd yn ei datgelu i eraill yn eu cartref neu sefydliad, nac i'r Cyfrifydd.

(iii) Bydd pob aelod o sefydliad y Cyfrifiad ac asiantau allanol sy'n darparu gwasanaethau i Awdurdod Ystadegau'r DU yn cael cyfarwyddiadau llym, a bydd yn ofynnol iddynt lofnodi ymgymeriadau ar ffurf datganiadau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfrinachedd statudol. Gellir eu herlyn am unrhyw achos o dorcyfraith.

(iv) Caiff diogelwch ffisegol gwybodaeth Cyfrifiad bersonol a gedwir yn Swyddfa'r Cyfrifiad, gan staff maes neu asiantau awdurdodedig ei orfodi'n llym. Bydd gan bob safle sy'n prosesu data'r Cyfrifiad drefniadau diogelwch parhaus ar waith gan gynnwys rheoli mynediad, teledu cylch cyfyng, swyddogion diogelwch, larymau tresbasu a staff SYG i fonitro cyflenwyr, a chynhelir gwiriadau annibynnol, gan sefydliad diogelwch achrededig yn y DU, o ddiogelwch ffisegol ac electronig.

(v) Bodlonir pob gofyniad Diogelwch perthnasol Llywodraeth y DU fel y bo'n gymwys i brosiect/system GYFYNGEDIG ymhob maes er mwyn sicrhau diogelwch cyffredinol y systemau TG a'r prosesau a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Bydd mesurau o'r fath yn cydymffurfio'n llawn â gofynion gorfodol penodol o ran y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â data personol o fewn y Llywodraeth.

(vi) Bydd gan y systemau cyfrifiadurol sy'n trin a thrafod data'r Cyfrifiad fesurau llym i atal pobl heb awdurdod rhag cael mynediad iddynt.

(vii) Caiff y data ei ddiwygio'n systematig wrth baratoi canlyniadau'r Cyfrifiad er mwyn cynnal cyfrinachedd ystadegol (gweler paragraffau 6.5–6.6).

(viii) Bydd y trefniadau diogelwch a chyfrinachedd sy'n cwmpasu casglu a phrosesu ffurflenni'r Cyfrifiad yn destun adolygiad annibynnol (gweler paragraff 6.20).

## Cyfrinachedd ystadegol

6.5 Cymerir gofal er mwyn sicrhau bod tablau cyhoeddedig a chrynodebau o ddata ystadegol yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 a Chod Ymarfer Ystadegau Gwladol. Gall mesurau arbennig fod yn gymwys yn enwedig i allbynnau ystadegol ar gyfer ardaloedd bach. Bydd mesurau rheoli datgelu (hynny yw, atal gwybodaeth ystadegol sy'n nodi nodweddion unigolyn neu gartref rhag cael ei rhyddhau) yn cynnwys rhai o'r gweithdrefnau canlynol, ond nid pob un:

- cyfyngu nifer y categorïau allbwn y gellir dosbarthu newidyn ynddynt, megis grwpiau oedran cyfun
- lle bydd nifer y bobl neu gartrefi mewn ardal islaw'r trothwy, caiff yr allbwn ystadegol – ac eithrio ar gyfer cyfrif sylfaenol – ei gyfuno â'r hyn a geir ar gyfer ardal gyfagos ddigon mawr, a/neu
- ddiwygio rhywfaint o'r data cyn rhyddhau'r ystadegau drwy un neu fwy o amrywiaeth o ddulliau megis cyfnewid cofnodion, gor-briodoli a rhyw fath o newid celloedd

6.6 Mae'r Ystadegydd Gwladol, ynghyd â Chofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi cyhoeddi cytundeb ar y cyd i fabwysiadu polisi rheoli datgelu ystadegol cyffredin fel rhan o'r symudiad tuag at allbynnau ystadegol sy'n sicrhau cysondeb o Gyfrifiad 2011 ledled y DU[42]. Mae'r polisi yn seiliedig ar yr egwyddor o ddiogelu cyfrinachedd a nodir yng Nghod Ymarfer Ystadegau Gwladol, sy'n cynnwys y sicrwydd canlynol "*no statistics will be produced that are likely to identify an individual unless specifically agreed with them*"[45].

6.7 Prif gryfder y Cyfrifiad yw ei gyflawnrwydd o ran cwmpas a'i allu i gynhyrchu ystadegau ar ardaloedd bach iawn a grwpiau bach iawn o bobl (fel sy'n angenrheidiol i sicrhau bod polisïau cyhoeddus yn ystyried anghenion cymunedau lleol wrth lunio polisïau). Felly, rhaid cymryd gofal arbennig i gydbwyso, ar yr un llaw, yr angen i sicrhau cyfrinachedd ystadegol llwyr ag osgoi, ar y llaw arall, niweidio defnyddioldeb y data. O ystyried argymhelliad Pwyllgor Dethol y Trysorlys i adolygu'r dull o ddiogelu cyfrinachedd ystadegol (gweler paragraff 1.25), mae'r Ystadegydd Gwladol a'r Cofrestrwyr Cyffredinol wedi cymryd camau i sicrhau na chynhyrchir unrhyw ystadegau sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod unigolyn (neu wybodaeth am unigolyn) â lefel uchel o hyder.

6.8 Yng nghyd-destun Cyfrifiad, lle caiff miloedd o drawsdablau eu cynhyrchu o un gronfa ddata, gellir mynd i'r afael â diogelu cyfrinachedd ystadegol orau drwy gyflwyno ansicrwydd ynghylch gwir werth celloedd bach. Er mwyn cydymffurfio â dehongliad cytûn y Cod Ymarfer, mae tair Swyddfa'r Cyfrifiad yn y DU wedi cytuno y gellid cynnwys cyfrifiadau bach mewn data o'r Cyfrifiad a gaiff ei gyhoeddi ar yr amod:

- y crëwyd ansicrwydd ynghylch gwir werth y gell fach yn systematig
- nid yw creu'r ansicrwydd hwnnw yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y data

6.9 Ni phenderfynwyd ar yr union drothwy o ansicrwydd sy'n ofynnol eto. Bydd yr Ystadegydd Gwladol a'r Cofrestrwyr Cyffredinol yn gwneud y penderfyniad hwn, mewn ymgynghoriad â defnyddwyr ac arbenigwyr eraill gan gynnwys y Comisiynydd Gwybodaeth, ar gam hwyrach o fewn cyd-destun canlyniadau ymchwil a gynhelir ar gydbwyso'r diogelwch sydd ar gael a'r niwed a achosir, drwy fethodolegau rheoli datgelu amrywiol. Disgwylir i'r ymchwil hon ddod i ben tuag at ddiwedd 2008 ac, yn dilyn ymgynghori â defnyddwyr ymhellach, caiff fersiwn terfynol strategaeth rheoli datgelu ystadegol y DU ar gyfer allbynnau tablaidd ei lunio erbyn haf 2009.

## Arolygon cysylltiedig, yr Astudiaeth Hydredol a diogelu data

6.10 Bydd y broses o drin a thrafod gwybodaeth a gesglir yng Nghyfrifiad 2011 yn cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion prosesu data personol a data personol sensitif yn deg sy'n ofynnol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Bydd hyn yn cynnwys nid yn unig gasglu a phrosesu data at ddibenion y Cyfrifiad ei hun, ond hefyd ar gyfer defnydd ystadegol posibl arall o'r data, megis rhan o raglenni gwaith SYG i wella ystadegau poblogaeth ac ymfudo a datblygu System Ystadegau Poblogaeth Integredig[46], ac fel sylfaen i greu samplau cysylltiedig ar gyfer gwaith dilynol ar bynciau na ellir eu cynnwys yn y Cyfrifiad ei hun. Caiff unrhyw fwriad i ddefnyddio gwybodaeth Cyfrifiad 2011 ar gyfer unrhyw arolygon dilynol o'r fath ei gyhoeddi i'r Senedd cyn y Cyfrifiad a'i gyfleu'n glir i'r cyhoedd yn unol â Chod Ymarfer Ystadegau Gwladol.

6.11 Bydd prosesu data er mwyn ehangu Astudiaeth Hydredol SYG[43] i gynnwys samplau Cyfrifiad 2011 (gweler paragraff 5.32) hefyd yn glynu wrth egwyddorion prosesu teg Diogelu Data.

## Cael gafael ar ddata a'i rannu

6.12 Mae Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 yn rhoi pwerau dewisol i Awdurdod Ystadegau'r DU (Bwrdd Ystadegau) ganiatáu ehangu argaeledd gwybodaeth cyfrifiad ar yr amod bod unrhyw ddatgeliad o'r fath:

- wedi'i ganiatáu o dan ddeddfwriaeth arall
- yn ofynnol i gyflawni rhwymedigaeth y Gymuned Ewropeaidd
- yn angenrheidiol at ddibenion galluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i arfer unrhyw un o'i swyddogaethau
- i bobl sy'n darparu gwasanaethau i'r Bwrdd, os yw'r Bwrdd o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud hynny at ddibenion darparu'r gwasanaethau hynny
- wedi'i ddarparu'n gyfreithlon i'r cyhoedd eisoes
- yn cael ei wneud yn unol â gorchymyn unrhyw lys neu at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol
- yn cael ei wneud er budd diogelwch cenedlaethol
- yn cael ei wneud gyda chaniatâd y sawl y mae a wnelo ag ef, neu
- yn cael ei wneud i ymchwilydd cymeradwy

6.13 At ddibenion yr olaf o'r rhain mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Ystadegau'r DU gael ymchwilwyr cymeradwy i lofnodi datganiad eu bod yn deall y rhwymedigaethau o ran cyfrinachedd sydd arnynt cyn cael gweld gwybodaeth bersonol o'r fath. Dim ond o fewn amgylchedd diogel y caniateir gweld gwybodaeth o'r Cyfrifiad.

6.14 Lle y bydd unrhyw wybodaeth wedi'i rhoi i Awdurdod Ystadegau'r DU drwy arfer ei bwerau o dan y Ddeddf i ehangu'r broses o rannu data, dim ond at y dibenion

y'i darparwyd y bydd yn defnyddio'r wybodaeth honno. Ni fydd Awdurdod Ystadegau'r DU, er enghraifft, yn rhoi data cyfrifiad personol i adrannau eraill y Llywodraeth megis y Swyddfa Gartref, y mae ei Gweinidog wedi ei gwneud yn glir i Senedd San Steffan na cheisir data cyfrifiad o'r fath at ddibenion y cynllun cardiau adnabod arfaethedig. O dan ddarpariaethau'r Ddeddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru, fodd bynnag, bydd Awdurdod Ystadegau'r DU mewn sefyllfa i wneud defnydd ehangach o wybodaeth am gyfeiriadau a gesglir fel rhan o'r broses o wirio cyfeiriadau cyn Cyfrifiad 2011 (gweler paragraff 4.19) ar yr amod bod bwriad clir i ddefnyddio'r wybodaeth at y diben hwn cyn iddi gael ei chasglu.

## Diogelwch staff maes

6.15 Disgwylir i staff cyfrifiad dros dro feddu ar y sgiliau i ymdrin â'r cyhoedd a gallu ymdrin â'r wybodaeth a gesglir ganddynt yn gwbl gyfrinachol. Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan Awdurdod Ystadegau'r DU, neu sy'n darparu gwasanaethau iddo, at ddibenion y Cyfrifiad, fel amod gwasanaeth, yn rhwym wrth ddarpariaethau cyfrinachedd Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 (sydd wedi disodli rhai Deddf Cyfrifiad 1920).

6.16 Mae'n hynod bwysig gochel rhag datgelu gwybodaeth bersonol yn anfwriadol, a chaiff pob aelod o staff ei rybuddio am hyn a thynnir ei sylw at y cosbau am wneud hynny fel rhan o'i hyfforddiant. Bydd yn ofynnol i staff lofnodi ymgymeriad statudol na fyddant, heb awdurdod cyfreithlon, yn datgelu nac yn defnyddio unrhyw wybodaeth a geir wrth gyflawni eu dyletswyddau, ac os cânt eu collfarnu o dan delerau Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 gellir eu carcharu neu eu dirwyo, neu'r ddau, am unrhyw achos o fynd yn groes i hyn.

6.17 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn fodlon bod SYG wedi llwyr ymdrin â phryderon ynghylch diogelwch a chyfrinachedd data'r Cyfrifiad yn sgîl y rhan a chwaraeir gan Lockheed Martin UK[47].

6.18 Yn y bôn mae hyn yn cadarnhau na fydd Lockheed Martin UK nac unrhyw un o'i gyflogeion yn gallu cael gafael ar ddata Cyfrifiad personol. Mae holl ddata'r Cyfrifiad yn eiddo i SYG a chaiff ei brosesu yn y DU. Bydd Lockheed Martin UK yn gweithredu fel y prif gontractwr ac yn datblygu'r systemau a ddefnyddir i drin a phrosesu data'r Cyfrifiad, ond dim ond consortiwm o is-gontractwyr a leolir yn y DU ac sydd ym mherchenogaeth y DU neu'r UE a fydd yn gallu gweld y data ei hun ac fe'i diogelir yn unol â'r safonau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Roedd cyfrinachedd a diogelwch data o'r pwys pennaf wrth ddiffinio holl drefniadau cytundebol a chyfreithiol Cyfrifiad 2011.

6.19 Felly mae Awdurdod Ystadegau'r DU o'r farn y bydd y strwythur cytundebol a gynigir gan Lockheed Martin UK yn rhoi'r sicrwydd mwyaf i'r cyhoedd ynghylch cyfrinachedd cofnodion y Cyfrifiad. Cefnogodd Lockheed Martin UK Gyfrifiad 2001 y DU ac mae ganddo brofiad helaeth o gyfrifiadau rhyngwladol. Yn fwyaf diweddar gwnaeth weithio gyda Statistics Canada wrth helpu i gynnal Cyfrifiad

Canada 2006 yn llwyddiannus. Felly mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn fodlon na fydd y trefniadau a wneir o ran cyfraniad Lockheed Martin UK at Gyfrifiad 2011 yn peri unrhyw risg i ddiogelwch y Cyfrifiad.

## Adolygiadau o gyfrinachedd a diogelwch cyfrifiadurol

6.20 Mae gan SYG Bolisi Diogelwch Systemau Gwybodaeth sy'n ddigon llym i ddiogelu data hyd at ac yn cynnwys y categori CYFYNGEDIG. Yn unol â'r polisi hwn, caiff rhagor o fesurau diogelwch manwl a gynllunnir yn benodol ar gyfer y Cyfrifiad eu llunio a'u gweithredu o ran prosesu data a'i ryddhau (ar bapur ac yn electronig) ar gyfer Ymarfer y Cyfrifiad yn 2009 a Chyfrifiad 2011. At hynny, yn ôl yr arfer cyn cyfrifiadau blaenorol, bydd y trefniadau diogelwch a chyfrinachedd sy'n cwmpasu casglu a phrosesu ffurflenni cyfrifiad yn destun adolygiad annibynnol, a bydd SYG yn hysbysu'r Senedd o ganlyniad adolygiadau o'r fath cyn y Cyfrifiad.

## Preifatrwydd a'r Ddeddf Hawliau Dynol

6.21 Mae Awdurdod Ystadegau'r DU yn gwbl fodlon bod awdurdod statudol i'w gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth am bob un o'r cwestiynau a gynigir ar gyfer Cyfrifiad 2011 yn cydymffurfio'n llawn â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998 o ran hawl unigolyn i breifatrwydd.

6.22 Bydd SYG yn gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer Cyfrifiad 2011 cyn yr is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol i gynnal y Cyfrifiad (gweler Pennod 7) i gadarnhau'r farn hon.

## Polisi Llywodraeth y DU ar alluogi'r cyhoedd i weld cofnodion cyfrifiad personol

6.23 Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus lawer o geisiadau gan achyddion ac eraill, yn enwedig ers cymhwyso'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn 2005, i leihau'r cyfnod cau ar gyfer cofnodion cyfrifiad personol er mwyn galluogi'r cyhoedd i weld cofnodion mwy diweddar at ddiben ymchwilio i hanes teuluol. Hyd at fis Ionawr 2005, y cyfnod cau statudol yng Nghymru a Lloegr oedd 100 mlynedd (a bennwyd gan Offeryn Rhif 12 yr Arglwydd Ganghellor (1966)) o dan delerau Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

6.24 Er bod y Llywodraeth yn cydnabod gwerth cymdeithasegol a masnachol cofnodion cyfrifiad hanesyddol, mae o'r farn y byddai'r sicrwydd cadarn o ran cyfrinachedd a roddir ar gyfer cyfrifiadau presennol a chyfrifiadau'r dyfodol yn cael ei roi mewn perygl difrifol pe byddai'n ymddangos fel petai'n troi ei chefn ar y sicrwydd a roddwyd ar gyfer cyfrifiadau yn y gorffennol. Mae hyder y cyhoedd yn niogelwch a chyfrinachedd y wybodaeth a roddir yn y Cyfrifiad yn hollbwysig. Yn unol â hynny,

mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnal y polisi o gadw cofnodion cyfrifiad Cymru a Lloegr yn gyfrinachol am 100 mlynedd yn unol â'r darpariaethau statudol sy'n bodoli yn yr Alban.

6.25 Ni fydd cofnodion Cyfrifiad 1911 ar gael i'r cyhoedd nac ar gael ar-lein gan Archif Genedlaethol y DU tan fis Ionawr 2012. Fodd bynnag, yn dilyn penderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2007, gall gwybodaeth benodol o gofnodion 1911 fod ar gael gan Archif Genedlaethol y DU o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Dim ond i Gyfrifiad 1911 y mae'r penderfyniad hwn yn gymwys. Ar gyfer pob Cyfrifiad dilynol a gynhelir o dan awdurdod Deddf Cyfrifiad 1920, mae'r Llywodraeth yn bwriadu y bydd cofnodion y cyfrifiad yn parhau i beidio â chael eu datgelu am 100 mlynedd ac y'u diogelir rhag cael eu rhyddhau i'r cyhoedd am y cyfnod hwnnw yn ei gyfanrwydd. Yn unol â hynny, ni fwriedir i gofnodion Cyfrifiad 1921 fod ar gael i'r cyhoedd tan fis Ionawr 2022.



7

# Y broses ddeddfwriaethol

# 7 Y broses ddeddfwriaethol

*"No gentleman who has sat in this House can be insensible of the utility of the law proposed. For seldom a session passes but something happens in which it would be of singular advantage to the public, and a great satisfaction to ourselves, to have upon our table such authentic accounts as are proposed in this Bill laid before Parliament."* **Mr Thomas Potter, AS dros St Germans, yn cynnig Mesur Cyfrifiad 1753**

## Deddfwriaeth sylfaenol cyfrifiad

7.1 Y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n darparu ar gyfer cynnal Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yw Deddf Cyfrifiad 1920 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfrifiad (Diwygio) 2000. Yn fwy diweddar, o 1 Ebrill 2008, mae cyflwyno Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007 wedi cael effaith ar ddiwygiadau pellach i'r Ddeddf – yn arbennig trosglwyddo'r awdurdod am gynnal y Cyfrifiad o'r Cofrestrydd Cyffredinol i Awdurdod Ystadegau'r DU (Bwrdd Ystadegau), a'r cyfrifoldeb Gweinidogol am y Cyfrifiad o Drysorlys EM i Swyddfa'r Cabinet.

7.2 Mae'r Atodlen i Ddeddf Cyfrifiad 1920 yn awdurdodi cynnwys y materion canlynol yn y Cyfrifiad y gall fod angen manylion ar eu cyfer:

(1) Enwau, rhyw, oedran
(2) Galwedigaeth, proffesiwn, masnach neu gyflogaeth
(3) Cenedligrwydd, man genedigol, hil, iaith
(4) Trigfan a chymeriad yr annedd
(5) Statws o ran priodas neu bartneriaeth sifil, perthynas â'r pen teulu, plentyn a enir mewn priodas
(5A) Crefydd [nad oes rhwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth, gan olygu bod pob cwestiwn, i bob diben, yn wirfoddol]
(6) Unrhyw fater arall y mae'n ddymunol cael gwybodaeth ystadegol amdano gyda'r nod o bennu cyflwr cymdeithasol neu sifil y boblogaeth

## Is-ddeddfwriaeth

### Gorchymyn y Cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr

7.3 Yn unol ag adran 1 o Ddeddf y Cyfrifiad, bydd y Llywodraeth yn paratoi Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor o ran y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, yn ystod hydref 2009, i'w gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. O dan delerau'r Ddeddf, bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn rhagnodi:

- y dyddiad y cynhelir y Cyfrifiad
- yr unigolion y mae ffurflenni'r Cyfrifiad i’w hateb ganddynt neu mewn perthynas â hwy
- y manylion i'w rhoi ar y ffurflenni

7.4 Mae’n ofynnol i Dŷ’r Cyffredin a Thŷ’r Arglwyddi gymeradwyo’r Gorchymyn drafft drwy benderfyniad negyddol, ac eithrio unrhyw fanylion i’w cynnwys yn y Cyfrifiad o dan ddarpariaeth paragraff (6) o’r Atodlen (gweler paragraff 7.2 uchod), y mae’n rhaid iddo gael ei gymeradwyo drwy’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Ar gyfer Cyfrifiad 2011 bydd hyn yn gymwys i’r cwestiynau hynny a nodir ym mharagraff 3.23 sy’n ymwneud ag:

- ail breswylfa
- statws myfyriwr a chyfeiriad yn ystod y tymor
- iechyd cyffredinol a salwch/anabledd hirdymor
- cyfeiriad arferol blwyddyn cyn y Cyfrifiad os yn wahanol i'r cyfeiriad ar ddiwrnod y cyfrifiad
- cyfnod y bwriedir aros
- darparu gofal di-dâl
- cymwysterau addysgol a galwedigaethol
- gweithgarwch economaidd yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad
- dull o deithio i'r gwaith
- nifer y ceir/faniau sydd ar gael i'r cartref
- deiliadaeth llety a math o landlord os caiff ei rentu
- statws ymwelwyr
- statws unigolyn o fewn sefydliad cymunedol
- math o sefydliad cymunedol

### Rheoliadau ar wahân ar gyfer y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr

7.5 Ar ôl cymeradwyo’r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, bydd y Gweinidog dros Swyddfa’r Cabinet yn cyflwyno Rheoliadau’r Cyfrifiad gerbron y Senedd (tua chanol mis Chwefror 2010) a fydd yn gwneud darpariaeth fanwl ar gyfer cynnal y Cyfrifiad yn Lloegr ac yn cynnwys enghreifftiau o’r holiaduron i’w defnyddio. Mae’r Rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol y ddau Dŷ.

7.6 Ar yr un pryd, ac o ganlyniad i drosglwyddo rhai o swyddogaethau’r Cyfrifiad i Weinidogion Cymru (gweler paragraff 7.8–7.10 isod), gwneir Rheoliadau ar wahân sy’n cwmpasu’r Cyfrifiad yng Nghymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

7.7 Mae’r Rheoliadau’n cwmpasu’r gweithgareddau maes yn bennaf megis:

- penodi staff maes
- daearyddiaeth y Cyfrifiad – rhannu'r wlad yn ardaloedd at ddibenion cyfrifo a gwirio cyfeiriadau

- y trefniadau ar gyfer dosbarthu ffurflenni'r Cyfrifiad i gartrefi a sefydliadau cymunedol
- casglu ffurflenni wedi'u llenwi naill ai drwy'r post neu wrth stepen y drws neu mewn ffordd amgen
- dyletswyddau staff maes ac, yn benodol, fanylion unrhyw wybodaeth i'w chasglu ganddynt
- unrhyw wybodaeth yn ymwneud â threfniadau arbennig ar gyfer cyfrifo poblogaethau penodol megis pobl ddigartref
- gweithdrefnau ar gyfer ymweliadau dilynol a diffyg cydymffurfio;
- rheoli deunyddiau a dogfennaeth faes
- gweithdrefnau diogelwch a chyfrinachedd

## Trefniadau ar gyfer y Cyfrifiad yng Nghymru

### Trosglwyddo swyddogaethau

7.8 Yn dilyn trafodaethau rhwng SYG a Llywodraeth Cynulliad Cymru rhwng 2003–2005 ar faterion yn codi o’r ffaith nad oedd blwch ticio penodol i gofnodi Cymreig fel grŵp ethnig yng Nghyfrifiad 2001, cytunodd yr Ysgrifennydd Ariannol i’r Trysorlys ar y pryd a Chofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael rôl fwy ffurfiol o ran cytuno ar gwmpas fformat a chynnwys cyfrifiadau yng Nghymru yn y dyfodol ynghyd â’r broses o’u cynnal. At hynny, nododd adroddiad Pwyllgor Dethol y Trysorlys ar ei ymchwiliad i Gyfrifiad 2001[9] ym mharagraff 27:

*“ONS’s preparations for the 2001 Census did not reveal the latent concerns in Wales over how Welsh identity was to be recorded on the Census form. We recommend, in the light of this, that ONS look further at the way in which they rehearse any future Census, to ensure the most accurate picture possible is obtained of both how the Census is likely to be received and proceed. We endorse the proposal that the National Assembly for Wales have a more formal role in agreeing future Census forms for Wales.”*

7.9 Yn dilyn trafodaeth a chyngor cyfreithiol cytunwyd ym mis Mehefin 2006 y dylid datganoli pwerau is-ddeddfwriaethol, ac mai’r cyfrwng i drosglwyddo’r pwerau ddylai fod Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Cwmpas is-ddeddfwriaeth o’r fath fyddai:

- trosglwyddo'r pŵer i wneud Rheoliadau'r Cyfrifiad (sy'n ofynnol o dan adran 3 o Ddeddf y Cyfrifiad) o'r Canghellor ar y pryd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a
- rhoi'r hawl i'r Cynulliad gyfrannu at bennu cynnwys Gorchymyn y Cyfrifiad.

7.10 Cafodd y pŵer i wneud Rheoliadau ar gyfer Cymru ei drosglwyddo o Ganghellor y Trysorlys i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2006 drwy Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau[48] ac yn dilyn hynny, drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i Weinidogion Cymru.

### Ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru

7.11 Cyn ac ar ôl trosglwyddo swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, SYG a Llywodraeth Cynulliad Cymru cyfarfu swyddogion â phob un o Bwyllgorau pwnc Cynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng Hydref 2006–Mawrth 2007 i egluro'r cynlluniau ar gyfer y Cyfrifiad yng Nghymru a cheisio nodi'r materion a'r pynciau hynny sy'n peri pryder penodol yng Nghymru. Mae Awdurdod Ystadegau'r DU wedi talu sylw arbennig i'r sylwadau a wnaed gan Aelodau'r Cynulliad wrth gynnig y cwestiynau i'w cynnwys a'r trefniadau ar gyfer cynnal y Cyfrifiad yng Nghymru fel y nodir yn y Papur Gwyn hwn.

## Datganoli'r Cyfrifiad yn yr Alban a Gogledd Iwerddon

7.12 O dan delerau Deddf Cyfrifiad 1920, Cofrestrydd Cyffredinol yr Alban sy'n gyfrifol am gynnal y Cyfrifiad yn yr Alban. Ers datganoli, mae Senedd yr Alban yn gwbl gyfrifol am gymeradwyo is-ddeddfwriaeth ar wahân sy'n ymwneud â'r trefniadau penodol ar gyfer y Cyfrifiad yn yr Alban ynghyd â'i ariannu.

7.13 Mae gan Gofrestrydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon gyfrifoldebau tebyg, o dan ddarpariaethau Deddf Cyfrifiad (Gogledd Iwerddon) 1969 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cyfrifiad (Cyfrinachedd) (Gogledd Iwerddon) 1991 a Gorchymyn Diwygio'r Gyfraith (Darpariaethau Amrywiol) (Gogledd Iwerddon) 2005) am wneud trefniadau ar gyfer cynnal y Cyfrifiad yng Ngogledd Iwerddon, lle y caiff yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol ei chymeradwyo gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

7.14 Cyflawnir cysondeb ledled y DU drwy sicrhau bod tair Swyddfa'r Cyfrifiad mewn cysylltiad agos â'i gilydd ac yn cydweithredu, yn ogystal â thrwy'r cytundeb[42] rhwng yr Ystadegydd Gwladol a'r Cofrestrwyr Cyffredinol i gydweithio i gyflawni allbynnau cyson a chymaradwy o ran y Cyfrifiad a fydd yn bodloni gofynion defnyddwyr ac yn cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

# Cyfeiriadau


1 Comisiwn Ystadegau (2007). *Counting on Success – the 2011 Census: Managing the Risks*. Adroddiad rhif 36. Comisiwn Ystadegau.

2 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2005). *2001 Census General Report for England and Wales*. Palgrave Macmillan – ISBN 1-4039-8768-8.

3 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2008). *2011 Census Programme Business Case*.

4 Comisiwn Pensiynau (2005). *A new Pension Settlement for the Twenty-first Century*. The Second Report of the Pensions Commission. Y Llyfrfa.

5 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2003). *Alternatives to a census: review of international approaches*. Papur Gwybodaeth SYG. http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_population/international_approaches.pdf

6 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2003). *Alternatives to a census: review of previous UK studies*. Papur Gwybodaeth SYG. http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_population/previous_uk.pdf

7 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2003). *Alternatives to a census: linkage of existing data sources*. Papur Gwybodaeth SYG. http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_population/census 2011_admin_sources_review.pdf

8 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2003). *Alternatives to a census: rolling census*. Papur Gwybodaeth SYG. http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_population/rolling_census.pdf

9 Pwyllgor Trysorlys Tŷ'r Cyffredin (2002). *The 2001 Census in England and Wales*. First Report of the Session 2001–02. HC 310. Y Llyfrfa.

10 Y Gymuned Ewropeaidd (1957). *Treaty Establishing the European Union, Rome, 25 March 1957*. http://www.hri.org/docs/Rome57/Part1.html

11 Yr Undeb Ewropeaidd (2008). *Regulation of the European Parliament and Council on Population and Housing Censuses*. Rhif Rheoliad (CE) 763/2008 9 Gorffennaf 2008.

12 Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (2006). *Conference of European Statisticians' Recommendations for the 2010 Censuses of Population and Housing*. ECE/CES/STAT/NONE/2006/4. Cenhedloedd Unedig, Efrog Newydd a Genefa. ISSN 0069-8458.

13 Cenhedloedd Unedig (2006). *Principles and Recommendations for Population and Housing Censuses, Revision 2*. Series M No.67/Rev2. Cenhedloedd Unedig, Efrog Newydd. ISBN 978-92-1-161505-0.

14 Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2002). *Outsourcing the 2001 Census*. Report by the Comptroller and Auditor General. HC 1211, Session 2001/02. Y Llyfrfa.

15 Comisiwn Ystadegau (2003). *Census and population estimates and the 2001 Census in Westminster: final report.* Adroddiad rhif 22. Comisiwn Ystadegau.

16 Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin (2003). *The Office for National Statistics: Outsourcing the 2001 Census*. Ninth Report or Session 2002–03. HC 543. Y Llyfrfa.

17 Cymdeithas Llywodraeth Leol (2003). *2001 One Number Census and its quality assurance: a review*. LGA Research Briefing 6.03. Cymdeithas Llywodraeth Leol.

18 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2001). *National Statistics 2001 Area Classification*. SYG http://www.statistics.gov.uk/about/methodology_by_theme/area_classification/.

19 Benton, P *et al* (2006). *The 2007 Census Test: a major step towards the 2011 Census*. Population Trends 126 tt 16–28. Palgrave Macmillan.

20 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2008). *2007 Census Test Evaluation – key lessons learned.* Papur Grŵp Ymgynghori'r Cyfrifiad CAG(08)01. SYG http://www.ons.gov.uk/census/2011-census/consultations/user-adv-groups/census-adv-groups/general/index.html.

21 Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, Yr Alban (2007). *2006 Census Test Evaluation Report*. GROS http://www.gro-scotland.gov.uk/census/censushm2011/2006-census-test/2006-census-test-evaluation.html.

22 Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (2008). *2007 Census Test Northern Ireland Evaluation Report*. NISRA. http://www.nisranew.nisra.gov.uk/census/censusevaluation/2007test.html

23 Angela Dale and Catherine Marsh (golygyddion) (1993). *The 1991 Census User's Guide*. ISBN 0 11 691527 7. Llyfrfa Ei Mawrhydi.

24 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2005). *The 2011 Census: initial view on content for England and Wales*. Papur Ymgynghori. SYG.

25 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2004). *National Statistics Code of Practice: protocol on managing respondent load*. ISBN 0 11 703387 1. Y Llyfrfa.

26 Pwyllgor y Trysorlys (2008). *Counting the population*. Eleventh Report of Session 2007–08, Volume 1. HC 183–1. Y Llyfrfa.

27 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2008). *2011 Census in England and Wales Equality Impact Assessment: Ethnicity, National Identity, Language and Religion question development*. http://www.ons.gov.uk/census/2011-census/collecting-info/dev-questionnaires/index.html

28 Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2004). *Breaking the Cycle: taking stock of progress and priorities for the future*. A report from the Social Exclusion Unit. ISBN 0 85112 731 3. ODPM.

29 Sefydliad Llafur Rhyngwladol (2003). *Sources and Methods Labour Statistics. Vol 5: total and economically active population, employment and unemployment (population censuses).* Third edition. ILO, Genefa.

30 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2000). *Standard Occupational Classification 2000*. *Volume 1: Structure and descriptions of unit groups*. ISBN 13 9780116213884. *Volume 2: The Coding Index*. ISBN 13 9780116223891. Y Llyfrfa.

31 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2005). *The National Statistics Socio-economic Classification: User manual*. ISBN 1-4039-9647-4. Palgrave Macmillan.

32 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2007). *UK Standard Industrial Classification of Economic Activities (SIC 2007): Structure and explanatory notes*.

33 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2008). 2007 Test Income evaluation ONS. http://www.ons.gov.uk/census/2011-census/2011-census-project/2007-test/index.html

34 Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban (2006). Sexual orientation in the Census. http://www.gro-scotland.gov.uk/files/sexual-orientation-in-the-census.pdf

35 Statistics New Zealand (2003). Sexual orientation Focus Group Research. A qualitative study. http://www.stats.govt.nz/developments/sexual-orientation-research.htm

36 Statistics Canada (2004). 2006 Census Content Consultation Report. http://www.statcan.ca/bsolc/english/bsolc?catno=92-130-X
37 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2006). Sexual orientation and the 2011 Census: background information. http://www.statistics.gov.uk/about/data/measuring-equality/sexual-identity/default.asp
38 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2007). Coverage of Address Registers for the 2007 Census Test: Phase 1. http://www.ons.gov.uk/census/2011-census/collecting-info/geog-collection/index.html
39 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2008). Cynllun Iaith Gymraeg. http://www.statistics.gov.uk/StatBase/Product.asp?vlnk=11717&Pos=&ColRank=1&Rank=422
40 Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig (2001) *Handbook of Census Management for Population and Housing Censuses.* Cyfeirnod E.00.XVII.15 ST/ESA/STAT/SER.F/83. ISBN 13 9789211614299. Cenhedloedd Unedig, Efrog Newydd.
41 Papur Gwyn y Llywodraeth (1999). *The 2001 Census of Population*. Cm 4253. ISBN 0 10 142432 5. Y Llyfrfa.
42 Swyddfa Ystadegau Gwladol, Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yr Alban, Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (2006). *The conduct of the 2011 Censuses in the United Kingdom: statement of agreement of the National Statistician and the Registrars General for Scotland and Northern Ireland*. Ar gael o'r wefan Ystadegau Gwladol yn: http://www.ons.gov.uk/census/2011-census/2011-census-project/index.html
43 Astudiaeth Hydredol SYG http://www.statistics.gov.uk/services/longitudinal.asp
44 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2007). National Statistics Small Area Geography Consultation: results, analysis and implications for NS Geography policy. http://www.ons.gov.uk/about/consultations/closed-consultations/geography-policy-public-consultation/geography-policy-public-consultation.html
45 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2004). *National Statistics Code of Practice: protocol on data access and confidentiality*. ISBN 0 11 703411 8. Y Llyfrfa.
46 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2003). *Proposals for an Integrated Population Statistics System*. Discussion Paper. SYG. http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_population/ipss.pdf
47 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2008). 2011 Census commitment to confidentiality and data security. http://www.ons.gov.uk/census/2011-census/2011-census-project-commitment-to-confidentiality/index.html
48 *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2006*. Offeryn Statudol 2006 Rhif 3334. Y Llyfrfa.

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID5946282 12/08

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac mae ar gael:

**Ar-lein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu drwy Linell Ffôn Lo-Call y Senedd 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siopau'r Llyfrfa**
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

**Siop Lyfrau'r Senedd**
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

ISBN 978-0-10-850786-1